# FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL CYMRU

## Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

AWST 2020

# CYSWLLT

**MARTINA GIRVAN**
**CYFARWYDDWR TECHNEGOL – PENNAETH ECOLEG**

Arcadis.
ECHQ, 34 York Way
London N1 9AB
United Kingdom.

Hawlfraint © 2018 Arcadis. Cedwir pob hawl. arcadis.com

‘**Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040**’ fydd enw ein fframwaith datblygu cenedlaethol cyntaf pan gaiff ei gyhoeddi.  Cafodd yr asesiad hwn ei baratoi cyn ei gyhoeddi ac mae’n defnyddio’r enw ‘fframwaith datblygu cenedlaethol’ a’r ‘FfDC’ drwyddo.  Er crisialu’r ystyr, cymerir bod pob cyfeiriad at y fframwaith datblygu cenedlaethol yn golygu **Dyfodol Cymru – y Cynllun Cenedlaethol 2040**.

Hawlfraint © 2018 Arcadis. Cedwir pob hawl.  arcadis.com

# RHEOLI FERSIYNAU

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Gwiriwr | Cymeradwywr | Newidiadau |
|---|---|---|---|---|---|
| 01 | 21/5/19 | JW | LT | JD | Drafft Cyntaf |
| 02 | 3/6/19 | JW/LT/JD | LT | JD | Ail Ddrafft yn dilyn sylwadau gan Lywodraeth Cymru a diwygiadau i'r FfDC Drafft |
| 03 | 1/7/19 | LT/JD | LT | JD | Trydydd Drafft yn dilyn sylwadau terfynol gan Lywodraeth Cymru |
| 04 | Mawrth 2020 | LT | DH | MG | Yn seiliedig ar yr FfDC Drafft gan gynnwys newidiadau arfaethedig |
| 05 | Mehefin 2020 | LT/MG | JE/ST | MG | Yn seiliedig ar ddiwygiadau i P10 |
| 06 | Awst 2020 | JE | JE | MG | Adolygiad yn sgil diwygiadau i Bolisi P22 a'r angen am dai |

Paratowyd yr adroddiad hwn, dyddiedig Awst 2020, ar gyfer Llywodraeth Cymru (y "Cleient") yn unol â thelerau ac amodau'r apwyntiad (yr "Apwyntiad") rhwng y Cleient ac **Arcadis UK** ("Arcadis") at y dibenion a nodwyd yn yr Apwyntiad. I osgoi amheuaeth, ni all unrhyw berson(au) arall/eraill ddefnyddio neu ddibynnu ar yr adroddiad hwn neu ei gynnwys, ac nid yw Arcadis yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am ddefnydd neu ddibyniaeth o'r fath ar hynny gan unrhyw drydydd parti arall.

# CYNNWYS


GEIRFA ........ 2

ACRONYMAU ........ 4

CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 5

1 CYFLWYNIAD ........ 7
1.1 Diben ........ 7
1.2 Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ........ 7
1.3 Proses yr FfDC ........ 8
1.4 Dull cyflawni'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r FfDC ........ 9
1.5 Asesu effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar ........ 11

2 SGRINIO ........ 16
2.1 Dull Sgrinio ........ 16
2.2 Asesiad Sgrinio ........ 16
2.3 Casgliad Sgrinio ........ 31

3 EFFEITHIAU CYFUNOL ........ 32

4 ASESIAD PRIODOL ........ 33
4.1 Dull yr Asesiad Priodol ........ 33
4.2 Camau Osgoi / Lliniaru ........ 33
4.3 Tabl yr Asesiad Priodol ........ 36
4.4 Casgliad yr Asesiad Priodol (ar ei ben ei hun) ........ 79

5 EFFEITHIAU CYFUNOL ........ 80
5.1 Casgliad yr Asesiad Cyfunol ........ 83

6 CASGLIAD CYFFREDINOL ........ 84

7 CYFEIRIADAU ........ 85

**Atodiad A:** Tabl Crynhoi Camau Osgoi/Lliniaru yr Asesiad Priodol

**Atodiad B:** Ardaloedd Gwynt wedi'u Rhag-asesu

# Geirfa

| Geirfa | |
|---|---|
| Amcan Cadwraeth | Datganiad o'r dyheadau cadwraeth natur ar gyfer safle, a fynegir yn nhermau cyflwr ffafriol y rhywogaethau a/neu'r cynefinoedd y detholwyd y safle i'w gyrraedd. |
| Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) | Safle a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar sail ei gynefinoedd a/neu rywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd (yn cynnwys Prif Resymau/Nodweddion Cymhwyso – Cynefinoedd Atodiad I/Rhywogaethau Atodiad II). |
| Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) | Safle a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cadwraeth Adar Gwyllt ar sail rhywogaethau adar mudol prin, agored i niwed ac sy'n bresennol yn rheolaidd a gwlypdiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (yn cynnwys Erthygl 4.1/4.2 adar). |
| Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw | Ardaloedd a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel lleoliadau posibl ar gyfer datblygiad ynni'r gwynt yn y dyfodol (gweler Polisi 17). |
| Asesiad Priodol | Term a ddefnyddir i ddisgrifio Cam 2 y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae angen Asesiad Priodol os penderfynir bod perygl y gallai cynllun neu brosiect gael effaith sylweddol niweidiol ar safle Natura 2000/ Ramsar, naill ai ar ei ben ei hun neu'n gyfunol â chynlluniau neu brosiectau eraill. |
| Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Yr asesiad o effaith y prosiect neu gynllun, naill ai ar ei ben ei hun neu o'i gyfuno â phrosiectau neu gynlluniau eraill, ar gyfanrwydd y safle Natura 2000/ Ramsar, o safbwynt strwythur a swyddogaeth y safle a'i amcanion cadwraeth. |
| Camau gwneud iawn | Camau y bwriedir iddynt sicrhau bod cydlyniant y rhwydwaith Natura 2000 yn cael ei ddiogelu lle na ellir diystyru effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle, ac yn absenoldeb atebion amgen, y mae'n rhaid i'r cynllun neu brosiectau fynd rhagddynt am Resymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI). Mae'n rhaid iddynt gael eu gwahaniaethu'n eglur o gamau lliniaru. |
| Camau lliniaru | Ar ôl osgoi, cam neu gamau yw lliniaru y gellir eu cymryd i leihau neu ddileu effeithiau niweidiol cynllun neu brosiect ar safle Natura 2000/ Ramsar. |
| Clustogfeydd | Gall effeithiau ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Diffinnir y 'clustogfeydd' a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn fel yr ardaloedd o gwmpas safle Natura 2000/ Ramsar lle mae'r potensial o effeithiau yn debygol o fod fwyaf (gweler Adran 1.5). |
| Cynefin | Y man lle mae planhigyn neu anifail yn byw. |
| Cynefinoedd Atodiad I | Cynefin naturiol sydd wedi'i restru o dan Atodiad I y Gyfarwyddeb Cynefinoedd y gellir dethol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar eu sail. |
| Effaith niweidiol (ar gyfanrwydd) | Effaith negyddol ar y safle Natura 2000/ Ramsar a/neu ei nodweddion cymhwyso a allai arwain at effaith sylweddol sy'n tanseilio Amcanion Cadwraeth y safle, a/neu arwain at golled swyddogaeth ecolegol. |
| Effaith Sylweddol Debygol | Effaith debygol yw un na ellir ei diystyru ar sail gwybodaeth wrthrychol. Tebygolrwydd o effaith yw'r prawf, yn hytrach na sicrwydd y bydd yr effaith honno'n digwydd, h.y. ceir perygl, neu bosibilrwydd y bydd effaith yn sylweddol. |

| Geirfa | |
|---|---|
| Nodweddion cymhwyso (safle) | Y cynefinoedd neu'r rhywogaethau y dosbarthwyd safle yn AGA neu y dynodwyd safle yn ACA neu y rhestrwyd safle fel safle Ramsar ar eu sail. |
| Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig | Rhan o'r profion rhanddirymiadau yn Erthygl 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Rheoliadau 62 a 103 y Rheoliadau Cynefinoedd a Rhan 4 cam 4 yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, sefyllfa a fyddai'n caniatáu i gynlluniau neu brosiectau a allai gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000/ Ramsar ddigwydd. |
| Rhywogaethau Atodiad II | Rhywogaeth o dan Atodiad II y Gyfarwyddeb Cynefinoedd y gall Ardaloedd Cadwraeth Arbennig gael eu dewis ar eu sail. |
| Safle morol Ewropeaidd | Y rhannau o safle Natura 2000/ Ramsar sy'n ardaloedd morol. |
| Safle Natura 2000 | Y rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd gwarchodedig a sefydlwyd o dan y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar. |
| Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) | Dynodiad cenedlaethol (DU) ar gyfer safleoedd yr ystyrir eu bod o ddiddordeb arbennig oherwydd ffawna, fflora, daearegol neu ffisiograffig. |
| Safle Ramsar | Safle a ddynodwyd o dan Gonfensiwn Ramsar 1971 fel gwlypdir o bwysigrwydd rhyngwladol. |
| Sgrinio | Term a ddefnyddir i ddisgrifio Cam 1 y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac sy'n nodi'r potensial o Effaith Sylweddol Debygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. |
| Statws cadwraeth ffafriol | Amrywiaeth o amodau ar gyfer cynefin naturiol neu rywogaeth lle nad yw cyfanswm y dylanwadau sy'n gweithredu ar y cynefin neu'r rhywogaeth honno yn effeithio'n niweidiol ar ei dosbarthiad, ei thoreth, ei strwythur neu ei swyddogaeth drwy'r UE yn yr hirdymor. Y cyflwr y gall y cynefin neu'r rhywogaeth gynnal ei hun ynddo ar sail hirdymor. |
| Tir â chysylltiad swyddogaethol | Nid yw rhywogaethau sy'n gysylltiedig â safle dynodedig wedi eu cyfyngu i ffiniau'r lleoliad hwnnw a byddant yn aml yn defnyddio cynefinoedd y tu allan i'r safle i fwyta, clwydo a/neu fridio. Os bydd y cynefin hwn yn hanfodol i weithrediad y safle dynodedig trwy fod yn hanfodol i gynnal y nodwedd gymhwyso, byddai hwn yn cael ei ystyried yn 'dir â chysylltiad swyddogaethol'. Fel y cyfryw, byddai angen i'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd gymryd unrhyw effeithiau posibl ar y cynefinoedd hyn i ystyriaeth. |

Mae teitlau'r safleoedd yn y ddogfen hon yn adlewyrchu rhestrau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ac os oes gan safle deitl dwyieithog, y fersiwn Gymraeg yn unig a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

Rhestrau'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur –

ACAau: https://sac.jncc.gov.uk/site/wales

AGAau: https://jncc.gov.uk/our-work/list-of-spas/

Safleoedd Ramsar: https://jncc.gov.uk/our-work/ramsar-sites/

# Acronymau

| Acronymau | |
|---|---|
| ACA | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| CEMP | Cynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| FfDC | Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
| IROPI | Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig |
| PAA | Ardaloedd wedi'u Rhag-asesu |
| PAC | Polisi Amaethyddol Cyffredin |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| RSZ | Ardal Gynhaliaeth y Glwyd |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |
| UE | Undeb Ewropeaidd |

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r Adroddiad hwn yn darparu camau Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad Priodol o Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Llywodraeth Cymru (yr FfDC drafft gan gynnwys newidiadau arfaethedig) dyddiedig Medi 2020. Mae'r Adroddiad hwn yn crynhoi sut y mae'r FfDC wedi esblygu o'r cam Materion ac Opsiynau hyd at yr FfDC cyfredol, ynghyd â'r gwaith Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a wnaed ar bob cam o'r broses. Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn nodi bod yn rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar bob Cynllun a Phrosiect sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cefnogi cynefinoedd neu rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, a adnabyddir hefyd fel safleoedd Natura 2000 neu safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Yn y Deyrnas Unedig (DU), caiff gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd eu hymestyn hefyd i ystyried yr effeithiau ar safleoedd Ramsar (a restrir o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd O Bwysigrwydd Rhyngwladol). Mae presenoldeb safleoedd Natura 2000/Ramsar yng Nghymru, a'r effeithiau posibl a allai godi o ganlyniad i weithredu'r FfDC, yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad gael ei gynnal o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

**Sgrinio**

Mae'r cam sgrinio wedi darparu asesiad lefel uchel i benderfynu a yw'n bosibl y gallai'r FfDC arwain at Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Diben hyn oedd cael gwared ar yr elfennau hynny o'r FfDC o'r asesiad yr oedd yn eglur iawn na fyddent yn effeithio ar safleoedd dynodedig er mwyn canolbwyntio ar y polisïau hynny lle'r oedd potensial ar gyfer effeithiau neu ansicrwydd ynghylch effeithiau posibl. Sgriniwyd Penodau 1 a 2 yr FfDC allan gan eu bod yn cynnwys testun cyflwyniadol a gwybodaeth gyd-destunol na fyddent yn arwain at unrhyw effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Mae Pennod 3 yn cynnwys Canlyniadau'r FfDC. Er bod gan yr holl ganlyniadau y potensial i arwain at newid, gan mai'r polisïau yw'r dull y bydd y canlyniadau yn cael eu cyflawni drwyddo, roedd asesiad o'r polisïau eu hunain (sy'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl) yn fwy priodol. Sgriniwyd Pennod 3 allan o asesiadau pellach hefyd felly. O'r 36 o bolisïau a nodir ym Mhenodau 4 a 5 yr FfDC, sgriniwyd 12 allan o Asesiad Priodol pellach gan y byddent naill ai ddim yn arwain yn uniongyrchol at newid, neu os oeddent, byddai unrhyw newid ar raddfa mor fach na fyddai unrhyw Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar naill ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol. Ystyriwyd bod gan y 24 polisi a oedd yn weddill y potensial i gyfarwyddo datblygiad yn y dyfodol yn y fath fodd y gallai fod goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Sgriniwyd y polisïau hyn i mewn ar gyfer Asesiad Priodol pellach felly, ar eu pen eu hunain ac yn gyfunol.

**Asesiad Priodol**

Ar gyfer prosiectau, mae angen manylion llawn y cynigion i benderfynu ar y camau lliniaru sydd eu hangen cyn y gellir dod i gasgliad ystyrlon a fydd gan brosiect ddim Effeithiau Sylweddol Tebygol ai peidio, neu ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd. Nid yw hyn yn bosibl ar gyfer cynlluniau, yn enwedig cynlluniau lefel uchel fel yr FfDC, sydd yn strategol eu natur trwy ddiffiniad. Mae cynlluniau ctrategol haen uwch yn pennu'r fframwaith polisi cyffredinol y mae'n rhaid i gynlluniau a phrosiectau haen is gydymffurfio ag ef. Yn y mwyafrif o achosion, ni fydd manylion penodol datblygiad y darperir ar ei gyfer mewn cynllun ar gael tan ddyddiad diweddarach, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Yn achos yr FfDC, bydd hyn trwy Gynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a dogfennau a phrosiectau cynllunio strategol eraill sy'n cael eu cyflwyno yn ystod cyfnod y cynllun. Ar gyfer yr FfDC, ceir nifer o bolisïau ag elfen ofodol. Ar gyfer y rhain, nodir y safleoedd Natura 2000/Ramsar a allai gael eu heffeithio o ganlyniad i'r polisi (pan fo'n bosibl) gydag enghreifftiau o'r mathau o effeithiau a allai godi. Gan nad oes unrhyw neilltuadau neu gynigion datblygu penodol wedi eu nodi yn yr FfDC, nid yw'n bosibl ar y lefel uchel hon i nodi'r holl effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithredu polisi; fodd bynnag, mae'r broses Asesiad Priodol wedi penderfynu ar y mathau o effeithiau sydd fwyaf tebygol o gael eu hwynebu ac wedi nodi camau ar gyfer pob un o'r polisïau a fyddai'n osgoi/ lliniaru rhag mathau o effeithiau o'r fath. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Panelau Cynllunio Strategol a datblygwyr gydymffurfio â'r camau hyn wrth weithredu'r polisïau i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Daeth yr Asesiad Priodol i'r casgliad na ystyriwyd bod yr un o'r polisïau yn yr FfDC yn cyfarwyddo datblygiad yn weithredol mewn lleoliad neu fodd o'r fath na ellid osgoi neu liniaru effeithiau posibl yn deillio o brosiectau a gyflwynir o dan y polisïau (neu gynlluniau haen is a fydd yn nodi cyfleoedd datblygu ar gyfer neilltuo) ar y lefel cynllun neu brosiect haen is.

**Effeithiau cyfunol**

Mae'r asesiad cyfunol ar y lefel uchel hon yn gyfyngedig o reidrwydd, ac felly ni ellir diystyru effeithiau cyfunol yn llwyr. Fodd bynnag, o gofio ei bod yn ofynnol i bob cynllun a phrosiect sydd â'r potensial i effeithio ar

safleoedd Natura 2000/ Ramsar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Polisi Cynllunio Cymru 10 a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 5 cynllunio a chadwraeth natur fel mater o gyfraith, byddai unrhyw effeithiau cyfunol yn cael eu nodi a chamau lliniaru priodol yn cael eu datblygu ar gamau haen is dilynol gweithrediad yr FfDC. Bydd cydymffurfiad â Pholisi Cynllunio Cymru 10, TAN5 a'r camau osgoi/lliniaru a nodir yn erbyn pob un o'r polisïau yn yr FfDC yn sicrhau dim effeithiau cyfunol niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw gynlluniau neu brosiectau haen is, yn gysylltiedig â pholisïau yn yr FfDC, pan na ellir osgoi effeithiau cyfunol niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy liniaru. Mae'r asesiad cyfunol yn dod i'r casgliad felly (gan dybio bod y camau osgoi/ lliniaru a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cael eu gweithredu), na fyddai unrhyw effeithiau cyfunol niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisïau a nodir yn yr FfDC.

**Casgliad Cyffredinol**

Er bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn wedi ei gwneud yn eglur ei bod yn anodd ar y cam strategol iawn hwn yn y broses cynllunio datblygiad yng Nghymru i fod yn eglur ynghylch sut y gallai safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio neu beidio gan benderfyniadau polisi strategol, mae'n bwysig nodi bod y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi cael eu hystyried trwy gydol y broses o ddatblygu'r Cynllun, fel bod osgoi'r problemau yn gynnar (a/neu leihau risg) wedi bod yn elfen allweddol o'r broses wrth lunio'r polisïau yn yr FfDC. Yn gyntaf mae'n bwysog nodi y gofyniad cyfreithiol i gynlluniau a phrosiectau haen is sydd â'r potensial i effeithio ar safle Natura 2000/ Ramsar (drwy'r Rheoliadau Cynefinoedd (2017), Polisi Cynllunio Cymru 10 a TAN5) gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Yn ail, mae Tabl 7 yr Asesiad Priodol yn nodi'r mathau o effeithiau a allai godi trwy weithredu'r polisïau ac yn nodi camau osgoi/lliniaru y mae'n rhaid cydymffurfio a nhw wrth lunio cynlluniau a phrosiectau haen is i sicrhau dim effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Gyda'i gilydd mae'r ddau ffactor hyn yn sicrhau digon o gamau diogelu i allu cadarnhau na ragwelir unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd o ganlyniad i weithredu'r polisïau yn yr FfDC (ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol).

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Diben

Mae’r Adroddiad hwn yn darparu camau Sgrinio’r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a’r Asesiad Priodol o FfDC Llywodraeth Cymru (y Fframwaith drafft gan gynnwys newidiadau arfaethedig) dyddiedig 20 Ebrill 2020. Mae’r Adroddiad hwn yn crynhoi sut y mae’r FfDC wedi esblygu o’r cam Materion ac Opsiynau hyd at yr FfDC, ynghyd â’r gwaith Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a wnaed ar bob cam o’r broses.

Mae’r Adroddiad hwn yn cynnwys y gwaith o Sgrinio’r polisïau a gyflwynir yn yr FfDC wedi ei ddilyn gan yr Asesiad Priodol o’r polisïau hynny lle na ellid sgrinio’r Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar allan.

## 1.2 Proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Mae Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y’u diwygiwyd, y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel y ‘Rheoliadau Cynefinoedd’) yn nodi bod yn rhaid cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar bob Cynllun a Phrosiect sydd â’r potensial i effeithio ar safleoedd a ddynodwyd ar gyfer cefnogi cynefinoedd neu rywogaethau o bwysigrwydd rhyngwladol, a adnabyddir hefyd fel safleoedd Natura 2000 neu safleoedd dynodedig Ewropeaidd. Yn y DU, caiff gofynion y Rheoliadau Cynefinoedd eu hymestyn hefyd i ystyried yr effeithiau ar safleoedd Ramsar (a restrir o dan Gonfensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol). Mae presenoldeb safleoedd Natura 2000/Ramsar yng Nghymru, a’r effeithiau posibl a allai godi o ganlyniad i weithredu’r FfDC, yn ei gwneud yn ofynnol i asesiad gael ei gynnal o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

O ran Brexit, sylwer y bydd Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 yn parhau i fod yn weithredol o’r diwrnod Ymadael (31 Ionawr 2020) tan ddiwrnod Cwblhau’r Cyfnod Gweithredu (31 Rhagfyr 2020), heb unrhyw un o’r diwygiadau yn ymwneud â Brexit a wneir gan Reoliad Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (Diwygio) (Ymadael â’r UE) 2019. O ganlyniad i ddarpariaethau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020, mae’r newidiadau hyn i’r Rheoliadau Cynefinoedd sy’n gysylltiedig â Brexit wedi’u gohirio tan ddiwrnod Cwblhau’r Cyfnod Gweithredu. Felly, at ddibenion yr asesiad hwn, bydd Rheoliadau 2017 yn cael eu defnyddio sy’n ymgorffori’r holl ddiwygiadau cyfredol a wnaed am resymau nad ydynt yn ymwneud â Brexit.

### Beth yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?

O dan Erthygl 6 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd (a Rheoliad 105 y Rheoliadau Cynefinoedd), mae asesiad yn ofynnol pan allai cynllun arwain at Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safle Natura 2000. Mae safleoedd Natura 2000 yn cynnwys Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) (gan gynnwys ‘ymgeiswyr’ ACA) ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) (gan gynnwys AGAau arfaethedig). Yn y DU, mae’n ofyniad i safleoedd Ramsar gael eu cynnwys yn yr asesiad:

- Caiff ACAau eu dynodi o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar sail eu cynefinoedd a/neu rywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd (gan gynnwys Prif Resymau/Nodweddion Cymhwyso - Atodiad I Cynefinoedd/Atodiad II Rhywogaethau).
- Caiff AGAau eu dynodi o dan y Gyfarwyddeb ar Warchod Adar Gwyllt ar sail rhywogaethau adar mudol prin, agored i niwed ac sy’n ymddangos yn rheolaidd a gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (gan gynnwys adar Erthygl 4.1/4.2).
- Caiff safleoedd Ramsar eu dynodi o dan Gonfensiwn Ramsar ar sail eu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (gan gynnwys Meini Prawf).

Gellir diffinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd fel:

> *Yr ystyriaeth o effaith y prosiect neu’r cynllun ar gyfanrwydd y safle Natura 2000, naill ai ar ei ben ei hun neu yn gyfunol â phrosiectau neu gynlluniau eraill, o ran strwythur a swyddogaeth y safle a’i amcanion cadwraeth*

Pan:

- Ystyrir cyfanrwydd fel *cydlyniant ei strwythur a'i swyddogaeth ecolegol, ar draws ei holl arwynebedd, sy'n caniatáu iddo gynnal cynefin, cymhlyg o gynefinoedd a/neu lefelau'r poblogaethau o'r rhywogaethau y cafodd ei ddosbarthu o'u herwydd* - felly mae hyn yn mynd y tu hwnt i fân effeithiau;
- Cynhelir asesiad o'r goblygiadau i'r safle o safbwynt ei amcanion cadwraeth (maint/cyflwr cynefinoedd, maint/statws poblogaethau – a nodir mewn Cynlluniau Rheoli Craidd, Cynlluniau Gwella â Blaenoriaeth, ac ati);
- Mae effaith yn sylweddol pe byddai'n tanseilio amcanion cadwraeth y safle (Dyfarniad Waddenzee[1]) – mae hwn yn cynrychioli dirprwy ar gyfer effaith ar gyfanrwydd safle.

Mae'n bosibl rhoi cydsyniad i gynllun a fyddai'n cael effeithiau sylweddol, ond o dan Erthygl 6(4) (Cyfarwyddeb Cynefinoedd CE), os ydych yn debygol o gael effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000/ Ramsar, yna mae'n rhaid iddo gydymffurfio â'r canlynol (yn unol â *Managing Natura 2000 sites - The provisions of Article 6 of the 'Habitats' Directive 92/43/EEC - Tachwedd 2018)*:

- y dewis arall a gynigiwyd ar gyfer cymeradwyaeth yw'r lleiaf niweidiol i'r safle(oedd) Natura 2000 ... ac nad oes unrhyw ddewis arall ymarferol yn bodoli na fyddai'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle(oedd);
- ceir rhesymau hanfodol o fudd cyhoeddus tra phwysig; a
- chymerir pob mesur gwneud iawn sy'n angenrheidiol i sicrhau bod cydlyniant cyffredinol Natura 2000 yn cael ei ddiogelu.

Gan ei bod yn eithriad i Erthygl 6(3), mae'n rhaid dehongli'r ddarpariaeth hon yn llym, a gellir ei chymhwyso dim ond i amgylchiadau lle mae'r holl amodau sy'n ofynnol o dan y Gyfarwyddeb, a restrir uchod, wedi'u bodloni'n llawn.

### Deddfwriaeth a Chanllawiau

Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cael ei gynnal yn unol â gofynion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017, fel y'u diwygiwyd. Trwy wneud hynny, mae'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn wedi manteisio ar y canllawiau canlynol:

- Y Comisiwn Ewropeaidd, *Managing Natura 2000 sites: The provisions of Article 6 of the Habitats Directive 92/43/EEC*.
- Y Comisiwn Ewropeaidd, *Guidance document on Article 6(4) of the Habitats Directive 92/43/EEC*.
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (2006) *Planning for the Protection of European Sites: Appropriate Assessment. Guidance for Regional Spatial Strategies and Local Development Documents*.
- David Tyldesley and Associates (DTA) Publications Limited, *The Habitats Regulations Assessment Handbook*.
- People Over Wind a Sweetman yn erbyn Coillte Teoranta – Llys Cyfiawnder Ewrop, Achos C323/17.

## 1.3 Proses yr FfDC

Datblygwyd yr FfDC dros gyfnod o 4 flynedd gan gynnwys ymarferion ymgynghori lluosog gydag amrywiaeth o randdeiliaid o bob cwr o Gymru. Cynllun gofodol yw'r FfDC sy'n pennu cyfeiriad ar gyfer lle y dylid canolbwyntio buddsoddiadau mewn seilwaith a datblygiad, fel eu bod yn cyfrannu at uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru ac at lesiant cymunedau. Nod yr FfDC yw darparu cyd-destun gofodol ar gyfer y ddarpariaeth o bolisi datblygu a chynllunio cenedlaethol yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae'r FfDC yn rhan hanfodol o'r system gynllunio yng Nghymru felly. Mae rhagor o wybodaeth am yr FfDC a'r system gynllunio ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cam cyntaf yr FfDC oedd casglu tystiolaeth, ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid a chyflwyno amcanion drafft ar gyfer datblygu yng Nghymru yn y dyfodol, ynghyd â chyfres o opsiynau gofodol. Daeth y cam hwn i ben trwy

[1] Achos CE C-127/02 *Reference for a Preliminary Ruling 'Waddenzee'* Medi 2004

baratoi dogfen ymgynghori fanwl. Nodwyd pum opsiwn gofodol, pob un â gwahanol bwyslais o ran cyfeiriad cynlluniau, rhaglenni a strategaethau datblygu yng Nghymru yn y dyfodol. Lluniwyd dogfen Synnwyr y Fawd (a atodwyd i'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer yr FfDC Drafft ym mis Gorffennaf 2019) gan Arcadis i roi cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y dylai hwn ddylanwadu ar ddrafftio cychwynnol yr FfDC (mae'r ddogfen hon ar gael yn: https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft) .

Y pum opsiwn gofodol oedd:

- Canolbwyntio ar Gymunedau
- Canolbwyntio ar Dwf yn yr Ardaloedd Marchnad Cryfaf
- Canolbwyntio ar Ddatgarboneiddio
- Canolbwyntio ar Gydnerthedd Adnoddau Dynol
- Peidio â Pharatoi'r FfDC.

Nododd yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer yr FfDC wedyn sut y byddai'r system cynllunio defnydd tir yn cefnogi nodau hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015 yn ogystal â pholisïau llywodraeth eraill. Roedd gan Opsiwn a Ffefrir yr FfDC ddwy swyddogaeth allweddol: darparu cyfeiriad gofodol ar gyfer twf a seilwaith newydd a nodi meysydd o newid, gwarchod, gwella a lliniaru; ac i sefydlu'r cyfeiriad ar gyfer polisi gofodol strategol. Fe'i datblygwyd ar sail pum thema:

- Creu Lleoedd;
- Lleoedd Unigryw a Naturiol;
- Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus;
- Lleoedd Actif a Chymdeithasol; a
- Rhanbarthau Cymru.

Roedd yr FfDC drafft yn cynnwys 33 o bolisïau yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau a oedd yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygiad yng Nghymru rhwng 2020 a 2040. Cynhaliwyd gwaith Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau a'r Asesiad Priodol ar y ddogfen hon a gwnaed yr FfDC drafft a dogfennau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysylltiedig (Gorffennaf 2019) yn destun ymgynghoriad cyhoeddus wedi hynny yn ystod yr hydref yn 2019. (Mae'r ddogfen hon ar gael yn: https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft).

Derbyniodd Llywodraeth Cymru 1,088 o ymatebion i'r broses ymgynghori gyhoeddus, a chafodd pob un ohonynt ei ddarllen, ei ddadansoddi a'i ystyried. Mae'r adroddiad ymatebion ymgynghori [https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-drafft] yn cynnig rhagor o fanylion am hyn. Tynnodd yr ymgynghoriad cyhoeddus sylw at nifer o feysydd (fel y polisïau ynni adnewyddadwy) lle byddai angen diwygiadau i'r FfDC. Diweddarwyd yr FfDC wedi hynny, a chyhoeddwyd y ddogfen gyfredol, sy'n cynnwys 36 o bolisïau, ym mis Awst 2020. Mae'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn (a ddiweddarwyd ar Awst 2020) yn cymryd yr ymatebion ymgynghori i ystyriaeth, yn ogystal â newidiadau i'r FfDC ei hun.

## 1.4 Dull cyflawni'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r FfDC

Mae Tabl 1 yn crynhoi camau'r FfDC a mewnbynnau cyfatebol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a ddarparwyd

*Tabl 1: Yr FfDC a Mewnbwn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd*

| Cam yr FfDC | Mewnbwn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
|---|---|
| Casglu Tystiolaeth | Datblygwyd dogfen **Synnwyr y Fawd** (Awst 2017) a roddodd gyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch gofynion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a sut y dylai hwn ddylanwadu ar ddrafftio cychwynnol yr FfDC. Nodwyd manylion y safleoedd dynodedig yng Nghymru a'r |

| Cam yr FfDC | Mewnbwn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd |
|---|---|
| | mathau o lwybrau effaith posibl yn y ddogfen. Crëwyd ffeil System Gwybodaeth Ddaearyddol i wirio lleoliadau datblygu posibl ar gyfer presenoldeb safleoedd dynodedig a'r mathau o ddatblygiad a allai effeithio ar safleoedd o'r fath. Dyluniwyd y ddogfen Synnwyr y Fawd fel canllaw i gynorthwyo datblygiad amcanion, polisi a lleoliadau strategol. |
| Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir | **Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Rhagarweiniol** (Ebrill 2018) – Darparodd y ddogfen hon adolygiad lefel uchel o Amcanion, Materion ac Opsiynau ac Opsiwn a Ffefrir yr FfDC drafft. Roedd yr Adroddiad Sgrinio yn cynnwys argymhellion i hysbysu datblygiad polisi parhaus yr FfDC. |
| FfDC Drafft | **Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer yr FfDC** (Gorffennaf 2019) – roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys yr Asesiad Cyfunol, ynghyd â'r Asesiad Sgrinio ac Asesiad Priodol o'r polisïau drafft. |
| Fersiwn gyfredol o'r FfDC Drafft | **Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer yr FfDC cyfredol (Awst 2020)** – Yn dilyn cyfnod ymgynghori cyhoeddus yn 2019, mae'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cymryd i ystyriaeth sylwadau ymgynghori a diweddariadau dilynol a wnaed i'r FfDC i gyhoeddi a mabwysiadu'r cynllun. |

Roedd cam cyntaf yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer y prosiect FfDC yn cynnwys cyfnod o gasglu tystiolaeth ac ymchwil cefndirol i grynhoi manylion y safleoedd Natura 2000/ Ramsar y byddai angen cyfeirio atynt drwy gydol y broses. Yn ystod y cam hwn, lluniwyd dull System Gwybodaeth Ddaearyddol a dogfen 'Synnwyr y Fawd' i ategu'r wybodaeth a ddarparwyd yn y System Gwybodaeth Ddaearyddol. Cafodd y ddogfen 'Synnwyr y Fawr' ei hatodi i'r Adroddiad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar gyfer yr FfDC Drafft (Gorffennaf, 2019) [sylwer y lluniwyd y ddogfen hon ar gam cynnar datblygiad yr FfDC (ym mis Awst 2017), ac felly bydd rhai o'r wybodaeth a ddarparwyd wedi cael ei disodli wrth i'r Cynllun esblygu ac ni ddylai gael ei defnyddio gan ymarferwyr wrth ddatblygu cynlluniau haen is].

Yn dilyn y cyfnod casglu tystiolaeth, datblygwyd cyfres o amcanion FfDC drafft ac opsiynau gofodol; roedd hyn yn cynnwys pedwar gwahanol opsiwn gofodol drafft ac opsiwn meincnod, yn ogystal â drafft cyntaf yr amcanion. Lluniwyd Opsiwn a Ffefrir drafft ar gyfer yr FfDC wedyn (gan gynnwys y Strategaeth Ofodol a Ffefrir), a pharatowyd Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd rhagarweiniol yn asesu'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Nid oedd yr Opsiwn a Ffefrir yn cynnwys unrhyw bolisïau gofodol penodol yn nodi cyfleoedd neu leoliadau datblygu posibl. Heb fanylion penodol, nid oedd yn bosibl cadarnhau a fyddai'r amcanion neu gyfarwyddiadau'r strategaeth ofodol yn cael Effaith Sylweddol Debygol ar safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Diwygiwyd amcanion a chyfarwyddyd gofodol polisïau'r FfDC felly i nodi a allai fod unrhyw oblygiadau *posibl* i safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Caniataodd nodi goblygiadau posibl o'r fath i'r Tîm Cynllunio Llywodraeth Cymru i gymryd i ystyriaeth wrth i'r polisïau yn yr FfDC drafft gael eu datblygu.

Datblygwyd FfDC drafft a oedd yn cynnwys 33 o bolisïau yn 2018. Lluniwyd y fersiwn hon o'r FfDC yn cynnwys 36 o bolisïau ym mis Mawrth 2019. Yr FfDC yw'r haen uchaf o gynllun datblygu yng Nghymru ac mae'n canolbwyntio ar faterion a heriau ar raddfa genedlaethol. Nid yw'n nodi prosiectau penodol felly, nac yn neilltuo datblygiad i bob rhan o Gymru, ac nid yw chwaith yn cynnwys polisïau ar bob math o ddefnydd tir. Yn hytrach, mae'n fframwaith a fydd yn cael ei ategu a'i gefnogi gan Gynlluniau Datblygu Strategol ar lefel ranbarthol a Chynlluniau Datblygu Lleol ar lefel awdurdod lleol. Y cynlluniau 'haen is' hyn fydd yn cynnig mwy o fanylion am leoliadau penodol a mathau o seilwaith a datblygiad.

Yn unol â chanllawiau DTA, er mwyn canfod na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000/ Ramsar, caiff corff llunio cynlluniau ddibynnu ar gamau lliniaru mewn cynllun haen is neu lefel prosiect dim ond os bydd y tri maen prawf canlynol wedi eu bodloni:

- *Ni all asesiad y cynllun lefel uwch ragweld yn rhesymol unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd mewn ffordd ystyrlon; tra bydd gan*
- *Y cynllun haen is neu lefel prosiect, a fydd yn nodi'n fwy cywir natur, amseriad, hyd, maint neu leoliad datblygiad, ac felly ei effeithiau posibl, yr hyblygrwydd angenrheidiol o ran union natur,*

*amseriad, hyd, maint a lleoliad y cynnig i alluogi effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle i gael ei hosgoi; ac*

- *Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r cynllun neu brosiect haen is yn ofynnol fel mater o gyfraith neu bolisi Llywodraeth.*

O ystyried natur yr FfDC, y cynlluniau a'r prosiectau haen is fydd yn cynnwys manylion digonol felly i ganiatáu asesiad ystyrlon o'r effeithiau posibl y gallai datblygiad o'r fath eu cael ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel hon yr hierarchaeth gynllunio yn angenrheidiol lefel uchel a rhagofalus felly.

Mae'r cam Sgrinio yn nodi'r polisïau hynny yr ystyrir y gallent arwain at ddatblygiad a allai fod â'r *potensial* o Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Cynorthwyodd y ddogfen Synnwyr y Fawd i ganolbwyntio'r asesiad sgrinio ar y mathau hynny o ddatblygiadau a allai effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau cymwys safleoedd Natura 2000/ Ramsar (gweler hefyd 1.5, isod, am grynodeb o'r broses asesu hon). Aethpwyd â'r polisïau a 'sgriniwyd i mewn' i'r Asesiad Priodol wedyn, a nododd effeithiau penodol i bolisi a chamau osgoi/lliniaru cysylltiedig; nod hyn oedd tynnu sylw at y materion penodol y byddai angen mynd i'r afael â nhw yn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd cynlluniau a phrosiectau haen is.

Fel y nodir yn y trydydd pwynt bwled uchod, mae'n ofynnol i bob cynllun a phrosiect haen is sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar (ni waeth pa mor agos ydynt at y safleoedd hyn) gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017) fel mater o gyfraith. Felly, beth bynnag fo'r geiriad polisi sydd wedi ei gynnwys yn yr FfDC, byddai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd statudol o gynlluniau/ prosiectau haen is yn ofynnol. Mae Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) hefyd yn cyflwyno gofyniad ar gynllunwyr a datblygwyr i gynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd os nodwyd effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Mae Polisi Cynllunio Cymru 10 yn nodi:

'*Nid yw'r ffaith fod gan safle ddynodiad statudol yn gwahardd datblygu o reidrwydd, ond rhaid i gynigion gael eu hasesu'n ofalus er mwyn sicrhau y deellir yn glir yr effaith ar y buddiannau gwarchod natur hynny y mae'r dynodiad yn ceisio'u gwarchod; dylid gwrthod datblygiad lle ceir effeithiau andwyol ar y nodweddion y cafodd y safle ei ddynodi i'w gwarchod. Dylid cyflawni cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cadwraeth rhyngwladol a chenedlaethol yn llawn, a dylid gwarchod safleoedd dynodedig statudol rhag difrod a dirywiad yn unol ag amcanion y dynodiad, gyda'u nodweddion pwysig yn cael eu gwarchod a'u gwarchod trwy reoli'n briodol. Am ragor o wybodaeth am Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd gweler Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur*.'

Serch hynny, mae'n bwysig bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn o'r FfDC haen uwch yn nodi'r mathau o effeithiau posibl a allai ddeillio o weithredu polisi, a sut y gellid osgoi/lliniaru'r rhain yn ddiweddarach (h.y. tynnu sylw at broblemau posibl yn gynnar), yn ogystal â darparu'r sicrwydd polisi lefel uchel y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a datblygwyr yn y dyfodol yn dilyn y broses angenrheidiol i nodi ac asesu goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/Ramsar wrth neilltuo tir ar gyfer datblygu. Bydd angen i'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd dilynol ar lefel Cynllun Datblygu Lleol, neu hyd yn oed lefel prosiect gymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn i lywio eu datblygiad polisi a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru pan nodir y potensial ar gyfer effeithiau niweidiol. Amlinellir croesgyfeiriad at yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn a'r camau osgoi/ lliniaru arfaethedig (a nodir yn Adran 4) ym Mhennod 1 yr FfDC (gan gynnwys dolen i'r adran osgoi/ lliniaru).

Mae'n bwysig nodi mai dyma sut y mae'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ailadroddol yn sicrhau na ellir cydsynio neu weithredu cynlluniau a phrosiectau heb sicrhau yn gyntaf na fyddent yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd Natura 2000 a Ramsar. Mae'r adran nesaf yn disgrifio sut y caiff yr effeithiau posibl hyn eu hasesu.

## 1.5 Asesu effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar

Mae'r asesiad o oblygiadau'r gwahanol bolisïau a nodir yn yr FfDC ar gyfer y safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn seiliedig ar ystyriaeth nid yn unig o'r cynefinoedd a'r rhywogaethau cymwys *o fewn* pob safle Natura 2000/ Ramsar ond hefyd y pellter y tu hwnt i ffiniau pob safle lle gellid cael effeithiau sylweddol neu niweidiol o hyd, o bosibl. Crynhowyd y mathau o lwybr effaith posibl a allai ddeillio o weithredu'r FfDC fel a ganlyn:

- Cymryd tir ar safle Natura 2000/ Ramsar (h.y. colli cynefin uniongyrchol);
- Diraddio cynefin ar safle Natura 2000/ Ramsar (h.y. colli cynefin anuniongyrchol);
- Effeithiau o ganlyniad i ddirywiad ansawdd aer;
- Effeithiau ar ansawdd neu gyfaint dŵr;
- Perygl o ddadleoli/ tarfu rhywogaethau sy'n nodweddion cymhwyso safle Natura 2000/ Ramsar;
- Perygl o farwolaeth (i rywogaethau symudol); a
- Gwahanu a darnio yn creu rhwystrau i symudiad.

O gofio y gall nifer o'r effeithiau hyn ymestyn ymhell y tu hwnt i ffiniau safleoedd Natura 2000/ Ramsar, datblygwyd clustogfeydd o amgylch pob safle Natura 2000/Ramsar. Cytunwyd ar y clustogfeydd mewn ymgynghoriad a Cyfoeth Naturiol Cymru ac fe'u diffinnir fel yr ardaloedd o gwmpas safle Natura 2000/Ramsar lle mae'r potensial o effeithiau yn debygol o fod fwyaf. Dylid nodi nad yw pellteroedd y clustogfeydd (a nodir isod) wedi cael eu datblygu yn gyffredinol ar sail dadansoddiad cynhwysfawr o'r llenyddiaeth (ac eithrio ar gyfer y frân goesgoch) ond yn hytrach maent yn bellteroedd cymharol safonol a fabwysiadwyd gan y diwydiant ymgynghoriaeth ecoleg. Rydym wedi mabwysiadu'r pellteroedd hyn ar sail ein barn broffesiynol ein hunain a chan fabwysiadu'r egwyddor ragofalus. Byddant yn weddol ragofalus o ran mathau penodol o ddatblygiad FfDC (e.e. ffermydd gwynt, seilwaith telathrebu symudol, ac ati) oherwydd er bod y potensial yn dal i fodoli i adar o AGAau/safleoedd Ramsar cyfagos gael eu dadleoli o diroedd bwydo gan ddatblygiadau o'r fath, mae'r effaith yn debygol o fod yn llai na'r hyn sy'n gysylltiedig â mathau eraill o ddatblygiad (fel ffermydd gwynt a'r posibilrwydd o wrthdaro a thyrbinau) lle mae effeithiau niweidiol sylweddol ar boblogaethau yn fwy tebygol. Yn amlwg, mae'r ystyriaeth fanwl hon o glustogfeydd yn bosibl dim ond lle ceir elfen ofodol amlwg i bolisi (e.e. Polisi 17), ond, serch hynny, gellir cymhwyso'r egwyddorion yn fwy cyffredinol wrth ystyried y potensial i bolisïau arwain at effeithiau. Darperir darluniad o'r defnydd o glustogfeydd yn yr asesiad o'r polisi ynni adnewyddadwy a charbon isel (Polisi 17). Gweler Atodiad B.

At ddibenion yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn, defnyddiwyd y clustogfeydd canlynol:

- ACAau a safleoedd Ramsar yn seiliedig ar gynefinoedd yn gyffredinol, mae'r effeithiau (y tu hwnt i'r cymryd tir uniongyrchol amlwg) yn ymwneud yn bennaf ag effeithiau hydrolegol ar gynefinoedd gwlyptir ac effeithiau posibl newidiadau i ansawdd aer fel gwaddodi nitrogen. Er y gall yr olaf ddigwydd dros bellteroedd hwy, yn enwedig pan fo'r cynefin yn arbennig o sensitif i orfaethu, mae effeithiau sylweddol (e.e. fel bod planhigion unigol yn cael eu niweidio yn ffisiolegol neu fod cymunedau planhigion yn cael eu newid gan gystadleurwydd cynyddol y rhywogaethau mwy cadarn sy'n bresennol) yn eithriadol o annhebygol dros bellteroedd hwy, oherwydd gwaddodiad allyriadau yn yr aer. **Pennwyd y glustogfa ar gyfer safleoedd Ramsar ac ar gyfer ACAau lle *nad yw* ystlumod (ac adar) yn nodwedd gymhwyso fel 5 cilomedr felly**.

- Er y gall ystlumod pedol lleiaf hedfan pellteroedd hwy na 10 cilomedr i gyrraedd mannau chwilota am fwyd, mae mwyafrif llethol y cynefin bwydo sydd ei angen i ddarparu ar gyfer clwyd (h.y. 'ardal gynhaliaeth y glwyd (RSZ)') yn llawer agosach na hyn. Er y gall ystlumod hefyd hedfan pellteroedd maith o glwydi haf i safleoedd gaeafgysgu a rhwng clwydi mamolaeth, mae'r peryglon sy'n gysylltiedig ag amlygiad i unrhyw fath o ddatblygiad (e.e. ffermydd gwynt, cynlluniau ffyrdd, ac ati) yn llawer is o gofio y tueddir i gyflawni'r teithiau hyn yn llai aml na llwybrau chwilota am fwyd nosweithiol yn yr RSZ. **Pennwyd y glustogfa ar gyfer ACAau lle *mae* ystlumod pedol lleiaf yn nodwedd gymhwyso fel 10 cilomedr felly**. Mae'r ACAau y byddai hyn yn berthnasol iddynt fel a ganlyn:

    - ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston
    - ACA Glynllifon
    - ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion
    - ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydir
    - ACA Coetiroedd Dyffryn Gwy
    - ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena
    - ACA Safleoedd Ystlumod Wysg
    - ACA Safleoedd Ystlumod Tanat ac Efyrnwy

- Ar ôl ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2019, penderfynwyd y dylid cynnwys clustogfa ar wahân ar gyfer ystlumod pedol mwyaf ac ystlumod du. Er bod y glustogfa 10 cilomedr yn addas ar gyfer ystlumod pedol lleiaf, ystyrir ei bod yn annigonol i leihau'r perygl i boblogaethau ACA ystlumod pedol mwyaf ac ystlumod du o gofio bod y rhywogaethau hyn yn teithio pellteroedd maith yn rheolaidd (mae'r RSZ ar gyfer ystlumod du yn 6 cilomedr o leiaf). Mae llawer o boblogaethau ystlumod ACA hefyd yn cael eu cefnogi'n hanfodol gan gynefinoedd o'u cwmpas ac amrywiaeth o glwydi 'atodol' nad ydynt wedi eu cynnwys o fewn y dynodiad. Gan fod diffyg gwybodaeth am yr ardaloedd hyn, a chydag ystyriaeth briodol i ecoleg ystlumod pedol mwyaf ac ystlumod du, gan fabwysiadu dull rhagofalus, **pennwyd y glustogfa ar gyfer ACAau lle *mae* ystlumod du ac ystlumod pedol mwyaf yn nodwedd gymhwyso fel 20 cilomedr**. Mae'r ACAau lle mae hyn yn berthnasol iddynt fel a ganlyn:

    - ACA Arfordir Calchfaen de Orllewin Cymru (ystlum pedol mwyaf)
    - ACA Safleoedd Ystlum Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston (ystlum pedol mwyaf)
    - ACA Coedydd Gogledd Sir Benfro (ystlum du)
    - ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena (ystlum pedol mwyaf)

- Mae rhywogaethau adar penodol sy'n gysylltiedig ag AGAau a safleoedd Ramsar (e.e. adar ysglyfaethus, adar hela a rhydyddion, ac ati) yn tueddu i hedfan pellteroedd hwy yn fodlon yn rhan o'u hymddygiad chwilota am fwyd. Yn sicr felly, nid yw adar sy'n gysylltiedig â safle dynodedig wedi eu cyfyngu i ffiniau'r lleoliad hwnnw a byddant yn aml yn hedfan cryn bellter ohono i fwyta, clwydo neu fridio. Dyma sail y cysyniad o 'dir cysylltiedig â swyddogaeth' a'r ffaith bod angen i Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd o AGAau/ safleoedd Ramsar gymryd i ystyriaeth y ffaith y bydd adar o'r boblogaeth ddynodedig yn aml yn treulio amser y tu allan i ffiniau'r ardal ddynodedig. Mae nifer o adar dŵr yn fudol, ac felly'n hedfan pellteroedd llawer hwy rhwng eu tiroedd bridio a gaeafu. Er ei bod yn amlwg ddim yn ymarferol cymryd y pellteroedd hyn i ystyriaeth wrth sefydlu clustogfeydd, mae'n bwysig serch hynny ystyried goblygiadau posibl datblygiad a hwylusir gan yr FfDC ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar hyd yn oed os ydynt wedi eu lleoli cryn bellter i ffwrdd (hyd at 20 cilomedr), o gofio'r potensial ar gyfer rhywogaethau sy'n gymwys fel rhai symudol. Mae hyn oherwydd hyd yn oed os yw safle cynnig lawer o gilomedrau i ffwrdd o ffin AGA/ safle Ramsar, efallai ei fod yn dal wedi ei leoli'n uniongyrchol ar lwybr hedfan mudol rhywogaeth AGA/ Ramsar. Wedi dweud hynny, mae mudo yn aml yn digwydd ar gryn uchder, felly mae'r peryglon yn debygol o fod yn fach (ac eithrio ar gyfer ehangu maes awyr), ond bydd angen ystyried yr effaith bosibl hon o leiaf wrth sgrinio. Er bod hyn yn annhebygol o fod yn broblem sylweddol i fathau penodol o ddatblygiad sy'n cael eu hybu gan yr FfDC, fel ffermydd solar (er y gallai presenoldeb nodweddion o'r fath ddisodli adar o ardaloedd y byddent wedi eu defnyddio yn flaenorol), ceir perygl yn sicr o farwolaeth, tarfu ac effeithiau eraill (e.e. yn gysylltiedig â ffermydd gwynt, ffyrdd, twristiaeth, mynd â chŵn am dro o ddatblygiad preswyl newydd, ac ati), hyd yn oed os ydynt gryn bellter o ffin safle Natura 2000/ Ramsar sy'n cynnal adar. **Pennwyd y glustogfa ar gyfer AGAau (ac ar gyfer safleoedd Ramsar lle mae'r nodweddion cymhwyso yn cynnwys rhywogaethau adar) fel 20 cilomedr felly**.

- Pennwyd clustogfa benodol hefyd ar gyfer yr AGAau hynny lle mae'r frân goesgoch yn nodwedd gymhwyso. Yn dilyn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2018, cytunwyd bod statws penodol y rhywogaeth hon yng Nghymru (mae rhwydwaith AGA Cymru yn cynnal tua 30% o holl boblogaeth y DU), a'r ffaith ei bod yn hysbys bod adar ifanc yn gwasgaru dros bellteroedd arbennig o fawr, yn golygu bod angen clustogfa fwy. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod 98% o wrywod yn gwasgaru hyd at 35 cilomedr o'r safle geni, tra bod tua 82% o fenywod yn gwasgaru hyd at 40 cilomedr. **Pennwyd y glustogfa ar gyfer AGAau lle mae'r nodweddion cymhwyso yn cynnwys y frân goesgoch fel 40 cilomedr felly.** Mae'r AGAau lle mae hyn yn berthnasol iddynt fel a ganlyn:

    - Castlemartin Coast (bridio a gaeafu),
    - Craig yr Aderyn (bridio a gaeafu),
    - Glannau Aberdaron ac Ynys Enlli (bridio a gaeafu),

- Glannau Ynys Gybi (bridio a gaeafu),
- Mynydd Cilan, Trwyn y Wylfa ac Ynysoedd Sant Tudwal (bridio a gaeafu),
- Ramsey and St David's Peninsula Coast (bridio a gaeafu),
- Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro (bridio).

Wrth ystyried effeithiau posibl ar gynefinoedd a rhywogaethau dynodedig, rhoddwyd ystyriaeth hefyd i gynefinoedd afonol (a rhywogaethau cysylltiedig), rhywogaethau symudol, 'rhywogaethau nodweddiadol' a thir a chysylltiad swyddogaethol, fel y nodir isod:

- **Cynefinoedd afonol (a rhywogaethau cysylltiedig)** – Er bod clustogfa o 5 cilomedr wedi cael ei phennu ar gyfer cynefinoedd ACA, gallai effeithiau posibl (fel effeithiau ar ansawdd dŵr a symudiad gwaddodion) ar ACAau afonol ymestyn ymhellach na hyn (er enghraifft, i isafonydd nad ydynt wedi'u dynodi). Dylid ystyried ACAau afonol lle ceir rhywogaethau symudol, fel pysgod mudol (gwangod, lampreiod, eogiaid, sewinod a llysywod) a dyfrgwn y tu hwnt i'r glustogfa 5 cilomedr. Lle mae dyfrgwn yn brif reswm am ddethol safle, mae ACAau yn cynnal cyfran yn unig o'r cynefin a ddefnyddir gan y rhywogaeth hon. Er y cydnabyddir bod ACAau yn cwmpasu ardaloedd pwysig o gynefin dyfrgwn, mae'r rhywogaeth hon yn gwasgaru'n eang a bydd yn defnyddio cynefin bwyta a bridio y tu allan i'r ACA. **Felly, lle bynnag y mae ACA afonol i lawr yr afon o ddatblygiad arfaethedig, dylid asesu effeithiau posibl y tu allan i'r glustogfa 5 cilomedr (h.y. lle mae datblygiadau posibl yn cael eu cyflawni i fyny'r afon o ACAau afonol, mae'n rhaid ystyried cyrsiau dŵr drwy'r dalgylch cyfan lle mae'r ACA wedi ei lleoli).**

- **Rhywogaethau symudol** - gan gynnwys y nodweddion cymhwyso hynny (na drafodwyd eisoes uchod) sydd angen ystyriaeth y tu hwnt i ffiniau safleoedd Natura 2000/ Ramsar gan eu bod yn fudol, yn chwilota am fwyd neu'n clwydo ac ati 'oddi ar y safle', neu y mae eu poblogaethau angen symud a chymysgu ar draws safleoedd sydd wedi'u darnio (ar raddfa meta-boblogaeth). Er enghraifft, nid yw glöynod byw britheg y gors wedi'u cyfyngu i ACAau ac maent yn agored i niwed o ddatblygiad (yn enwedig yn y Cymoedd ac yn Sir Gaerfyrddin). Yr hyn sy'n allweddol i warchod britheg y gors yw bod mwy nag 50 hectar o gynefin addas mewn cyflwr da mewn tirwedd wedi'u chysylltu'n dda ar gael, sy'n cynnal meta-boblogaethau gweithredol drwy hynny. **Felly, bydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar y mae eu nodweddion cymhwyso yn cynnwys rhywogaethau symudol, a allai gael eu heffeithio gan bolisïau yn yr FfDC (beth bynnag fo lleoliad cynigion y cynllun neu ba un a fyddai'r rhywogaeth y tu mewn neu'r tu allan i'r safle pan allai gael ei heffeithio), yn cael eu hystyried yn yr asesiad. Mae rhywogaethau (na drafodwyd eisoes uchod) sy'n rhan o'r categori hwn yng Nghymru yn cynnwys:**

  - **Glöyn byw britheg y gors**
  - **Madfall ddŵr gribog**
  - **Mamaliaid môr**

- **Rhywogaethau nodweddiadol** - gan gynnwys y rhai nad ydynt yn nodweddion cymhwyso'r safle Natura 2000/ Ramsar ynddynt eu hunain, ond sydd yn rhywogaeth nodweddiadol o gynefin sy'n nodwedd gymhwyso, ac y cyfeirir atynt yn aml yn yr Amcanion Cadwraeth. **Ar lefel strategol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr FfDC, nid yw'n bosibl eu hystyried, ond amlygwyd yr angen posibl iddynt gael eu hystyried mewn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect yn y dyfodol. Gweler Adran 4.**

- **Tir â chysylltiad swyddogaethol** – yn cyfeirio at y swyddogaeth y gallai tir neu fôr y tu hwnt i ffin safle Natura 2000/ Ramsar ei chyflawni o ran cynnal yn ecolegol poblogaethau y dynodwyd neu y dosbarthwyd y safle ar eu sail (mae hyn yn cynnwys adar dŵr sy'n gysylltiedig ag AGAau yn nodweddiadol, fel y'u disgrifir o ran y glustogfa a bennwyd ar gyfer adar ym mhwynt bwled 4 uchod, ond hefyd yn berthnasol i rywogaethau eraill fel madfallod ac ystlumod). Mae gan dir o'r fath 'gysylltiad' â'r safle Natura 2000/ Ramsar felly, gan ei fod yn chwarae rhan bwysig yn y broses o gynnal neu adfer y boblogaeth o rywogaethau cymhwyso ar statws cadwraeth ffafriol. Mae gan dir y nodwyd bod ganddo gysylltiad swyddogaethol â safle Natura 2000/ Ramsar yr un lefel o warchodaeth â'r safle Natura 2000/ Ramsar ei hun, ac felly byddai angen lliniaru unrhyw effeithiau niweidiol ar dir o'r fath, fel sy'n briodol.

Gall tir â chysylltiad swyddogaethol fod o fewn clustogfeydd, ond gall hefyd fod y tu allan. **Ar lefel strategol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr FfDC, nid yw'n bosibl nodi ardaloedd penodol o dir â chysylltiad swyddogaethol, ond amlygwyd yr angen posibl iddynt gael eu hystyried mewn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect yn y dyfodol, pan fo'n berthnasol, i sicrhau nad oes effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safle.**

Mae'r clustogfeydd hyn ac ystyriaeth o rywogaethau symudol, rhywogaethau nodweddiadol a thir â chysylltiad nodweddiadol yn bwysig iawn o ran ystyriaeth o ddatblygiad ledled Cymru yn y dyfodol. Yn eu hanfod, dylai'r rhain gynorthwyo proses Sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad Priodol ar gyfer cynigion datblygu dilynol. Nid yw hyn yn golygu y bydd angen Asesiad Priodol yn awtomatig os bydd safle mewn clustogfa, ond mae yn golygu y bydd angen paratoi Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, yn cyflwyno ystyriaeth fanwl o'r llwybrau effaith rhwng y datblygiad arfaethedig ac unrhyw gynefinoedd a/neu rywogaethau cymwys ar gyfer safle Natura 2000/ Ramsar, ac felly'r potensial ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol.

# 2 Sgrinio

## 2.1 Dull Sgrinio

Mae’r cam sgrinio wedi darparu asesiad lefel uchel i benderfynu a yw’n bosibl y gallai’r FfDC arwain at Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Diben hyn oedd cael gwared ar yr elfennau hynny o’r FfDC o’r asesiad yr oedd yn eglur iawn na fyddent yn effeithio ar safleoedd dynodedig, er mwyn canolbwyntio ar y polisïau hynny lle’r oedd y potensial o effeithiau neu ansicrwydd ynghylch effeithiau posibl. Wrth nodi elfennau’r FfDC a allai o bosibl effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, roedd yn bwysig canolbwyntio ar y rhai y byddai ganddynt y tebygolrwydd mwyaf o effeithio ar y safleoedd. Sylwer y bwriedir i’r FfDC gael ei ddarllen fel dogfen unigol yn hytrach na chyfres o bolisïau ar wahân ac fe’i haseswyd felly. Gallai cynigion mewn un rhan o’r Cynlluniau liniaru gweithgareddau a allai achosi niwed sy’n cael eu hybu mewn rhan arall, a dylid eu deall yng nghyd-destun ehangach y canlyniadau a fwriedir o’r Cynllun.

## 2.2 Asesiad Sgrinio

Mae dwy bennod gyntaf yr FfDC yn cynnwys testun cyflwyniadol ac yn cynnig gwybodaeth gyd-destunol am ddatblygiad y Cynllun. Mae’r rhan hon o’r FfDC yn ffeithiol ac nid yw’n arwain at newid neu ddatblygiad ynddi’i hun. Nid yw’n bosibl y gallai’r adrannau hyn gael unrhyw effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar ac felly fe’u sgriniwyd allan o asesiadau pellach.

*Tabl 2: Sgrinio Penodau 1 a 2*

| Rhan o’r Cynllun | Cyfiawnhad sgrinio | Casgliad sgrinio |
|---|---|---|
| Pennod 1 – Cyflwyniad | Testun cyflwyniadol | Sgriniwyd allan |
| Pennod 2 - Cymru: Trosolwg | Gwybodaeth gyd-destunol | Sgriniwyd allan |

Mae Pennod 3 ar Bennu a Gwireddu Ein Huchelgeisiau yn cynnwys Canlyniadau’r FfDC. Cynhaliwyd adolygiad o amcanion yr FfDC ar y cam Materion ac Opsiynau yn 2018. Yn dilyn proses ailadroddol datblygu’r cynllun, diweddarwyd yr amcanion hyn ers hynny a chyfeirir atynt fel ‘Canlyniadau’ erbyn hyn. Ail-aseswyd y canlyniadau hyn isod yn

Tabl 4. Mae Penodau 4 a 5 yn nodi'r polisïau strategol yn yr FfDC. Y rhain yw'r dull a fydd yn cael ei ddilyn i gyflawni'r Canlyniadau ac fe'u hasesir yn Tabl 5 isod. [Sylwer fod sut y mae'r polisïau yn cysylltu â phob un o'r Canlyniadau wedi ei restru yn y tabl '*Y berthynas rhwng polisïau'r FfDC a'r 'canlyniadau' mae'n anelu i'w gwireddu'* ar dudalen olaf yr FfDC.] Uwcholeuwyd polisïau yr aethpwyd â nhw ymlaen i Asesiad Priodol yn llwyd yn Tabl 5.

Mae'r asesiad sgrinio yn dilyn canllawiau a nodir yn Rhan F Canllawiau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd DTA. Mae pob un o'r canlyniadau a'r polisïau yn yr FfDC wedi cael eu hadolygu yn erbyn y rhestr ganlynol o gategorïau sgrinio (gweler
Tabl 3). Cynlluniwyd y categorïau asesu hyn yn benodol i nodi'r gwahanol fathau o bolisi y gellid eu gweithredu trwy ddogfennau cynllunio lefel uchel, ac i benderfynu a allai camau yn y dyfodol sy'n deillio o bolisi arwain at ddatblygiad a allai effeithio wedyn ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.

*Tabl 3: Categorïau Asesiad Sgrinio (Addaswyd o Adran F.6.3 Llawlyfr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd DTA)*

| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| Categori A: | **Datganiadau polisi cyffredinol/dyheadau cyffredinol (sgrinio allan).** Dylai polisïau nad ydynt yn ddim mwy na datganiadau polisi cyffredinol neu ddyheadau gwleidyddol cyffredinol gael eu sgrinio allan gan na allant gael effaith arwyddocaol ar safle. |
| Categori B: | **Polisïau sy'n rhestru meini prawf cyffredinol ar gyfer profi derbynioldeb/cynaliadwyedd cynigion (sgrinio allan)**. Ni all y polisïau cyffredinol hyn gael unrhyw effaith ar safle Ewropeaidd ac felly dylid eu sgrinio allan. |
| Categori C: | **Cynigion y cyfeirir atynt ond nad ydynt wedi'u cynnig gan y cynllun (sgrinio allan)**. Dylid sgrinio allan unrhyw gyfeiriadau at gynigion penodol am brosiectau, megis y rheiny a nodir, er enghraifft, mewn fframweithiau polisi uwch megis Datganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n ymwneud efallai â phrosiectau seilwaith arwyddocaol. Caiff y rhain eu hasesu gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu Weinidogion Cymru. |
| Categori D: | **Polisïau diogelu'r amgylchedd/gwarchod safleoedd/trothwy cynllun cyfan cyffredinol (sgrinio allan)**. Polisïau yw'r rhain sydd â'r diben amlwg o ddiogelu'r amgylchedd naturiol, gan gynnwys bioamrywiaeth, a/neu gadw neu wella'r amgylchedd naturiol, adeiledig neu hanesyddol, lle byddai camau gwella yn annhebygol o gael unrhyw effeithiau andwyol ar safle Ewropeaidd. Gellir eu sgrinio allan gan fod gweithredu'r polisïau yn debygol o ddiogelu safleoedd Ewropeaidd yn hytrach na chael effaith andwyol, ac ni fyddent yn tanseilio'r amcanion cadwraeth. |
| Categori E: | **Polisïau neu gynigion sy'n llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd rhag effeithiau andwyol (sgrinio allan)**. Bydd effaith y polisïau neu'r cynigion hyn yn llywio newidiadau mewn ffordd sy'n diogelu safleoedd Ewropeaidd y gallai'r newidiadau effeithio ar eu nodweddion cymhwysol, ac felly geir eu sgrinio allan. |
| Categori F: | **Polisïau neu gynigion na allant arwain at ddatblygu neu newid arall (sgrinio allan)**. Polisïau nad ydynt ynddynt eu hunain yn arwain at ddatblygu neu newidiadau eraill, er enghraifft, gan eu bod yn ymwneud â dylunio neu feini prawf ansoddol eraill ar gyfer datblygu, megis deunyddiau ar gyfer datblygiad newydd. Nid ydynt yn sbarduno unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau eraill a allai effeithio ar safle Ewropeaidd a gellir eu sgrinio allan. |
| Categori G: | **Polisïau neu gynigion na allai gael unrhyw effaith andwyol ddirnadwy ar safle (sgrinio allan)**. Polisïau sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond na allai gael unrhyw effaith ddirnadwy ar safle Ewropeaidd, am nad oes unrhyw gysylltiad achosol neu gysylltiad rhyngddynt hwy a nodweddion cymhwyso unrhyw safleoedd Ewropeaidd, ac felly gellir eu sgrinio allan. |
| Categori H: | **Polisïau neu gynigion na allai eu heffeithiau (gwirioneddol neu ddamcaniaethol) danseilio'r amcanion cadwraeth (naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau eraill ar y cynllun hwn neu gynlluniau neu brosiectau eraill) (sgrinio allan)**. Polisïau neu gynigion sy'n gwneud darpariaethau ar gyfer newid, ond nad ydynt yn cael unrhyw effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd, |

| Categori | Disgrifiad |
| --- | --- |
| | naill ai ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno ag agweddau o'r un cynllun, neu o'u cyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill, ac felly gellir eu sgrinio allan. |
| Categori I: | **Polisïau neu gynigion ag effaith arwyddocaol debygol ar safle ar eu pen eu hunain (sgrinio mewn)**. Dylai polisïau neu gynigion sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd ar eu pen eu hunain gael eu sgrinio i mewn. |
| Categori J: | **Polisïau neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar eu pen eu hunain**. Byddai'r agweddau hyn ar y cynllun yn cael rhywfaint o effaith ar safle, ond nid yw'r effaith yn debygol o fod yn arwyddocaol; felly mae angen eu hystyried o safbwynt effeithiau cronnus (o'u cyfuno ag eraill). Byddant wedyn yn cael eu hail-gategoreiddio naill ai i Gategori K (dim effaith arwyddocaol o'u cyfuno) neu Gategori L (yn debygol o gael effaith arwyddocaol o'u cyfuno). |
| Categori K: | **Polisïau neu gynigion nad ydynt yn debygol o gael effaith arwyddocaol naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol (sgrinio allan ar ôl y prawf cyfuno).** Gellir diystyru'r agweddau hynny ar y cynllun heb unrhyw botensial ar gyfer effaith arwyddocaol naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol ar ôl yr asesiad cyfunol. |
| Categori L: | **Polisïau neu gynigion a allai fod yn debygol o gael effaith arwyddocaol cyfunol (sgrinio mewn ar ôl y prawf cyfuno)**. Yr agweddau hynny ar y cynllun na fyddent yn cael effaith arwyddocaol ar eu pen eu hunain ond y nodwyd bod ganddynt y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar o'u cyfuno â chynlluniau neu brosiectau eraill. |
| Categori M: | **Polisïau neu gynigion ardal, safle neu achos penodol wedi'u teilwra sydd â'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau niweidiol ar safleoedd Ewropeaidd (sgrinio mewn).** Polisïau neu gynigion sydd wedi cael eu cynnwys yn y cynllun gyda'r bwriad o osgoi neu leihau effeithiau ar safle(oedd) Ewropeaidd penodol y gallai eu nodweddion cymhwyso gael eu heffeithio fel arall gan weithrediad y cynllun. |

*Tabl 4: Asesiad Sgrinio o Ganlyniadau'r FfDC*

| **Canlyniadau** | Cyfiawnhad sgrinio | Penderfyniad sgrinio |
|---|---|---|
| **Cymru lle mae pobl yn byw…..** | | |
| 1 – Ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach | Datganiad polisi cyffredinol yw hwn ac ni fyddai'n arwain at unrhyw effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 2 - Mewn lleoedd gwledig bywiog lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân yn ymwneud ag adfywio a datblygu. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 3 - Mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân yn ymwneud ag adfywio a datblygu. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 4 - Mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Datganiad polisi cyffredinol yw hwn ac ni fyddai'n arwain at unrhyw effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 5 - Ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân yn ymwneud ag adfywio a datblygu. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 6 - Mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân yn ymwneud ag adfywio a datblygu. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 7 - Mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân yn ymwneud â thrafnidiaeth a seilwaith. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 8 - Mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd | Sgriniwyd allan (Categori A) |

| | | |
|---|---|---|
| | Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân yn ymwneud â chyfathrebu digidol a symudol. | |
| 9 - Mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 10 - Mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| 11 - Mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac yn gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd | Mae gan hwn y potensial i arwain at newid, ond rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau FfDC ar wahân. | Sgriniwyd allan (Categori A) |

*Tabl 5: Asesiad Sgrinio o Bolisïau'r FfDC*

| Polisi | Cyfiawnhad sgrinio | Penderfyniad Sgrinio |
|---|---|---|
| **Pennod 4: Dewisiadau Strategol a Gofodol – Strategaeth Ofodol yr FfDC** | | |
| P1 – Ble bydd Cymru yn tyfu | Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i dwf cynaliadwy ym mhob rhan o Gymru. Bydd y polisi yn cefnogi'r cyfeiriad ar gyfer twf mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai a buddsoddiad a seilwaith yn y tair Ardal Dwf Genedlaethol a Rhanbarthol. Mae hwn yn bolisi cyffredin a rhoddir sylw i oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan bolisïau ar wahân yr FfDC ar gyfer yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| P2 – Llunio Twf ac Adfywiad Trefol – Creu Lleoedd Strategol | Mae'r polisi hwn yn cefnogi twf ac adfywiad trefi a dinasoedd sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at adeiladu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egnïol ac iach. Mae'n cefnogi twf cynaliadwy fel cymysgedd gyfoethog o ddefnyddiau a mathau o dai, gan adeiladu lleoedd ar raddfa y gellir ei cherdded, datblygiad dwysedd trefol a all gefnogi trafnidiaeth gyhoeddus a chyfleusterau lleol, a seilwaith gwyrdd integredig, wedi eu hysbysu gan Asesiad Seilwaith Gwyrdd yr awdurdod cynllunio. Mae hwn yn gyfeiriad polisi cyffredin a rhoddir sylw i oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan bolisïau eraill yn yr FfDC sy'n cynnig mwy o fanylion gofodol. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| P3 – Cefnogi Twf ac Adfywiad Trefol – Arweinyddiaeth Sector Cyhoeddus | Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan alluogi weithredol i gefnogi'r ddarpariaeth o dwf ac adfywiad trefol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a chyrff sector cyhoeddus eraill i ddatgloi potensial eu tir a'u cynorthwyo i gyflawni swyddogaeth ddatblygu fwy. Er bod datblygiad newydd yng Nghymru yn debygol o gael ei ganolbwyntio ar adfywio a datblygu lleoliadau tref a dinas trefol presennol, ceir y potensial i brosiectau datblygu/ seilwaith mwy sy'n deillio o weithredu'r polisi hwn effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd arfordirol a mwy gwledig.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P4 - Cefnogi Cymunedau Gwledig | Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i gymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus. Mae'n nodi'r cyfeiriad polisi ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol i asesu anghenion cymunedau gwledig a chyflwyno polisïau sy'n eu cefnogi. Mae hwn yn gyfeiriad polisi cyffredin a rhoddir sylw i oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan bolisïau eraill yn yr FfDC sy'n cynnig mwy o fanylion gofodol. | Sgriniwyd allan (Categori A) |
| P5 – Cefnogi'r Economi Wledig | Mae'r polisi hwn yn cefnogi twf cynaliadwy, priodol a chymesur mewn trefi gwledig sy'n cael ei gynllunio a'i reoli trwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol. Mae'r polisi yn nodi'r angen i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol gynllunio'n gadarnhaol i ddiwallu anghenion cyflogaeth ardaloedd gwledig gan gynnwys cyflogaeth yn deillio o'r economi sylfaenol; y sector amaethyddiaeth a choedwigaeth, gan gynnwys cynigion ar gyfer arallgyfeirio; busnesau newydd sbon a microfusnesau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi'n gryf datblygiad busnesau a sectorau technoleg arloesol a newydd, i helpu ardaloedd gwledig i wireddu eu potensial llawn. Mae hwn yn gyfeiriad polisi cyffredin a rhoddir sylw i oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan bolisïau eraill yn yr FfDC sy'n cynnig mwy o fanylion gofodol. | Sgriniwyd allan (Categori A) |

| | | |
|---|---|---|
| P6 – Canol y Dref yn Gyntaf | Mae'r polisi hwn yn pennu'r meini prawf lleoliad ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a chyhoeddus newydd. Mae'r polisi yn nodi bod yn rhaid i'r cyfleusterau hyn gael eu lleoli yng nghanol trefi neu ddinasoedd â mynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus o'r holl dref neu ddinas a, phan fo'n briodol, i'r rhanbarth ehangach. Mae'n rhaid defnyddio dull dilyniannol i hysbysu'r broses o nodi'r lleoliad gorau ar gyfer cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaeth cyhoeddus newydd sylweddol. Mae'r polisi hwn yn darparu canllawiau ar leoli gwasanaethau a'r dull i'w fabwysiadu i asesu neilltuadau cynlluniau datblygu ond ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori B) |
| P7 – Darparu Cartrefi Fforddiadwy | Mae'r polisi hwn yn cadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r ddarpariaeth o gartrefi fforddiadwy trwy sicrhau bod cyllid ar gyfer cartrefi fforddiadwy yn cael ei ddyrannu a'i ddefnyddio yn effeithiol. Mae'r polisi yn darparu canllawiau ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol o ran anghenion tai fforddiadwy. Caiff manylion y lleoliadau ar gyfer twf eu hasesu o dan bolisïau eraill ar gyfer pob rhanbarth, ac fel y cyfryw, rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan y polisïau ar wahân ar gyfer yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. | Sgriniwyd allan (Categori B) |
| P8 - Llifogydd | Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i reoli perygl llifogydd sy'n galluogi ac yn cynorthwyo twf ac adfywiad strategol cynaliadwy mewn Ardaloedd Twf Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd a datblygwyr i gynllunio a buddsoddi mewn seilwaith newydd a gwell, gan hybu atebion sy'n seiliedig ar natur fel blaenoriaeth. Er bod prosiectau lliniaru llifogydd yn debygol o gael eu lleoli o gwmpas datblygiad presennol, gallai'r prosiectau hynny sy'n agos at ardaloedd arfordirol, neu wrth ochr afonydd mawr, arwain at effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi Strategaeth Genedlaethol Ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019a) er mwyn gweithredu'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Mae Polisi 8 yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y Strategaeth a byddai'n cael ei weithredu drwy'r Strategaeth Llifogydd Genedlaethol (ar ôl ei mabwysiadu). Cyflwynwyd y Strategaeth Llifogydd Genedlaethol ar gyfer ymgynghoriad yn ystod haf 2019 ac mae wrthi'n cael ei diweddaru i adlewyrchu sylwadau ymgynghori. Yn rhan o'r gwaith o baratoi'r Strategaeth, lluniwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft (Llywodraeth Cymru, 2019). Ni ellid diystyru effeithiau niweidiol ac felly roedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys asesiad o dan Erthygl 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, yn cynnwys asesiad atebion amgen a rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig (IROPI). Daeth yr asesiad IROPI i'r casgliad wedyn y byddai'r methiant i fwrw ymlaen â'r Strategaeth yn golygu na fyddai unrhyw fframwaith cyffredinol na chydgysylltiad o'r gwaith o reoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru, a fyddai'n arwain yn y pen draw at berygl difrifol i seilwaith, iechyd pobl a diogelwch y cyhoedd, a chanlyniadau cymdeithasol / economaidd annerbyniol. Wrth i'r perygl cynyddol o lifogydd ac erydu arfordirol gael ei waethygu o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, dim ond cynyddu gwnaiff y perygl hwn dros amser. Ystyrir felly bod rhesymau hanfodol sef er budd cyhoeddus tra phwysig am y Strategaeth. Bydd angen camau gwneud iawn felly pan fydd prosiectau yn cael eu cyflwyno wrth i'r Strategaeth gael ei gweithredu; fodd bynnag, mae'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft o'r Strategaeth Llifogydd Genedlaethol yn mynd ymlaen i ddweud, heb wybodaeth am raddau tebygol unrhyw effeithiau ar gyfanrwydd safleoedd Ewropeaidd unigol o ganlyniad i weithgareddau sy'n deillio o'r Strategaeth, nid yw'n bosibl rhagweld pa gamau gwneud iawn allai fod yn briodol mewn achosion unigol. Byddai disgwyl i gamau o'r fath gael eu nodi mewn lleoliadau priodol ar y lefel prosiect, neu fel arall os bydd yr un casgliad i'w gael yn dilyn Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd o'r strategaethau a phrosiectau Rheoli Perygl Llifogydd ac | Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol i Gymru Sgriniwyd allan (Categori C)<br><br>Prosiectau nad ydynt yn gysylltiedig â'r Strategaeth Genedlaethol<br><br>Sgriniwyd i mewn (Categori I) |

| | | |
|---|---|---|
| | Erydu Arfordirol lleol sy'n fwy penodol yn ofodol. Yn y mwyafrif o achosion mae camau gwneud iawn yn debygol o fod ar ffurf cynefin gwneud iawn i ddisodli'r hyn yr ystyriwyd wedi ei golli o weithgareddau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol sy'n deillio o'r strategaeth. Mae'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd, a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ond a gefnogir gan Awdurdodau Rheoli Risg eraill, yn cyflawni ar sail strategol y cynefin gwneud iawn sydd ei angen i wneud iawn am unrhyw gynefinoedd a gollwyd o ganlyniad i gynlluniau, strategaethau a phrosiectau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Dylid nodi bod Cynlluniau arfordirol yn debygol o fynd drwy'r cam asesu IROPI, oherwydd effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â gwasgfa arfordirol. Fodd bynnag, bydd camau gwneud iawn yn cael eu darparu trwy gronfa Llywodraeth Cymru (y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd a reolir ac a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru) i sicrhau'r ddarpariaeth briodol o gynefin gwneud iawn, fel sy'n angenrheidiol. Gan fod y Strategaeth eisoes wedi bod drwy'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, nid oes angen asesiad pellach, a gellir ei sgrinio allan o dan Gategori C.<br><br>Byddai'r rhan fwyaf o waith amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru yn cael ei wneud o dan y Strategaeth Genedlaethol. Felly, yr unig brosiectau sy'n cael eu sgrinio i mewn i'r Asesiad Priodol yw'r rhai sydd y tu allan i'r Strategaeth Genedlaethol, gan gynnwys gwaith amddiffyn rhag llifogydd preifat. Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r prosiectau hyn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | |
| P9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth a Seilwaith Gwyrdd | Mae'r polisi hwn yn pennu meini prawf i sicrhau gwelliant bioamrywiaeth, cydnerthedd ecosystemau a'r ddarpariaeth o Seilwaith Gwyrdd. Mae'r polisi yn nodi bod yn rhaid dangos ym mhob achos camau tuag at sicrhau cynhaliaeth a gwelliant bioamrywiaeth (i ddarparu budd net), cydnerthedd ecosystemau ac asedau Seilwaith Gwyrdd yn rhan o gynigion datblygu trwy ddulliau seiliedig ar natur arloesol o gynllunio safleoedd a dyluniad yr amgylchedd adeiledig. Er y byddai hwn yn cael ei gategoreiddio fel polisi ar gyfer amddiffyn asedau amgylcheddol (Categori D), os caiff Seilwaith Gwyrdd ei ddatblygu mewn lleoliadau anaddas, efallai na fydd o reidrwydd yn cyd-fynd â'r amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar a ddynodwyd ar sail presenoldeb mathau eraill o gynefin neu rywogaeth. Fel y cyfryw, ni chymerir y potensial i safleoedd anaddas gael eu troi'n Seilwaith Gwyrdd i ystyriaeth yn y polisi ac ni ellir diystyru effeithiau posibl ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i ddatblygu Seilwaith Gwyrdd newydd o dan y polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P10 – Cysylltedd Rhyngwladol | Mae'r polisi hwn yn nodi Pyrth Strategol yng Nghymru gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, Porthladd Caergybi, Porthladd Abergwaun, a Dyfrffordd y Ddau Gleddau (gan gynnwys Porthladd Aberdaugleddau a Doc Penfro) ac mae'n cydnabod eu swyddogaethau pwysig o ran cysylltedd rhyngwladol ac economïau rhanbarthol.<br><br>Mae'r polisi yn nodi cefnogaeth ar gyfer y Pyrth Strategol, er mwyn gallu cynnal eu cysylltedd rhyngwladol, ac hefyd mae'n ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau haen is sicrhau bod y Pyrth Strategol yn darparu cymaint â phosibl fuddion i'r rhanbarthau y maent ynddynt.<br><br>Nid yw'r polisi yn annog datblygiad newydd amlwg yn y Pyrth Strategol nac ymestyniad i'w capasiti. Fodd bynnag, er mwyn cynnal a chadw eu swyddogaeth cysylltedd rhyngwladol, dros gyfnod yr FfDC, ceir potensial y bydd yn ofynnol cael datblygiad newydd, neu i ymestyn eu capasiti.<br><br>Gallai unrhyw gynnydd yng nghapasiti Caergybi, Dyfrffordd y Ddau Gleddau, Abergwaun a Maes Awyr Caerdydd o bosibl achosi effeithiau ar safleoedd Natura 2000/Ramsar o amgylch arfordir Ynys Môn, arfordir Sir Benfro, ac Aber | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |

| | | |
|---|---|---|
| | Afon Hafren. Dylid hefyd ystyried effeithiau amgylcheddol ehangach (fel cynnydd mewn llygredd aer a'r cyfraniad cyffredinol i newid hinsawdd).<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | |
| P11 – Cysylltedd Cenedlaethol | Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth a buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn gwella cysylltedd cenedlaethol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid i gynorthwyo'r ddarpariaeth o welliannau i'r rhwydwaith beicio cenedlaethol, y rhwydwaith rheilffyrdd, y rhwydwaith bysiau a'r rhwydwaith ffyrdd strategol. Er bod y rhan fwyaf o'r gwaith gwella yn debygol o ddigwydd o fewn y rhwydwaith beicio, rheilffyrdd a ffyrdd presennol, ceir y potensial i brosiectau seilwaith mwy effeithio ar safleoedd Natura 2000/ safleoedd Ramsar, yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau arfordirol neu fwy gwledig.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P12 – Cysylltedd Rhanbarthol | Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i wella cysylltedd rhanbarthol a'i buddsoddiad ynddo. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid i gynorthwyo'r ddarpariaeth o welliannau i'r system bysiau a metro yn ogystal â helpu i weithredu'r Ddeddf Teithio Llesol a chefnogi seilwaith llenwi addas ar gyfer cerbydau isel iawn eu hallyriadau. Er bod y rhan fwyaf o'r gwaith gwella yn debygol o ddigwydd o fewn y rhwydweithiau presennol, ceir y potensial i brosiectau seilwaith mwy effeithio ar safleoedd Natura 2000/ safleoedd Ramsar, yn enwedig y rhai sydd wedi'u lleoli mewn lleoliadau arfordirol neu fwy gwledig.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol | Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r ddarpariaeth o seilwaith cyfathrebu a gwasanaethau digidol ledled Cymru. Er yr ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r rhan fwyaf o seilwaith cyfathrebu digidol o'r fath ar raddfa fach ac mewn lleoliadau trefol presennol, mae'r polisi hefyd yn cydnabod yr angen am well seilwaith telathrebu symudol a band eang mewn ardaloedd gwledig. O ystyried topograffi gwledig a phellter ffisegol rhai pentrefi/ trefi yng Nghymru, ceir y potensial y byddai gosod seilwaith cyfathrebu digidol mwy anghysbell mwy effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P14 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Symudol | Mae'r polisi hwn yn cyflwyno ymrwymiad i gynyddu signal ffonau symudol a bydd yn nodi Parthau Gweithredu Symudol ledled Cymru, gan ddangos lleoliadau lle ceir ychydig neu ddim signal telathrebu symudol. Er yr ystyrir ei bod yn debygol y byddai'r rhan fwyaf o seilwaith o'r fath ar raddfa fach, ac y byddai'n dod o dan ddatblygiad a ganiateir, o ystyried topograffi gwledig a phellter ffisegol rhai pentrefi/ trefi yng Nghymru, ceir y potensial y byddai gosod seilwaith cyfathrebu symudol mwy anghysbell mwy effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |

| | | |
|---|---|---|
| P15 – Coedwig Genedlaethol | Mae'r polisi hwn yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu coedwig genedlaethol i Gymru. Er bod y polisi yn darparu ar gyfer canlyniad amgylcheddol cadarnhaol (Categori D), efallai na fydd datblygu cynefin coedwig o reidrwydd yn cyd-fynd â'r amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar a ddynodwyd ar sail presenoldeb mathau eraill o gynefin neu rywogaethau nad ydynt yn gysylltiedig â choedwigoedd. Fel y cyfryw, ni chymerir y potensial i safleoedd anaddas gael eu troi'n goedwigoedd i ystyriaeth yn y polisi ac ni ellir diystyru effeithiau posibl.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P16 – Rhwydweithiau Gwresogi | Mae'r polisi hwn yn annog awdurdodau cynllunio i nodi cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithiau Gwresogi Ardal ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd a phresennol eu hintegreiddio pan fo'n briodol. Mae'r polisi yn pennu'r gofyniad i ddatblygwyr baratoi Uwchgynllun Ynni i ddarganfod ai rhwydwaith gwresogi yw'r opsiwn ynni mwyaf effeithiol. Mae'r polisi hwn yn pennu meini prawf ond ni fyddai gweithredu'r polisi ei hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori B) |
| P17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig | Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru, mewn egwyddor, i ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel, o bob technoleg ac ar bob graddfa, i ddiwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol. Mae'r polisi yn cyfeirio at gynigion eraill ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr nad ydynt yn cymhwyso fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Gweler Polisi P18. Byddai angen i brosiectau ddangos na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol annerbyniol ar safleoedd cadwraeth natur a rhywogaethau o ganlyniad i geisiadau o'r fath. Er bod hyn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd y bydd yn ofynnol i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig, ni ellir dibynnu arno i ddod i'r casgliad na fyddai unrhyw Effeithiau Sylweddol Tebygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P18 – Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol | Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf i'w bodloni gan brosiectau sy'n cymhwyso fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Mae'n cyflwyno gofyniad ar brosiectau i ddangos nad oes unrhyw effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig statudol rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer cadwraeth natur (a'r nodweddion y'u dynodwyd ar eu sail), cynefinoedd a rhywogaethau gwarchodedig. Ni fyddai'r polisi hwn ynddo'i hun yn arwain at ddatblygiad, rhoddir sylw i'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn fwy priodol o dan bolisi 17 ar wahân yr FfDC ar Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig. | Sgriniwyd allan (Categori B) |
| **Pennod 5: Y Rhanbarthau** | | |
| P19 – Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol | Mae'r polisi hwn yn cynnig amlinelliad o'r meini prawf i'w hymsefydlu mewn Cynlluniau Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol pan fo'n berthnasol. Mae'r polisi yn cynnwys y gofyniad i Gynlluniau Datblygu Strategol sefydlu rhwydweithiau ecolegol a chyfleoedd i ddiogelu neu wella cysylltedd y rhwydweithiau hyn a'r ddarpariaeth o Seilwaith Gwyrdd. Mae'r polisi hwn yn pennu'r meini prawf a'r cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ond ni fyddai gweithredu'r polisi ynddo'i hun yn arwain at ddatblygiad ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori B) |

*Y Gogledd*

| | | |
|---|---|---|
| P20 – Ardal Dwf Genedlaethol - Wrecsam a Glannau Dyfrdwy | Mae’r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Wrecsam a Glannau Dyfrdwy fel y prif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y Gogledd. Mae’r polisi yn pennu’r cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ac mae’n rhaid iddynt gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y canolbwynt ar gyfer twf economaidd a thai strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch a seilwaith trafnidiaeth. Er bod datblygiad newydd ac adfywiad yn debygol o gael ei ganolbwyntio o gwmpas lleoliadau trefol presennol, mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli yn agos at Wrecsam a Glannau Dyfrdwy, yn ogystal ag o amgylch y morlin i’r gogledd o Lannau Dyfrdwy, ac felly ni ellir diystyru’r potensial o Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y safleoedd hyn ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P21 – Ardal Twf Rhanbarthol - Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru | Mae’r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i dwf ac adfywio cynaliadwy mewn trefi o bwysigrwydd rhanbarthol ar hyd arfordir y gogledd. Bydd Caergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn ganolbwyntiau ar gyfer twf a reolir ac mae ganddynt swyddogaeth isranbarthol bwysig gan ategu Ardal Dwf Genedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Mae’r polisi yn ei gwneud yn ofynnol i Gynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ar draws y rhanbarth gydnabod swyddogaethau’r aneddiadau arfordirol hyn fel canolbwyntiau ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol. Er bod datblygiad newydd ac adfywiad yn debygol o gael ei ganolbwyntio o gwmpas lleoliadau trefol presennol, mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli o amgylch arfordir y gogledd, ar y tir ac ar y môr, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn y rhanbarth, ac felly ni ellir diystyru’r potensial o Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P22 – Lleiniau Glas yn y gogledd | Mae’r polisi hwn yn yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las o amgylch Wrecsam a Glannau Dyfrdwy i reoli ffurf a thwf trefol. Diben y polisi hwn yw amddiffyn asedau amgylcheddol rhag datblygiad ac ni fyddai’n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori D) |
| P23 – Metro Gogledd Cymru | Mae’r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygiad Metro Gogledd Cymru a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i alluogi ei ddarpariaeth a sicrhau cymaint o gyfleoedd cysylltiedig â phosibl, gan gynnwys gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol i gryfhau cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol. Mae’r polisi yn pennu’r cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol o ran cefnogi’r metro a chynllunio twf i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd sy’n deillio o well cysylltedd rhanbarthol a thrawsffiniol, gan gynnwys nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiad dwysedd uwch, defnydd cymysg a heb geir o gwmpas gorsafoedd metro newydd a gwell. Er bod datblygiad o gwmpas gorsafoedd Metro newydd a gwell yn debygol o gael ei ganolbwyntio o amgylch lleoliadau trefol presennol, ceir nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar o amgylch arfordir y gogledd a allai gael eu heffeithio gan ddatblygiad o’r fath ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |

| | | |
|---|---|---|
| P24 – Gogledd-orllewin Cymru ac Ynni | Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Ogledd-orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygiad a buddsoddiad ynni newydd. Bydd datblygiadau sy'n gysylltiedig â Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn, Wylfa Newydd a Thrawsfynydd yn cael eu cefnogi fel ffordd o greu manteision economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel. O ystyried graddfa bosibl datblygiad o'r fath, gallai prosiectau ynni yng Ngogledd-orllewin Cymru effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar sydd wedi'u lleoli ar y tir ac o gwmpas morlin y rhanbarth.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| ***Y Canolbarth*** | | |
| P25 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – y Canolbarth | Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i dwf a datblygiad cynaliadwy mewn cyfres o drefi rhyng-gysylltiedig ar draws y rhanbarth. Dylai datblygiad yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol hyn ddiwallu anghenion tai, cyflogaeth a chymdeithasol Canolbarth Cymru. Dyma'r Ardaloedd Twf Rhanbarthol: Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi a Llandysul, Castellnewydd Emlyn a Llanbedr Pont Steffan, Aberhonddu a'r ffin, Calon Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt, Bro Hafren, gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd ac Aberystwyth. Mae'r polisi yn pennu'r cyfeiriad y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ei ddilyn i benderfynu ar y lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer twf yng Nghanolbarth Cymru.<br><br>Er bod datblygiad newydd ac adfywiad yn debygol o gael ei ganolbwyntio o gwmpas lleoliadau trefol presennol, mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli yn agos at y trefi hyn, yn ogystal ag o amgylch arfordir y gorllewin, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn, ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P26 – Tyfu Economi Canolbarth Cymru | Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i dwf a datblygiad cyfleoedd economaidd presennol a newydd ar draws Ganolbarth Cymru. Mae'r polisi yn pennu'r cyfeiriad y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ei ddilyn i ddatblygu polisïau sy'n cefnogi amaethyddiaeth a mentrau gwledig traddodiadol ar y tir ac i ddarparu fframwaith hyblyg i gefnogi datblygiad technolegau a sectorau newydd, arloesol ac sy'n dod i'r amlwg.<br><br>Er bod datblygiad newydd ac adfywiad yn debygol o gael ei ganolbwyntio o gwmpas lleoliadau trefol presennol, mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli ar draws y canolbarth, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn, ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P27 – Symudiad yng Nghanolbarth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol i sicrhau bod buddsoddiadau trafnidiaeth yn gwella hygyrchedd ar draws Canolbarth Cymru ac yn cryfhau cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol. Mae'r polisi yn pennu'r cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol o ran cefnogi cysylltiadau trafnidiaeth gwell yn y rhanbarth a chyda rhanbarthau eraill a Lloegr, a chynllunio twf i sicrhau bod cymaint o gyfleoedd â phosibl yn deillio o well cysylltedd rhanbarthol. Er bod y rhan fwyaf o'r gwaith gwella yn debygol o ddigwydd o fewn y | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |

| | | |
|---|---|---|
| | rhwydweithiau trafnidiaeth presennol, mae'n bosibl y gallai prosiectau seilwaith mwy effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar sydd wedi'u lleoli ar draws y canolbarth ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | |
| ***Y De-orllewin*** | | |
| P28 –Ardal Dwf Genedlaethol – Bae Abertawe a Llanelli | Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fae Abertawe a Llanelli fod yn brif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad rhanbarthol yn rhanbarth y De-Orllewin. Mae'r polisi yn pennu'r cyfeiriad y dylai Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ei ddilyn i gydnabod yr Ardal Dwf Genedlaethol fel y pwyslais ar gyfer twf economaidd a thai strategol; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol.<br><br>Er bod datblygiad newydd ac adfywiad yn debygol o gael ei ganolbwyntio o gwmpas lleoliadau trefol presennol, mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli yn agos at y trefi hyn, yn ogystal ag o amgylch arfordir de a gorllewin Cymru, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn, ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P29 - Ardaloedd Twf Rhanbarthol - Caerfyrddin a Threfi'r Ddau Gleddau | Mae'r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i dwf ac adfywiad cynaliadwy yng Nghaerfyrddin a Threfi Dau Gleddau Sir Benfro (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro). Bydd yr ardaloedd hyn yn ganolbwyntiau ar gyfer twf a reolir, gan adlewyrchu eu swyddogaethau isranbarthol pwysig a'u cysylltiadau cryf ag Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Mae'r polisi yn pennu'r cyfeiriad y dylai Cynlluniau Strategol a Datblygu Lleol ei ddilyn i gydnabod swyddogaethau'r lleoedd hyn fel canolbwyntiau ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol yn eu hardaloedd ehangach a chefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwyntiau ar gyfer twf isranbarthol.<br><br>Er bod datblygiad newydd ac adfywiad yn debygol o gael ei ganolbwyntio o gwmpas lleoliadau trefol presennol, mae nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar wedi eu lleoli yn agos at rai o'r trefi hyn, yn ogystal ag o amgylch yr arfordir, gan gynnwys Dyfrffordd y Ddau Gleddau nesaf at Drefi'r Ddau Gleddau a Chaerfyrddin a safle Morol Gorllewin Cymru oddi ar arfordir Aberystwyth, a allai gael eu heffeithio gan dwf cynyddol yn yr ardaloedd hyn, ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i'r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P30 – Lleiniau Glas yn y de-orllewin | Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r defnydd o Gynlluniau Datblygu Strategol i nodi a sefydlu lleiniau glas i reoli ffurf a thwf trefol yn y De-orllewin, yn enwedig o gwmpas Bae Abertawe a Llanelli. Diben y polisi hwn yw amddiffyn asedau amgylcheddol rhag datblygiad ac ni fyddai'n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori D) |

| | | |
|---|---|---|
| P31 – Metro y De-orllewin | Mae’r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygiad Metro y De-orllewin a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i alluogi ei ddarpariaeth a sicrhau cymaint o gyfleoedd cysylltiedig â phosibl. Er bod seilwaith rheilffyrdd newydd posibl, a datblygiad arall yn gysylltiedig â Metro y De-orllewin yn debygol o gael ei ganolbwyntio o amgylch lleoliadau trefol presennol, ceir nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar (gan gynnwys ACA Cors Crymlyn, sydd rhwng Abertawe a Chastell-nedd), a allai gael eu heffeithio gan ddatblygiad o’r fath ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P32 – Dyfrffordd y Ddau Gleddau ac Ynni | Mae’r polisi hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran y gweithrediadau yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau ac yn cydnabod ei lleoliad ar gyfer datblygiad, arloesedd a buddsoddiad cysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a charbon isel newydd posibl. Gallai datblygiad cysylltiedig ag ynni sy’n gysylltiedig â’r porthladd effeithio ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar sydd wedi eu lleoli o gwmpas arfordir Sir Benfro, gan gynnwys Dyfrffordd y Ddau Gleddau ei hun.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| ***Y De-ddwyrain*** | | |
| P33 – Ardal Dwf Genedlaethol - Caerdydd, Casnewydd a’r Cymoedd | Mae’r polisi hwn yn rhoi cefnogaeth i Gaerdydd, Casnewydd a’r Cymoedd fel y prif ganolbwyntiau ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-Ddwyrain. Mae’r polisi hwn yn cefnogi statws Caerdydd fel dinas sy’n gystadleuol yn rhyngwladol a dinas graidd ar lwyfan y DU. Bydd Caerdydd yn cadw ac yn ymestyn ei swyddogaeth fel y brif ganolfan genedlaethol ar gyfer diwylliant, chwaraeon, hamdden, y cyfryngau, yr economi gyda’r nos a chyllid. Mae ACA/AGA/safle Ramsar Aber Afon Hafren i’r de o’r ddinas. Er yr ystyrir bod y potensial ar gyfer effeithiau ar safleoedd Natura 2000/Ramsar yn is nag mewn ardaloedd eraill yn y rhanbarth, ceir potensial o hyd i’r safle hwn gael ei effeithio o ganlyniad i dwf yng Nghaerdydd a’r cyffiniau.<br><br>Mae’r polisi hwn yn cefnogi swyddogaeth strategol fwy i Gasnewydd fel canolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad hirdymor cynaliadwy. Mae ACA Afon Wysg yn llifo drwy’r ddinas ac mae ACA Môr Hafren, AGA/ safle Ramsar Severn Estuary i’r de. Mae gan dwf parhaus Casnewydd, yn enwedig cyrion allanol y ddinas, y potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar cyfagos ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol.<br><br>Mae’r polisi hwn yn cefnogi adfywiad a buddsoddiad cydgysylltiedig yn ardal y Cymoedd i wella llesiant, cynyddu ffyniant a mynd i’r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chyrff rhanbarthol, awdurdodau lleol, busnesau, y trydydd sector, asiantaethau a rhanddeiliaid i gefnogi buddsoddiad, gan gynnwys yn y sector gweithgynhyrchu, ac i sicrhau bod dull rhanbarthol o fynd i’r afael a phroblemau economaidd-gymdeithasol yn cael ei fabwysiadu yn y Cymoedd. Er bod pwyslais y polisi ar adfywio, ni ellir diystyru effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn y rhanbarth ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |

| | | |
|---|---|---|
| P34 – Lleiniau Glas yn y de-ddwyrain | Mae’r polisi hwn yn ei gwneud yn ofynnol i’r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las i’r gogledd o Gaerdydd, Casnewydd a rhan ddwyreiniol y rhanbarth i reoli ffurf a thwf trefol. Diben y polisi hwn yw amddiffyn asedau amgylcheddol rhag datblygiad ac ni fyddai’n arwain at unrhyw oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. | Sgriniwyd allan (Categori D) |
| P35 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd | Mae’r polisi hwn yn cefnogi sefydliad Parc Rhanbarthol y Cymoedd. Mae’r polisi yn cydnabod bod Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol yn ymsefydlu egwyddorion Parc Rhanbarthol i’r Cymoedd yn eu fframweithiau cynllunio. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a phartneriaid allweddol i gefnogi Parc Rhanbarthol y Cymoedd a sicrhau bod cymaint o gyfleoedd a phosibl ar gyfer datblygiad newydd. Er bod asedau amgylcheddol yn rhan allweddol o’r fframwaith, mae’r polisi hefyd yn ceisio manteisio i’r eithaf ar y potensial i ddatblygiad newydd helpu gydag adfywiad yr ardal. Ni ellir diystyru effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar felly.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |
| P36 – Metro y De-ddwyrain | Mae’r polisi hwn yn nodi cefnogaeth Llywodraeth Cymru i ddatblygiad Metro y De-ddwyrain a bydd yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i alluogi ei ddarpariaeth a sicrhau cymaint o gyfleoedd cysylltiedig â phosibl. Er bod pwyslais y polisi hwn ar leoliadau trefol yn rhanbarth de Cymru, ceir nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn y de-orllewin a allai gael eu heffeithio gan ddatblygiad o’r fath ac felly ni ellir diystyru Effeithiau Sylweddol Tebygol ar y cam hwn.<br><br>Darperir y goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i’r polisi hwn yn fwy manwl yn yr Asesiad Priodol. | Sgriniwyd i mewn (Categori I) |

## 2.3 Casgliad Sgrinio

Sgriniwyd Penodau 1 a 2 yr FfDC allan gan eu bod yn cynnwys testun cyflwyniadol a gwybodaeth gyd-destun na fyddai'n arwain at unrhyw effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Mae Pennod 3 yn cynnwys Canlyniadau'r FfDC. Er bod gan yr holl ganlyniadau y potensial i arwain at newid, gan mai'r polisïau yw'r dull a fydd yn cael ei ddilyn i gyflawni'r canlyniadau, mae asesu'r polisïau eu hunain (sy'n cynnwys gwybodaeth fwy manwl) yn fwy priodol ac yn cyd-fynd a chanllawiau a nodir yn Rhan F Canllawiau Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd DTA. Sgriniwyd Pennod 3 allan o asesiadau pellach hefyd felly.

O'r 36 o bolisïau a nodir ym Mhenodau 4 a 5 yr FfDC, gellir sgrinio 12 allan o Asesiad Priodol oherwydd na fyddent yn arwain yn uniongyrchol at newid, neu pe baent, byddai unrhyw newid ar raddfa mor fach na allai unrhyw effaith sylweddol debygol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar ddigwydd ar ei phen ei hun nac yn gyfunol.

Ystyrir bod gan y 24 polisi sy'n weddill y potensial i gyfarwyddo datblygiad yn y dyfodol fel y gallent arwain at oblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Sgriniwyd y polisïau hyn i mewn felly ar gyfer Asesiad Priodol pellach, ar eu pen eu hunain ac yn gyfunol, ac amlinellir canlyniadau'r rhain yn Adran 4.

# 3 Effeithiau Cyfunol

Datblygwyd y polisïau a nodir yn yr FfDC gan gymryd i ystyriaeth gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, 2015, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Llywodraeth Cymru, Ionawr 2019) a'r Polisi Adnoddau Naturiol (Llywodraeth Cymru, 2017). Maent wedi'u seilio felly ar egwyddorion cynaliadwyedd, sy'n cynnwys y gofyniad i ddiogelu safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Serch hynny, mae gan unrhyw bolisïau sydd â'r nod o gefnogi datblygiad y potensial i gael effeithiau niweidiol ar safleoedd o'r fath, a hyd yn oed os ydynt wedi'u geirio'n benodol i leihau peryglon effeithiau o'r fath i lefelau 'derbyniol', nod yw bob amser yn bosibl sicrhau nad oes gwrthdrawiadau a pholisïau eraill a allai beryglu'r amddiffyniadau hyn.

Mae'r FfDC yn cynnwys dwy brif adran yn cyflwyno polisïau: Mae Pennod 4 yn disgrifio'r polisïau hynny sy'n gysylltiedig â dewisiadau strategol a gofodol a fyddai'n berthnasol ledled Cymru (fel polisïau eang yn ymwneud a thwf trefol, tai neu ynni adnewyddadwy), tra bod Pennod 5 yn nodi polisïau sy'n berthnasol i ranbarthau arbennig yn benodol (h.y. Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru). Er yr ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai unrhyw effeithiau cyfunol rhwng y tri rhanbarth (gan fod effeithiau sy'n gysylltiedig â'r polisïau rhanbarthol yn cynnwys elfen ofodol sy'n annhebygol o effeithio ar safleoedd mewn rhanbarthau eraill), mae gan y polisïau gofodol ar gyfer y rhanbarthau hyn y potensial o weithredu'n gyfunol â'r polisïau strategol cyffredin ym Mhennod 4. Mae hyn gan fod natur genedlaethol yr olaf yn golygu ei bod yn bosibl y gallent arwain at ddatblygiad ychwanegol mewn rhanbarth i'r hyn a benderfynwyd eisoes gan y polisïau rhanbarthol. Ystyrir ei bod yn bosibl hefyd y gallai unrhyw un o'r polisïau strategol a grinwyd i mewn ym Mhennod 4 weithredu'n gyfunol â'i gilydd. Mae hyn oherwydd y ffaith os bydd gan bolisïau sy'n amlinellu'r dull ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad yr un pwyslais gofodol, yna gallai effeithiau efallai nad ydynt yn sylweddol ar eu pen eu hunain ddod yn sylweddol o'u cyfuno â'i gilydd os gallai cynigion arwain at effeithiau ar yr un safle Natura 2000/ Ramsar. Felly, er enghraifft, gallai'r polisïau strategol yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy a thai gael effeithiau sylweddol os bydd pob un yn arwain at ddatblygiad nesaf at yr un safle Ewropeaidd, hyd yn oed os nad ydynt yn sylweddol ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, gan ei bod yn ofynnol i bob cynllun a phrosiect haen is sydd â'r potensial i effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Polisi Cynllunio Cymru 10 a TAN5, byddai unrhyw effeithiau cyfunol posibl (fel ansawdd aer neu bwysau hamdden) yn cael eu nodi ar gam y cynllun haen is. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw gynlluniau neu brosiectau haen is, sy'n gysylltiedig â pholisïau yn yrr FfDC, lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy gamau lliniaru.

Yn ogystal â'r effeithiau cyfunol rhwng polisïau a sgriniwyd i mewn, mae'r potensial hefyd yn bodoli i bolisïau a sgriniwyd allan fel 'Categori J' yn yr asesiad sgrinio weithredu'n gyfunol â pholisïau eraill; mae hyn oherwydd bod y categori yn ymwneud â pholisïau na fyddent yn cael effaith sylweddol ar eu pen eu hunain ond a allai gael effaith gyfunol gyda pholisïau eraill. Fodd bynnag, ni chafodd unrhyw bolisïau eu categoreiddio fel hyn, felly ni ragwelir unrhyw effeithiau cyfunol polisïau a sgriniwyd allan gyda pholisïau eraill yn yr FfDC. Ystyrir y potensial ar gyfer effeithiau cyfunol o'r 24 o bolisïau a ddygwyd ymlaen ar gyfer Asesiad Priodol yn Adran 5.

# 4 Asesiad Priodol

## 4.1 Dull yr Asesiad Priodol

Mae'r Adran hon yn cynnwys yr Asesiad Priodol (Cam 2 y broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) o'r 24 polisi na ellid eu sgrinio allan yng ngham sgrinio'r broses Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (cyfeiriwch at Dabl 5). Mae'r Asesiad Priodol yn cynnig asesiad mwy manwl o'r goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/Ramsar a allai ddeillio o ganlyniad i weithredu polisïau'r FfDC.

Ar gyfer prosiectau, mae angen manylion llawn y cynigion i benderfynu ar y camau lliniaru sy'n ofynnol cyn y gellir dod i gasgliad ystyrlon pa un a fydd prosiect yn cael Effeithiau Sylweddol Tebygol, neu ddim effaith niweidiol ar gyfanrwydd. Nid yw hyn yn bosibl ar gyfer cynlluniau, yn enwedig cynlluniau lefel uchel fel yr FfDC, sy'n strategol eu natur trwy ddiffiniad. Mae Cynlluniau Strategol haen uchel yn pennu'r fframwaith polisi cyffredinol y mae'n rhaid i gynlluniau a phrosiectau haen is gydymffurfio ag ef. Yn y mwyafrif o achosion, ni fydd manylion penodol datblygiad y darperir ar ei gyfer mewn cynllun ar gael tan ddyddiad diweddarach, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu. Yn achos yr FfDC, bydd hyn trwy Gynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol a dogfennau a phrosiectau cynllunio strategol eraill a gyflwynir yn ystod cyfnod y cynllun.


Ar gyfer yr FfDC, ceir nifer o bolisïau sy'n cynnwys elfen ofodol, a nodir y safleoedd Natura 2000/Ramsar a allai gael eu heffeithio o ganlyniad i'r polisi (pan fo'n bosibl) ar gyfer y rhain, gydag enghreifftiau o'r mathau o effeithiau a allai ddigwydd. Gan nad oes unrhyw neilltuadau neu gynigion datblygu penodol yn cael eu nodi yn yr FfDC, ni ellir nodi'r ystod lawn o effeithiau posibl (ar nodweddion cymhwyso neu gynefinoedd/ rhywogaethau sy'n nodweddiadol o'r nodweddion hynny) ar y cam strategol hwn, ac felly ni ystyrir bod unrhyw effeithiau a nodir yma heb elfen ofodol yn rhestr gynhwysfawr o'r holl effeithiau posibl. Fodd bynnag, gwnaed pob ymdrech i nodi effeithiau posibl yn seiliedig ar y clustogfeydd a'r wybodaeth a nodwyd yn Adran 1.5, gwybodaeth gyfredol sydd ar gael ar adeg ysgrifennu hyn a barn broffesiynol.

Yn ogystal â'r asesiad o'r potensial ar gyfer effaith niweidiol ar gyfanrwydd safle Natura 2000/Ramsar pob un o'r polisïau a sgriniwyd i mewn, mae'r gofyniad am gamau lliniaru i sicrhau na fyddai effeithiau o'r fath yn codi wedi ei gynnwys yn yr asesiad hefyd [sylwer bod dyfarniad diweddar Llys Ewrop yn achos *People Over Wind* wedi egluro nad yw'n briodol ar y cam sgrinio i ystyried camau a fwriedir i osgoi neu leihau effeithiau niweidiol cynllun neu brosiect ar safle Natura 2000/Ramsar, ac y dylid, yn hytrach, ystyried camau o'r fath yn rhan o Asesiad Priodol]. Ar lefel strategol yr FfDC, mae camau lliniaru yn canolbwyntio'n bennaf ar newid geiriad polisi, ac mae gwahanol gamau'r FfDC wedi caniatáu proses ailadroddus lle mae geiriad polisi wedi cael ei ddiwygio, pan fo'n briodol, i osgoi effeithiau niweidiol. Yn ogystal â newidiadau i eiriad a chryfhau polisïau, datblygwyd tabl hefyd sy'n tynnu sylw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a mesurau datblygwyr at gamau y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw wrth baratoi cynlluniau a phrosiectau haen is (gweler Adran 4.2). Mae'n anochel y bydd angen asesiadau ecolegol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pellach ar lefel cynllun a lefel prosiect ar gyfer llawer o'r prosiectau a gyflwynir o ganlyniad i weithrediad polisi, ond bydd y camau hyn yn sicrhau'r gallu i ddarparu'r FfDC drwy'r cynlluniau a phrosiectau haen is hyn.

## 4.2 Camau Osgoi / Lliniaru

Fel y nodir uchod, ar y lefel uchel hon nid yw'n bosibl canfod manylion manwl gywir camau osgoi/lliniaru penodol, ond mae'r Asesiad Priodol yn cynnwys y mathau o gamau y mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr gydymffurfio â nhw i sicrhau dim effaith niweidiol ar gyfanrwydd. Mae'n bwysig bod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn rhoi'r sicrwydd polisi lefel uchel y bydd Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol y dyfodol yn dilyn y broses angenrheidiol i nodi ac asesu goblygiadau posibl i safleoedd Natura 2000/Ramsar wrth neilltuo tir ar gyfer datblygiad. Bydd angen i'r Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel cynllun lleol dilynol, neu lefel prosiect hyd yn oed, gymryd i ystyriaeth yr effeithiau posibl a nodwyd yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn i lywio eu datblygiad polisi a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru pan nodir effeithiau niweidiol posibl (mae cyfeiriad penodol at yr adran hon o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi ei gynnwys ym Mhennod 1 yr FfDC). Os oes potensial i neilltuadau a phrosiectau tir, a ddatblygir o ganlyniad i weithredu unrhyw bolisïau yn yr FfDC, gael effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, dylid tynnu'r rhain yn ôl, neu eu diwygio a'u hail-asesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan Erthygl 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, sef dim atebion amgen, Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) a sicrhau camau gwneud iawn. Nid yw'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynlluniau neu brosiectau haen is lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd

Natura 2000/ Ramsar trwy gamau lliniaru a bydd yn sicrhau cydymffurfiad â Pholisi Cynllunio Cymru 10 a TAN 5 (gweler Adran 1.4). Mae'r diagram llif isod yn dangos sut y mae canlyniadau'r FfDC (a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn felly) yn cyfrannu at y broses gynllunio.




Mae dau fath o gamau osgoi/ lliniaru wedi eu cynnwys yn yr Asesiad Priodol. Mae'r math cyntaf yn gamau mwy cyffredinol a fyddai'n berthnasol i'r mwyafrif o bolisïau. Nodir y rhain yn Nhabl 6, isod. Defnyddiwyd y codau cyfeirnod yn Nhabl 6 yn y tabl Asesiad Priodol (Tabl 7). Yr ail fath o gamau yw'r rhai sy'n fwy penodol i'r polisi a nodir eu manylion yn llawn yn Nhabl 7.

*Tabl 6: Camau Osgoi/Lliniaru*

| **Effaith bosibl** | | **Camau** |
|---|---|---|
| **Effeithiau yn gysylltiedig â cholli cynefin** | | **Datblygiad o fewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar** |
| | *A* | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad o fewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br>Os na ellir osgoi neilltuo tir/ datblygiad o fewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn rhesymol (er enghraifft, gwaith amddiffyn rhag llifogydd), dylid sicrhau bod ôl troed y cynigion cyn lleied â phosibl, pan fo'n bosibl. Dylid gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir y posibilrwydd o effeithiau niweidiol. |
| | | **Datblygiad ar dir y mae'n hysbys bod ganddo gysylltiad swyddogaethol â safleoedd Natura 2000/ Ramsar [*mae gan dir y nodwyd bod ganddo gysylltiad swyddogaethol â safle Natura 2000/ Ramsar yr un lefel o amddiffyniad â'r safle Natura 2000/ Ramsar ei*** |

| | | |
|---|---|---|
| | ***hun*]** | |
| | *B* | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad mewn ardaloedd y mae’n hysbys bod ganddynt gysylltiad swyddogaethol â safle Natura 2000/ Ramsar.<br><br>Os na ellir osgoi neilltuo tir/ datblygiad mewn ardaloedd y mae’n hysbys bod ganddynt gysylltiad swyddogaethol â safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn rhesymol (er enghraifft, gwaith amddiffyn rhag llifogydd neu ddatblygiad llinellog fel cynlluniau ffyrdd), dylid sicrhau bod ôl troed y cynigion cyn lleied â phosibl, pan fo’n bosibl. Dylid gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir y posibilrwydd o effeithiau niweidiol.<br><br>Gallai Awdurdodau Cynllunio Lleol a Phaneli Cynllunio Strategol ystyried neilltuo tir lliniaru yn eu cynlluniau newydd pan fydd y potensial o effeithiau niweidiol o ran colli cynefin wedi ei nodi. |
| **Effeithiau yn gysylltiedig â tharfu/ dadleoli (e.e. effeithiau sŵn, gweledol a dirgryndod)** | *C* | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad nesaf at safleoedd Natura 2000/ Ramsar, neu dir y mae’n hysbys bod ganddo gysylltiad swyddogaethol â safle Natura 2000/ Ramsar lle mae’r potensial o effeithiau tarfu/ dadleoli yn debygol o fod fwyaf.<br><br>Os na ellir osgoi neilltuo tir/ datblygiad nesaf at safleoedd Natura 2000/ Ramsar, neu dir y mae’n hysbys bod ganddo gysylltiad swyddogaethol â safle Natura 2000/ Ramsar yn rhesymol, dylid sicrhau bod ôl troed y cynigion cyn lleied â phosibl, pan fo’n bosibl. Dylid gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir y posibilrwydd o effeithiau niweidiol.<br><br>Pan fydd y posibilrwydd o effeithiau tarfu/ dadleoli wedi eu nodi, gellid cynnwys camau fel clustogfeydd ar ymyl datblygiadau, gwaith amseru i osgoi cyfnodau sensitif (fel tymor bridio adar, neu gyfnodau mudo pysgod), lliniaru sŵn, sgrinio gweledol (naturiol ac artiffisial), addasiadau i ddyluniad goleuadau i leihau gorlifiad golau a lleihau mynediad at gynefinoedd sensitif yn nyluniadau cynlluniau i osgoi effeithiau o’r fath. Cynllun monitro ar y safle o ran sŵn, goleuo ac ati ynghyd â monitro ymddygiad y nodwedd gymhwyso. |
| **Effeithiau yn gysylltiedig â datblygiad neu seilwaith llinellog** | *D* | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai dorri cysylltiadau cynefinoedd, darnio cynefinoedd neu amharu ar wasgariad cynefinoedd/ rhywogaethau cymhwyso sy’n gysylltiedig â safleoedd Natura 2000/ Ramsar (fel llwybrau cymudo ystlumod, symudiad madfallod dŵr cribog rhwng pyllau bridio, neu nodweddion afonol dyfrgwn/ pysgod, sy’n rhwystro mynediad rhwng safleoedd â thir â chysylltiad swyddogaethol).<br><br>Os na ellir osgoi datblygiad llinellog yn rhesymol (er enghraifft, cynllun ffyrdd newydd), dylid sicrhau bod faint o gynefin llinellog a gollir cyn lleied â phosibl, pan fo’n bosibl. Dylid gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir y posibilrwydd o effeithiau niweidiol.<br><br>Pan fydd potensial o effeithio ar nodweddion llinellog, gellid cynnwys camau fel pontydd gwyrdd, plannu newydd a chysylltiadau cynefin, yn ogystal ag integreiddio â Seilwaith Gwyrdd presennol yn nyluniadau’r cynllun i liniaru effeithiau o’r fath. Dylid sicrhau cydymffurfiad â Strategaeth Trafnidiaeth Cymru (sy’n cael ei diweddaru ar hyn o bryd). |
| **Effeithiau yn gysylltiedig â phwysau hamdden (e.e. niwed i gynefinoedd cymhwyso sensitif a tharfu/ dadleoli rhywogaethau cymhwyso)** | **E** | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai gynyddu pwysau hamdden ar gynefinoedd a rhywogaethau sensitif (yn enwedig adar sy’n nythu ar y ddaear) sy’n gysylltiedig â safleoedd Natura 2000/ Ramsar (er enghraifft, osgoi datblygiadau tai newydd o fewn pellter cerdded i safleoedd Natura 2000/ Ramsar y mae eisoes yn hysbys eu bod mewn perygl oherwydd defnyddwyr presennol).<br><br>Os na ellir osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai gynyddu pwysau hamdden yn rhesymol, dylid sicrhau bod ôl troed neu ddwysedd tai yn yr ardal honno cyn lleied â phosibl, pan fo’n bosibl. Dylid gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir y posibilrwydd o effeithiau niweidiol.<br><br>Pan fo’n bosibl y gallai pwysau hamdden gael effaith niweidiol ar gynefinoedd sensitif, gellid |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyried y camau canlynol yn rhan o'r cynllun lliniaru: darparu digon o le agored mewn datblygiadau fel na fyddai angen mynd i rywle arall, yn benodol, sicrhau bod digon o le ar gael i bobl fynd â'u cŵn am dro; osgoi cysylltu llwybrau troed newydd â llwybrau troed presennol sy'n arwain at ardaloedd sensitif; hybu'r defnydd o fannau agored amgen trwy, er enghraifft, pecynnau i berchnogion tai; gosod ffensys ychwanegol mewn ardaloedd sensitif i gyfyngu mynediad (i bobl sy'n mynd â'u cŵn am dro ac i gerbydau); ac, os oes angen, cyfyngu mynediad i fannau parcio heb eu hawdurdodi, a hybu'r defnydd o feysydd parcio mewn ardaloedd llai sensitif. |
| **Effeithiau yn gysylltiedig ag ansawdd dŵr**<br><br>*(e.e. dŵr-ffo o ddraenio dŵr wyneb)* | F | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai arwain at effeithiau niweidiol ar ansawdd dŵr safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br><br>Os na ellir osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai arwain at effeithiau niweidiol ar ansawdd dŵr yn rhesymol, dylech wneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir potensial ar gyfer effeithiau niweidiol.<br><br>Dylid sicrhau bod asesiadau hydrolegol yn cael eu cynnal i ddarganfod y potensial o gysylltiad hydrolegol rhwng safleoedd ac ardaloedd dynodedig. Dylid ystyried y camau canlynol: cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) ac atebion draenio dŵr wyneb seiliedig ar natur eraill yn nyluniadau cynlluniau; cynnwys camau diogelu ansawdd dŵr a fyddai'n cael eu sicrhau trwy Gynllun Rheoli Amgylcheddol Adeiladu (CEMP). |
| ***Effeithiau ar adnoddau dŵr (e.e. newidiadau a allai effeithio ar ecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear)*** | ***G*** | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai arwain at effeithiau niweidiol ar ecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear (er enghraifft, marwolaeth rhywogaethau cymhwyso (yn enwedig pysgod) o fwy o echdynnu dŵr, ac effeithiau yn gysylltiedig â newidiadau i'r drefn hydrolegol o ganlyniad i echdynnu dŵr, newidiadau i systemau draenio dŵr budr, neu systemau rheoli gwastraff eraill).<br><br>Os na ellir osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai arwain at effeithiau niweidiol ar ecosystemau sy'n ddibynnol ar ddŵr daear yn rhesymol, dylid gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir potensial ar gyfer effeithiau niweidiol. Sylwer y gallai safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio gan echdynnu dŵr a rhyddhau elifion posibl o weithfeydd trin dŵr gwastraff neu ffrydiau rheoli gwastraff eraill sy'n gwasanaethu datblygiad newydd dros bellteroedd mawr, gan sicrhau felly bod effeithiau posibl wedi cael eu hystyried o fewn a'r tu allan i ardal cynllun. |
| ***Effeithiau yn gysylltiedig ag ansawdd aer***<br><br>***(e.e. mwy o ddyddodi llygryddion aer yn deillio o ddatblygiad, gan gynnwys allyriadau o gynnydd i draffig)*** | ***H*** | Dylid osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai arwain at effeithiau niweidiol ar aer (er enghraifft, datblygiad a allai fod yn fwy na llwyth critigol y cynefinoedd sy'n gysylltiedig â safle Natura 2000/Ramsar).<br><br>Os na ellir osgoi neilltuo tir/ datblygiad a allai arwain at effeithiau niweidiol ar ansawdd aer yn rhesymol, dylid gwneud yn siŵr bod dealltwriaeth dda o lwybrau effaith a sicrhau y gellir darparu camau lliniaru priodol pan nodir potensial ar gyfer effeithiau niweidiol.<br><br>Gellid ystyried y camau canlynol yn rhan o'r cynllun lliniaru: pennu terfynau ar yr allyriadau o ddiwydiant/ datblygiadau tai newydd, hybu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy (gwella mynediad at foddau trafnidiaeth amgen), llywio datblygiad tuag at gyfleusterau a chyfleoedd gwaith presennol i leihau'r defnydd o geir, a chynnwys systemau trafnidiaeth cynaliadwy lle bynnag y bo'n bosib, yn unol â'r Ddeddf Teithio Llesol. |

## 4.3 Tabl yr Asesiad Priodol

Mae Tabl 7 isod yn darparu'r Asesiad Priodol ar gyfer y polisïau a sgriniwyd i mewn i'r asesiad (gweler Tabl 5).

*Tabl 7: Asesiad Priodol o'r Polisïau a Gynhwyswyd*

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| P3 – Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol-Arweinyddiaeth yn y Sector Cyhoeddus | Mae'r polisi hwn yn datgan '*bydd Llywodraeth Cymru yn cydosod tir, yn buddsoddi mewn seilwaith ac yn paratoi safleoedd i'w datblygu*.' Er nad yw union fanylion datblygiad o'r fath yn hysbys yn agweddau pwysicaf yr FfDC, mae'r polisi hwn yn cefnogi twf ac adfywio er budd cymunedau ledled Cymru.<br><br>*Effeithiau*<br><br>Gan nad oes elfen ofodol i'r polisi, nid yw'n bosibl pennu pa safleoedd Natura 2000/Ramsar y gallai twf ac adfywio yn y sector cyhoeddus effeithio arnynt yn y dyfodol. Fodd bynnag, gan y gallai tir cyhoeddus gynnwys neu fod yn ffinio â safleoedd Natura 2000/Ramsar, mae'n bosibl y bydd effeithiau andwyol ar safleoedd o'r fath. Gallai'r effeithiau posibl gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): tarfu ar nodweddion cymhwyso (er enghraifft, ymyrryd/dadleoli rhywogaethau adar perthnasol os yw twf ac adfywio yn digwydd ar gyrion ardaloedd trefol, neu mewn aneddiadau arfordirol yng nghyffiniau Ardaloedd Cadwraeth Arbennig / Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig /safleoedd Ramsar neu dir y gwyddys ei fod wedi'i gysylltu'n swyddogaethol â safleoedd Natura 2000/ Ramsar, gwahanu llwybrau cymudo ar gyfer ystlumod a madfallod dŵr cribog); yn ogystal â niwed i gynefinoedd pwysig sy'n gysylltiedig â safleoedd Ramsar/Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (er enghraifft, trwy lygredd dŵr/aer neu fwy o aflonyddwch o ganlyniad i bwysau hamdden gan boblogaeth fwy o fewn rhanbarth).<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>Prif bwyslais y polisi yw annog buddsoddi ac adfywio mewn ardaloedd trefol presennol; fodd bynnag, os oes posibilrwydd yr effeithir ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth baratoi cynlluniau a phrosiectau haen is er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyraniadau tir) neu brosiectau sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn Adran 1.5 yn gymorth i nodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid tynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan Erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br><br>*Casgliad* | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Byddai glynu wrth y camau a nodir uchod gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, yn sicrhau na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P8 – Llifogydd | Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n paratoi strategaeth genedlaethol ddrafft ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019a) er mwyn gweithredu'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr. Mae Polisi 8 yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodir yn y strategaeth; fodd bynnag, gan fod y strategaeth eisoes wedi mynd drwy broses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac y cytunwyd ar y mecanweithiau ar gyfer cyflwyno iawndal (drwy'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd), mae'n dod o fewn Categori C o'r Canllawiau DTA ac wedi ei hepgor o asesiad pellach (gweler Tabl 5). Byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru yn cael ei wneud o dan y strategaeth genedlaethol a'i ddatblygu yn unol â'r strategaeth. Felly, yr unig ystyriaeth yn yr asesiad priodol fyddai'r prosiectau hynny sydd y tu hwnt i gwmpas y strategaeth genedlaethol, gan gynnwys gwaith preifat ar atal llifogydd<br><br>O ystyried bod rhannau sylweddol o Gymru, sydd mewn perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, hefyd wedi'u dynodi yn safleoedd Natura 2000/Ramsar, mae modd i waith lliniaru llifogydd gael effeithiau andwyol sylweddol ar safleoedd o'r fath.<br><br>*Effeithiau*<br><br>Byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith amddiffyn rhag llifogydd yng Nghymru yn cael ei wneud o dan y strategaeth genedlaethol ar gyfer y gwaith na chai ei wneud o dan y strategaeth honno, mae'r effeithiau canlynol a allai ddeillio o unrhyw brosiectau llifogydd ac erydu arfordirol yn cynnwys (ond heb eu cyfyngu i): newidiadau i gemeg dŵr; llai o lifogydd dŵr wyneb; newidiadau i'r gyfundrefn llif a chyflymder a gwell draeniad; cystadleuaeth gan rywogaethau anfrodorol; difrod ffisegol; newidiadau yn y gyfundrefn ffisegol; a cholli cynefinoedd.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>Er bod y polisi yn nodi y *bydd 'Cefnogir cynlluniau rheoli perygl llifogydd sy'n galluogi ac yn cefnogi twf ac adfywiad strategol cynaliadwy mewn ardaloedd twf cenedlaethol a rhanbarthol'* mae'r polisi hefyd yn cynnwys geiriad sydd â'r bwriad o ddiogelu safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol: *rhaid sicrhau nad yw prosiectau yn effeithio yn andwyol ar safleoedd cadwraeth natur dynodedig statudol rhyngwladol a chenedlaethol (a'r nodweddion y maent wedi'u dynodi ar eu cyfer).*<br><br>Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth baratoi cynlluniau a phrosiectau haen is er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A, B, C, D, E, F, G, H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i unrhyw brosiectau eraill a gyflwynir o ganlyniad i weithredu Polisi 8, nad ydynt yn gysylltiedig â'r Strategaeth Llifogydd Genedlaethol, sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn Adran 1.5 yn gymorth i nodi'r safleoedd Natura | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Os oes posib i brosiectau lliniaru llifogydd (nad ydynt yn gysylltiedig â'r strategaeth genedlaethol) gael effaith andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (megis cynlluniau arfordirol), dylid tynnu'r rhain yn ôl, neu eu diwygio a'u hail-asesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan Erthygl 6 (4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, sef dim atebion amgen, rhesymau hanfodol o fudd cyhoeddus tra phwysig (IROPI) a sicrhau camau digolledu.<br>*Casgliad*<br>Byddai glynu wrth y camau a nodir uchod gan Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, yn sicrhau na fyddai unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P9 – Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth a Seilwaith Gwyrdd | Ar y cyfan, bydd y polisi hwn yn arwain at lawer o ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol, gan hyrwyddo gwella bioamrywiaeth a diogelu rhwydweithiau ecolegol. Bydd datblygu seilwaith gwyrdd a gwneud y gorau ohono hefyd yn arwain at fanteision amgylcheddol cadarnhaol, gan gynnwys cysylltu ardaloedd presennol a chynefinoedd newydd i greu rhwydwaith gwyrdd ledled Cymru. Fodd bynnag, os datblygir seilwaith gwyrdd mewn lleoliadau anaddas, sy'n anghydnaws â'r amcanion cadwraeth ar gyfer safleoedd Natura 2000/Ramsar, mae posibilrwydd y bydd effeithiau andwyol sylweddol ar safleoedd o'r fath.<br>*Effeithiau*<br>Gan nad oes elfen ofodol i'r polisi, nid yw'n bosibl pennu pa safleoedd Natura 2000/Ramsar y gallai datblygiadau seilwaith gwyrdd effeithio arnynt fodd bynnag, os caiff ei leoli mewn mannau anaddas, gallai gweithredu'r polisi o bosibl arwain at effeithiau niweidiol i gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bodoli eisoes. Gallai'r effeithiau posibl gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): prysgwydd yn lledaenu i gynefinoedd agored fel rhostiroedd neu laswelltir; gallai plannu coetiroedd gerllaw cynefinoedd sensitif gael effeithiau andwyol hefyd, yn enwedig os yw rhywogaethau o'r safleoedd hynny'n dibynnu ar gynefinoedd agored tebyg y tu hwnt i ffiniau'r safle (e.e. ar gyfer chwilota am fwyd neu glwydo). Gallai newid cynefinoedd gerllaw safleoedd sensitif ddarparu cysgod a chuddfan ar gyfer ysglyfaethwyr y rhywogaethau perthnasol (yn enwedig adar sy'n nythu ar y ddaear), neu gallai effeithio o bosibl ar hydroleg y dirwedd, a allai effeithio'n andwyol ar safleoedd gwlyptir. Mae cynyddu nifer y bobl sy'n ymweld â mannau glas yn dod â llawer o fanteision cadarnhaol o ran cefnogi lles corfforol a meddyliol, ond gallai hyn hefyd gael effeithiau andwyol sy'n gysylltiedig â phwysau hamdden (fel aflonyddwch o bresenoldeb dynol cynyddol a phobl yn mynd â'u cŵn am dro).<br>*Osgoi/ Lliniaru*<br>Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau nad yw'r safleoedd a ddewisir i gefnogi cyflwyno'r polisi hwn eisoes wedi eu dynodi ar gyfer cynefinoedd eraill y byddai Seilwaith Gwyrdd newydd yn eu peryglu. Er nad yw union leoliadau prosiectau gwella neu ehangu Seilwaith Gwyrdd yn hysbys ar hyn o bryd, caiff Asesiadau Seilwaith Gwyrdd, yn ogystal ag ymarfer mapio rhwydweithiau | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | ecolegol a seilwaith gwyrdd, eu defnyddio i ddynodi meysydd posibl i'w gwella. Bydd yr asesiadau a'r mapiau hyn hefyd yn dynodi ardaloedd sensitif presennol ac yn sicrhau y cânt eu diogelu; serch hynny, er mwyn sicrhau y caiff safleoedd Natura 2000/Ramsar eu diogelu, lle gallai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn:<br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A, B, C, D, E, F, G<br>*Camau perthnasol i bolisïau penodol:*<br>• Rhaid i bolisïau a/neu brosiectau seilwaith gwyrdd a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer seilwaith gwyrdd) sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Rhaid i asesiadau seilwaith gwyrdd ystyried yn llawn oblygiadau unrhyw welliannau/creu cynefinoedd arfaethedig ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar er mwyn sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar. Yn benodol, goblygiadau aflonyddwch dynol (gan gynnwys mynd â chŵn am dro) ar gynefinoedd sensitif a rhywogaethau perthnasol os mai amcan y Seilwaith Gwyrdd newydd yw darparu adnodd ar gyfer hamdden.<br><u>*Casgliad*</u><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P10 – Cysylltedd Rhyngwladol | Mae'r polisi hwn yn nodi y Pyrth Strategol yng Nghymru, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, Porthladd Caergybi, Porthladd Abergwaun, a Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnwys Porthladdoedd Aberdaugleddau u Doc Penfro, ac mae'n cydnabod y swyddogaethau pwysig sydd ganddynt o ran cysylltedd rhyngwladol ac economïau rhanbarthol ac yn ceisio cynorthwyo i'w cynnal :<br>*"Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y Pyrth Strategol canlynol i hwyluso cysylltedd rhyngwladol:*<br>*• Maes Awyr Caerdydd; • Porthladd Caergybi; • Dyfrffordd y Ddau Gleddau, gan gynnwys Porthladdoedd Aberdaugleddau a Doc Penfro; a • Porthladd Abergwaun.*<br>*Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r gweithredwyr, y buddsoddwyr ac awdurdodau lleol i gefnogi'r Pyrth Strategol a chynnal a chadw eu swyddogaethau o ran cysylltedd rhyngwladol. Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol gefnogi'r Pyrth Strategol drwy sicrhau eu bod yn darparu cymaint o fuddion â phosibl i'r rhanbarthau y maent ynddynt ac i Gymru. Dylid rheoli datblygiad newydd o amgylch y Pyrth Strategol yn ofalus i sicrhau na chyfyngir nac effeithir ar eu gweithrediad."*<br>**Maes Awyr Caerdydd** | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Cydnabuwyd Maes Awyr Caerdydd yn rhan hanfodol o seilwaith trafnidiaeth strategol Cymru. I gynnal a chadw'r swyddogaeth cysylltedd rhyngwladol, gallai fod angen darparu cyfleusterau maes awyr newydd a gwell, a gwasanaethau i deithwyr dros gyfnod yr FfDC, gan gynnwys integreiddio â Metro De Cymru (polisi 36) a gwelliannau mynediad i gerddwyr a beicwyr. Gallai Polisi P10 felly hwyluso ymestyn Maes Awyr Caerdydd o bosibl. Er bod ansicrwydd ynghylch unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol, yn unol â'r egwyddor rhagofalus, mae'n briodol tybio bod potensial i ymestyn gwasanaethau ac felly bod angen nodi goblygiadau posibl hyn ar safleoedd Natura 2000 / Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.<br><br>_Effeithiau (Maes awyr Caerdydd)_<br><br>Mae Severn Estuary AGA/Safle Ramsar/ Môr Hafren ACA i'r dwyrain o'r maes awyr. Er y gellir diystyru effeithiau uniongyrchol (megis colli cynefin) ar nodweddion cynefin yr AGA/Safle Ramsar/ACA. Gallai unrhyw ehangu ar gapasiti'r maes awyr o ran mwy o hediadau a'i seilwaith cysylltiedig gael effeithiau amgylcheddol llawer ehangach (gan gynnwys y tu allan i Gymru), a byddai'r goblygiadau posibl ar gyfer safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn ymestyn ymhellach o lawer nag ar gyfer datblygiadau ar lawr gwlad ar raddfa lai.<br><br>Cynhwyswyd y maes awyr a'r Ardal Fenter yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026 (Bro Morgannwg, Mehefin 2017). Mae 'Sain Tathan - Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd' yn Faes Cyfleoedd Strategol (Polisi MG10) o fewn y cynllun datblygu lleol. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y Cynllun Datblygu Lleol (Bro Morgannwg, 2016) yn 2016 a ganfu fod yr effeithiau andwyol cysylltiedig â gweithredu polisi MG10 yn ymwneud ag ansawdd aer a hamdden. Daeth yr asesiad priodol dilynol o bolisi MG10 i'r casgliad '*gan fod y safle gryn bellter o unrhyw safleoedd Ewropeaidd (tua 12km [o AGA Aber Afon Hafren/safle Ramsar/ACA]), ystyrir felly nad oes iddo unrhyw effeithiau arwyddocaol ar ei ben ei hun.*' O ran effeithiau cyfunol, ni chanfu'r Asesiad Priodol *unrhyw effeithiau cyfunol o ran llygredd aer, aflonyddwch, adnoddau dŵr neu ansawdd dŵr*.' Mae Bro Morgannwg hefyd wedi cynhyrchu dogfen Canllaw Cynllunio Atodol (Canllaw Cynllunio Atodol Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg. Mae Awyr Caerdydd ac Ardal Ddatblygu'r Porth, Rhagfyr 2019) sy'n cynnwys darpariaeth i sicrhau '*Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol o'r safle er mwyn canfod pa arolygon ac asesiadau pellach fydd eu hangen yn ganllaw i'r datblygiad.'* Seiliwyd polisi MG10 ar uwchgynllun o 2006 (Maes Awyr Caerdydd, 2006), ac yn dilyn hynny datblygwyd uwchgynllun newydd. Cynhyrchwyd uwchgynllun 2040 ar gyfer y maes awyr gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, Mehefin 2019). Nid yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd wedi'i gynnal ar y prif gynllun ar hyn o bryd. Dywed Uwchgynllun Maes Awyr Caerdydd: '*We propose to support an integrated and sustainable low-carbon transport infrastructure. We will deliver increased choice for those who work at, visit and use the Airport; offering phased active travel links, electric bus infrastructure, electric bikes for hire, electric vehicle charging points and bus rapid transit links to the planned campus. In addition, a sustainable and long-term approach to development is envisaged, utilising solar technology, sustainable building materials and cleaner technologies*.' Er yn debyg i ddyraniad 'Ardal Fenter Sain Tathan-Maes Awyr Caerdydd' yn y Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Uwchgynllun newydd yn cynnwys ffin ddiwygiedig fwy (er mwyn ystyried rhedfa estynedig bosibl) a rhagamcanion prosiect (o ran twf - mae twf rhagamcanol yr Uwchgynllun yn dangos y gallai niferoedd teithwyr gyrraedd 2.5 miliwn yn y 10 mlynedd nesaf gan gynyddu i 3.3 miliwn erbyn 2040, tra bod MG10 yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ailsefydlu teithiau teithwyr i 2.5 miliwn erbyn 2023, felly roedd Uwchgynllun 2006 yn seiliedig ar oddeutu dwbl nifer y teithwyr y cynigir yn yr Uwchgynllun 2040 ar hyn o bryd). O ystyried camau cynnar yr Uwchgynllun, nid oes unrhyw brosiectau wedi eu cyflwyno ar hyn o bryd; fodd bynnag, bydd angen ystyried yr effeithiau a nodir yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn unrhyw ddatblygiad sy'n gysylltiedig â pholisi | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | MG 10 yn y dyfodol, neu drwy'r Uwchgynllun newydd. Gallai hyn gynnwys: llygredd aer o ganlyniad i ehediadau ychwanegol a llif traffig cynyddol o deithwyr i'r maes awyr ac oddi yno; colli tir a allai fod yn addas i'w ddefnyddio gan adar sy'n chwilota am fwyd/clwydo sy'n gysylltiedig ac AGA Severn Estuary safle Ramsar o ganlyniad i'r estyniad posibl i'r rhedfa a'i seilwaith cysylltiedig; effeithiau andwyol/dadleoli (sŵn/gweledol) ar nodweddion perthnasol i chwilota am fwyd sy'n gysylltiedig ag AGA Severn Estuarysafle Ramsar gan ddefnyddio tir sydd wedi'i gysylltu'n swyddogaethol â safle Natura 2000/Ramsar (yn enwedig rhydwyr ac adar y dŵr sy'n gaeafu yn arbennig) sy'n gysylltiedig â gweithredu'r maes awyr, neu o ganlyniad i weithgareddau adeiladu yn deillio o ehangu'r maes awyr gan gynnwys ehangu'r rhedfa arfaethedig a seilwaith cysylltiedig, effeithiau anuniongyrchol megis mwy o bwysau hamdden ar y rhanbarth drwy dwristiaeth ychwanegol; yr effeithiau posibl ar ansawdd dŵr ac adnoddau o ganlyniad i'r seilwaith newydd sy'n gysylltiedig ag ehangu'r maes awyr; a'r effeithiau posibl mewn cyfuniad â phrosiectau mawr eraill yn rhanbarthol/yn genedlaethol.<br><br>Roedd Uwchgynllun 2006 yn cynnwys asesiad o ansawdd yr aer lleol o ganlyniad i deithiau maes awyr rhagamcanol, er bod yr Uwchgynllun newydd yn cynnwys amcanestyniad diwygiedig is ac felly lleihad posibl mewn effeithiau ar ansawdd aer, bydd angen asesiadau ansawdd aer tebyg ar lefel y prosiect i sicrhau na fydd unrhyw effeithiau andwyol ar ansawdd aer ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (ar eu pen eu hunain neu ar y cyd a datblygiadau mawrion eraill) Nid yw'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â maes awyr Caerdydd lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy liniaru.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru (Maes Awyr Caerdydd)*<br><br>Er nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn dod i unrhyw effaith anffafriol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (o ganlyniad i weithredu polisi MG10 o fewn y Cynllun Datblygu Lleol), o ystyried bod prif gynllun 2040 yn cynnwys rhagamcanion diwygiedig o'r ffin a'r prosiect, ni ellir dibynnu'n unig ar gasgliad y Cynllun Datblygu Lleol i derfynu unrhyw effeithiau andwyol polisi 10 o'r FFDC. Fodd bynnag, o ystyried maint a graddfa debygol datblygiadau yn y maes awyr yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect (i gydymffurfio â PCC10) a fyddai'n nodi unrhyw effeithiau eraill nas ystyriwyd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol (megis y rhai sy'n gysylltiedig ag estyniad y rhedfa). Byddai datblygu seilwaith sy'n gysylltiedig â maes awyr Caerdydd hefyd yn bodloni gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen ceisiadau i ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, rhaid cadw at y camau canlynol pan ddaw datblygiad y maes awyr a'i seilwaith cysylltiedig ymlaen yn y dyfodol (naill ai fel rhan o bolisi MG10 neu'r Uwchgynllun newydd) i sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i brosiectau sy'n ymwneud ag ehangu Maes Awyr Caerdydd sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Rhaid i ddatblygwyr yn y dyfodol allu dangos y gellir darparu unrhyw gamau lliniaru y tybir eu bod yn angenrheidiol yn ystod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y prosiect ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai tynnu'r prosiect yn ôl, neu ei ddiwygio a'i | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
| --- | --- | --- |
| | ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â maes awyr Caerdydd lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Mae Polisi 10 yn nodi y bydd "Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad priodol a all wella cysylltedd rhyngwladol ac y gellir ei dderbyn o fewn targedau newid hinsawdd statudol a chyllidebau carbon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y fframwaith newid hinsawdd statudol yn awgrymu camau i fynd i'r afael â phob ffynhonnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys teithio a chludo nwyddau rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i leihau allyriadau o hedfan a morgludiant. Mae'r allyriadau net o Gymru yn cynnwys cyfran Cymru o allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol. Bydd angen i benderfyniadau yn gysylltiedig â hedfan a morgludiant rhyngwladol ddangos sut y gallant gael eu derbyn o fewn y targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon." Mae'r gofyniad hwn yn dangos y caiff targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon eu bodloni i sicrhau nad yw allyriadau Cymru yn achosi unrhyw effeithiau anuniongyrchol posibl yn sgil nwyon tŷ gwydr ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried allyriadau cronnol o ffynonellau o'r tu allan i Gymru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw seilwaith newydd sy'n gysylltiedig ag ehangu maes awyr Caerdydd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo hynny'n ofynnol. Mae geiriad polisi 10 hefyd yn cydnabod '*Dylai'r FfDC a Strategaeth Drafnidiaeth Cymru gael eu defnyddio gyda'i gilydd a dylid mynd ati mewn ffordd integredig i'w gweithredu yn rhanbarthol a lleol. Mae hyn yn hanfodol i sicrhau y caiff datblygiadau newydd eu hadeiladu mewn lleoliadau cynaliadwy a'u cefnogi gan y seilwaith teithio llesol a chludiant cyhoeddus ... gan sicrhau bod lefelau cyfartalog llygredd yn yr awyr yn parhau i gael eu lleihau*.' Bydd angen i unrhyw waith datblygu yn y maes awyr yn y dyfodol sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag unrhyw dargedau ansawdd aer yn y dyfodol sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Trafnidiaeth er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br>**Caergybi**<br>Mae Porthladd Caergybi yn ased cenedlaethol o bwys ac yn borth rhyngwladol pwysig ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd Porthladd Caergybi i Ynys Môn ac i Gymru drwy Bolisi 10. Er nad yw P10 yn amlwg yn annog datblygiad newydd yng Nghaergybi ceir potensial, er mwyn cynnal swyddogaeth cysylltedd rhyngwladol bwysig Caergybi, yn ogystal â'i swyddogaeth yn yr economi rhanbarthol a chenedlaethol dros gyfnod yr FfDC, y bydd angen datblygiad newydd. Gallai unrhyw ddatblygiad newydd yng Nghaergybi, neu gamau i ymestyn ei gapasiti, beri risg i gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar.<br>*Effeithiau (Caergybi)*<br>Amgylchynir Ynys Môn gan safleoedd Natura 2000/Ramsar, gan gynnwys AGA Morwenoliaid Ynys Môn; ACA Gogledd Môn Forol; AGA/ACA Glannau Ynys Gybi ac ACA Y Fenai a Bae Conwy, y gallai twf y porthladd yn y dyfodol effeithio arnynt i gyd. Mae'n bosibl i ddatblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â'r Porthladd hefyd effeithio ar nifer o safleoedd Natura 2000/Ramsar | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | ymhellach i ffwrdd gan gynnwys safleoedd wedi'u dynodi ar gyfer mamaliaid morol fel ACA Gorllewin Cymru Forol; ACA Dynesfeydd Môr Hafren; ACA Pen Llŷn a'r Sarnau; ACA Bae Ceredigion; ac ACA Sir Benfro Forol.<br><br>Mae asesiad ecolegol (gan gynnwys sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd) eisoes wedi'i gynnal ar gyfer Gorchymyn Drafft Diwygio'r Harbwr ar gyfer y posibilrwydd o ehangu porthladd Caergybi. Roedd yr effeithiau posibl a ganfuwyd yn cynnwys: effeithiau aflonyddwch/dadleoli (sŵn/gweledol/dirgryniadau) ar nodweddion perthnasol y safleoedd morol o ran bridio a/neu gael porthiant (gan gynnwys llamhidyddion a môr-wenoliaid sy'n bridio); colli/difrodi cynefinoedd morol ac arfordirol sensitif; effeithiau posibl ar gynefinoedd sy'n ymwneud â chwilota am fwyd a/neu fridio yn ymwneud â newidiadau i brosesau arfordirol; cynnydd posibl mewn llygredd aer drwy weithgareddau adeiladu a/neu gynnydd mewn traffig cychod; effeithiau posibl ar ansawdd dŵr (megis llygredd yn yr amgylchedd morol o weithgareddau adeiladu, carthu gwely'r aber, neu gynyddu traffig cychod); effeithiau anuniongyrchol megis mwy o bwysau hamdden ar yr arfordir drwy dwristiaeth ychwanegol i'r ardal; a'r effeithiau posibl mewn cyfuniad â phrosiectau arfordirol eraill ar raddfa fawr yn rhanbarthol/yn genedlaethol. Nododd ymarfer sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Royal Haskoning, Mehefin 2019) ei bod hi'n bosibl ac yn debygol y byddai effeithiau sylweddol ar famaliaid morol (gan gynnwys llamidyddion yr harbwr, y dolffin trwynbwl a'r morlo llwyd). Mae asesiad priodol pellach yn cael ei gynnal ar gyfer y rhywogaethau perthnasol hyn ar hyn o bryd.<br><br>_Osgoi/ Lliniaru (Caergybi)_<br><br>Er y bydd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Gorchymyn Diwygio'r Porthladd yn cynnwys camau lliniaru i sicrhau na fyddai effaith andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, gellid cyflwyno prosiectau eraill yn y porthladd o ganlyniad i bolisi 10 yn ystod cyfnod cynllun yr FfDC, heb fod yn gysylltiedig â Gorchymyn Diwygio'r Porthladd; felly, ni ellir dibynnu'n llwyr ar gasgliad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Gorchymyn Diwygio'r Porthladd ar ei phen ei hun i ddod i'r casgliad na fyddai Polisi 10 o'r FFDC yn arwain at unrhyw effeithiau andwyol. Fodd bynnag, o ystyried maint tebygol unrhyw ddatblygiadau yn y porthladd yn y dyfodol, mae'n debyg y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect (i gydymffurfio â PCC10) a fyddai'n nodi unrhyw effeithiau eraill nas ystyriwyd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Gorchymyn Diwygio'r Porthladd. Byddai datblygu seilwaith sy'n gysylltiedig â Chaergybi hefyd yn destun gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen ceisiadau i ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, rhaid cadw at y camau canlynol (pan ddaw prosiectau sy'n ymwneud â'r porthladd i rym yn y dyfodol) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i brosiectau sy'n ymwneud ag ehangu Porthladd Caergybi (gan gynnwys y Gorchymyn Diwygio'r Porthladd y cyfeirir ato uchod) sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Rhaid i ddatblygwyr yn y dyfodol allu dangos y gellir cyflawni unrhyw gamau lliniaru y tybir eu bod yn angenrheidiol yn ystod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect. Os na all yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r prosiect ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â Phorthladd Caergybi lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy liniaru.<br>• Mae Polisi 10 yn nodi "*Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad priodol a allai wella cysylltedd rhyngwladol ac y gellir ei dderbyn o fewn targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y fframwaith newid hinsawdd statudol yn awgrymu camau i fynd i'r afael â phob ffynhonnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys teithio a chludo nwyddau yn rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i leihau allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol. Mae cyfrif allyriadau net Cymru yn cynnwys cyfran Cymru o allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol. Bydd angen I benderfyniadau sy'n gysylltiedig â hedfan a morgludiant rhyngwladol ddangos felly sut y gellir eu derbyn o fewn y targedau newid hinsawdd statudol a chyllidebau carbon*." Bydd y gofyniad hwn i ddangos y bydd y targedau newid hinsawdd a'r cyllidebau carbon yn cael eu cyflawni yn sicrhau na fydd allyriadau Cymru yn achosi effeithiau anuniongyrchol posibl yn sgil nwyon tŷ gwydr ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar. Fodd bynnag, bydd yn rhaid ystyried allyriadau cronnol o ffynonellau y tu allan i Gymru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw seilwaith newydd sy'n gysylltiedig ag ehangu'r porthladd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo hynny'n ofynnol.<br>**Dyfrffordd y Ddau Gleddau**<br>Mae Polisi P10 yn cydnabod pwysigrwydd Dyfrffordd y Ddau Gleddau ar gyfer yr economi ranbarthol, yn ogystal ag economi genedlaethol Cymru a'i swyddogaeth o ran cysylltedd rhyngwladol . Mae P10 yn ceisio sicrhau y cynhelir y swyddogaethau pwysig hyn sydd gan Ddyfrffordd y Ddau Gleddau dros gyfnod yr FfDC. Er nad yw hyn o reidrwydd yn golygu y byddai datblygiad newydd, neu ymestyniad i gapasiti Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn digwydd, ceir potensial y gallai datblygiad o'r fath ddigwydd. Gallai unrhyw ddatblygiad newydd yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau neu ymestyniad i'w gapasiti, beri risg i gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar.<br>*Effeithiau (Dyfrffordd y Ddau Gleddau)*<br>Er bod Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn borthladd sydd eisoes yn bodoli gyda diwydiannau hirsefydledig, a lleoliad allweddol ar gyfer cyflenwadau ynni'r DU, mae hefyd yn ffurfio rhan o ACA Gorllewin Cymru Forol ac ACA Sir Benfro Forol. Gallai ehangu'r porthladd effeithio ar ardaloedd cadwraeth arbennig cyfagos, yn ogystal â safleoedd Natura 2000/Ramsar ymhellach i ffwrdd gan gynnwys safleoedd a ddynodwyd ar gyfer mamaliaid morol megis ACA Dynesfeydd Môr Hamdden; ACA Pen Llŷn a'r Sarnau; ac ACA Bae Ceredigion.<br>Cynhwyswyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau fel dyraniad yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (Cyngor Sir Benfro, 2013). Mae polisi SP2 (datblygiadau sy'n gysylltiedig â phorthladd ac ynni) yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys datblygiadau ym mhorthladdoedd Aberdaugleddau ac Abergwaun. Mae'r polisi yn nodi y caniateir datblygu ar gyfer cyfleusterau a seilwaith sy'n gysylltiedig â'r porthladd, gan gynnwys datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ynni. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2012 (Cyngor Sir Benfro, 2012). Roedd yr effeithiau posibl a ganfuwyd yn | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | cynnwys: effeithiau aflonyddwch/dadleoli (sŵn/gweledol/dirgryniadau) ar nodweddion perthnasol y safleoedd morol o ran bridio a/neu gael porthiant; colli/difrodi cynefinoedd morol ac arfordirol sensitif (yn enwedig yr ACA cyfagos); effeithiau posibl ar gynefinoedd sy'n ymwneud â chwilota am fwyd a/neu fridio sy'n gysylltiedig â newidiadau i brosesau arfordirol; cynnydd posibl mewn llygredd aer drwy weithgareddau adeiladu a/neu gynnydd mewn traffig cychod; effeithiau posibl ar ansawdd dŵr (megis llygredd yn yr amgylchedd morol o weithgareddau adeiladu, carthu'r aber, neu gynyddu traffig cychod); effeithiau anuniongyrchol megis mwy o bwysau hamdden ar yr arfordir drwy dwristiaeth ychwanegol i'r ardal; a'r effeithiau posibl mewn cyfuniad â phrosiectau arfordirol eraill ar raddfa fawr yn rhanbarthol/yn genedlaethol. Daeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol i'r casgliad na fyddai gweithredu polisi SP2 yn effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, gan dybio y cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect i ddynodi a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl. Mae polisi SP2 yn datgan '*Bydd cynigion unigol a gyflwynir o dan bolisi SP2 yn gofyn am asesiad rheoleiddio cynefinoedd ar lefel prosiect i ystyried eu heffeithiau tebygol ar nodweddion yr ACA.* Cyflawnir hyn drwy bolisi GN36 yn y Cynllun Datblygu Lleol sy'n nodi '*Bydd yn ofynnol cynnal asesiad manwl cyn symud ymlaen gyda chynigion datblygu y mae modd iddynt gael effaith andwyol ar safleoedd sydd o bwys yn rhyngwladol neu'n genedlaethol. Yn benodol os yw unrhyw gynnig datblygu yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle neu rywogaeth Ewropeaidd a warchodir, bydd yn amodol ar asesiad priodol o'r goblygiadau mewn cysylltiad ag amcanion cadwraeth y safle.* Mae cais cynllunio sy'n gysylltiedig ag Uwchgynllun yr Porthladd Aberdaugleddau hefyd yn y system gynllunio ar hyn o bryd. Mae'r Arfarniad Ecolegol Rhagarweiniol ar gyfer yr Uwchgynllun (RSK, 2018) yn nodi y cynhelir Sgriniad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ar ôl cwblhau manylion yr Uwchgynllun.<br><br>*<u>Osgoi/ Lliniaru (Dyfrffordd y Ddau Gleddau)</u>*<br><br>Er nad yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol yn casglu y byddai unrhyw effaith andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (gyda chamau lliniaru ar waith), gellid cyflwyno prosiectau eraill yn y porthladd o ganlyniad i Bolisi 10 yn ystod cyfnod cynllun yr FfDC, y tu allan i ffiniau polisi SP2 o fewn y Cynllun Datblygu Lleol; Felly, ni ellir dibynnu'n llwyr ar gasgliad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol i roi sicrwydd na fydd polisi 10 o'r FFDC yn cael unrhyw effeithiau andwyol. Fodd bynnag, o gofio maint tebygol datblygiadau yn y porthladd yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect (i gydymffurfio â PCC10) a fyddai'n nodi unrhyw effeithiau eraill nas ystyriwyd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol. Byddai datblygu seilwaith sy'n gysylltiedig â Dyfrffordd y Ddau Gleddau hefyd yn destun gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen ceisiadau i ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000 Ramsar, rhaid cadw at y camau canlynol (pan ddaw prosiectau sy'n ymwneud â'r porthladd i rym yn y dyfodol) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl6):* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i brosiectau sy'n ymwneud â datblygu Dyfrffordd y ddau Gleddau sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5 a Pholisi GN36 Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi y safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Rhaid i ddatblygwyr yn y dyfodol allu dangos y | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | gellir cyflawni unrhyw gamau lliniaru y tybir eu bod yn angenrheidiol yn ystod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect. Os na all yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r prosiect ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â Dyfrffordd y Ddau Gleddau lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Mae Polisi 10 yn nodi "*Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad priodol a allai wella cysylltedd rhyngwladol ac y gellir ei dderbyn o fewn targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y fframwaith newid hinsawdd statudol yn awgrymu camau i fynd i'r afael â phob ffynhonnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys teithio a chludo nwyddau yn rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i leihau allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol. Mae cyfrif allyriadau net Cymru yn cynnwys cyfran Cymru o allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol. Bydd angen I benderfyniadau sy'n gysylltiedig â hedfan a morgludiant rhyngwladol ddangos felly sut y gellir eu derbyn o fewn y targedau newid hinsawdd statudol a chyllidebau carbon*." Bydd y gofyniad hwn i ddangos y bydd y targedau newid hinsawdd a'r cyllidebau carbon yn cael eu cyflawni yn sicrhau na fydd allyriadau Cymru yn achosi effeithiau anuniongyrchol posibl yn sgil nwyon tŷ gwydr ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar. Fodd bynnag, bydd yn rhaid ystyried allyriadau cronnol o ffynonellau y tu allan i Gymru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw seilwaith newydd sy'n gysylltiedig ag ehangu'r porthladd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br>**Porthladd Abergwaun**<br>Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y porthladd fel porth rhyngwladol pwysig ar gyfer cludo nwyddau a theithwyr yn ne-orllewin Cymru. Mae hefyd yn darparu cyswllt fferi cerbydau allweddol. Mae ganddo swyddogaeth strategol bwysig o ran cysylltu tir mawr Ewrop, y DU a Chymru â Gweriniaeth Iwerddon. Mae hefyd â rhan bwysig yn yr economi ranbarthol a chenedlaethol. Mae Polisi P10 yn ceisio sicrhau y cynhelir swyddogaeth pwysig hyn y porthladd dros gyfnod yr FfDC. Er nad yw Polisi P10 yn amlwg yn annog datblygiad newydd yn y porthladd, nac ymestyniad i'w gapasiti,ceir potensial y bydd angen datblygiad o'r fath er mwyn cynnal cysylltedd pwysig y Porthladd a'i swyddogaethau economaidd. Gallai unrhyw ddatblygiad newydd ym Mhorthladd Abergwaun, neu ymestyniad yn ei gapasiti, beri risg i gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar.<br>*Effeithiau (Porthladd Abergwaun)*<br>Er bod Abergwaun yn borthladd gweithiol, mae hefyd yn ffurfio rhan o ACA Gorllewin Cymru Forol. Gallai ehangu'r porthladd effeithio ar yr ACA cyfagos, yn ogystal ag ar safleoedd Natura 2000/Ramsar ymhellach i ffwrdd gan gynnwys safleoedd a ddynodwyd ar gyfer mamaliaid morol megis ACA Dynesfeydd Môr Hafren; ACA Sir Benfro Forol, ACA Pen Llŷn a'r Sarnau; ac ACA Bae Ceredigion | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Mae Abergwaun hefyd wedi'i gynnwys dan bolisi SP2 yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (Cyngor Sir Benfro, 2013) sy'n gysylltiedig ag Aberdaugleddau (gweler uchod). Mae effeithiau canfyddedig posibl datblygu'r porthladd yn y dyfodol yn cynnwys: effeithiau aflonyddwch/dadleoli (sŵn/gweledol/dirgryniadau) ar nodweddion perthnasol safleoedd morol o ran bridio a/neu gael porthiant; colled/difrod i gynefinoedd morol ac arfordirol sensitif (yn enwedig yr ACA cyfagos); effeithiau posibl i gynefinoedd sy'n gysylltiedig â chwilota am fwyd a/neu'r cynefinoedd bridio a gysylltir â newidiadau i brosesau arfordirol; cynnydd posibl mewn llygredd aer drwy weithgareddau adeiladu a/neu mwy o draffig cychod; effeithiau posib ar ansawdd dŵr (megis llygredd o fewn yr amgylchedd morol o weithgareddau adeiladu, carthu’r aber, neu mwy o draffig gychod); effeithiau anuniongyrchol megis mwy o bwysau hamdden ar yr arfordir drwy dwristiaeth ychwanegol i'r ardal; ac effeithiau posibl mewn cyfuniad â phrosiectau arfordirol eraill ar raddfa fawr yn rhanbarthol/yn genedlaethol. Fel y nodwyd uchod, daeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol i'r casgliad na fyddai gweithredu polisi SP2 yn effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, gan dybio y cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect i ddynodi a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl.<br><br>*<u>Osgoi/ Lliniaru (Porthladd Abergwaun)</u>*<br><br>Er bod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol yn casglu na fyddai unrhyw effaith andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (gyda chamau lliniaru yn eu lle), gellid cyflwyno prosiectau eraill yn y porthladd o ganlyniad i Bolisi 10 yn ystod cyfnod cynllun yr FfDC, y tu allan i ffiniau Polisi SP2 o fewn y Cynllun Datblygu Lleol; felly, ni ellir dibynnu'n llwyr ar gasgliad Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol i ddod i gasgliad terfynol ynghylch unrhyw effeithiau andwyol o Bolisi 10 yr FfDC. Fodd bynnag, o gofio maint tebygol datblygiadau yn y dyfodol yn y porthladd, mae'n debygol y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect (i gydymffurfio â PCC10) a fyddai'n dynodi unrhyw effeithiau eraill nas ystyriwyd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol. Byddai datblygu seilwaith sy'n gysylltiedig â Phorthladd Abergwaun hefyd yn destun gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen ceisiadau i ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, rhaid cadw at y camau canlynol (pan ddaw prosiectau sy'n ymwneud â'r porthladd i rym yn y dyfodol) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy’n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br><br>*Camau sy’n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i brosiectau sy'n ymwneud â datblygiad ym Mhorthladd Abergwaun sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (er mwyn cydymffurfio â PCC10 a TAN5 a Pholisi GN36 Cynllun Datblygu Lleol Sir Benfro). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi’r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Rhaid i ddatblygwyr yn y dyfodol allu dangos y gellir cyflawni unrhyw gamau lliniaru y tybir eu bod yn angenrheidiol yn ystod yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect. Os na all yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu’r prosiect yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â Phorthladd Abergwaun lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru. | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | • Mae Polisi 10 yn nodi "*Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad priodol a allai wella cysylltedd rhyngwladol ac y gellir ei dderbyn o fewn targedau newid hinsawdd a chyllidebau carbon. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y fframwaith newid hinsawdd statudol yn awgrymu camau i fynd i'r afael â phob ffynhonnell o allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynnwys teithio a chludo nwyddau yn rhyngwladol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymdrechion rhyngwladol i leihau allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol. Mae cyfrif allyriadau net Cymru yn cynnwys cyfran Cymru o allyriadau o hedfan a morgludiant rhyngwladol. Bydd angen I benderfyniadau sy'n gysylltiedig â hedfan a morgludiant rhyngwladol ddangos felly sut y gellir eu derbyn o fewn y targedau newid hinsawdd statudol a chyllidebau carbon*." Bydd y gofyniad hwn i ddangos y bydd y targedau newid hinsawdd a'r cyllidebau carbon yn cael eu cyflawni yn sicrhau na fydd allyriadau Cymru yn achosi effeithiau anuniongyrchol posibl yn sgil nwyon tŷ gwydr ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000 / Ramsar. Fodd bynnag, bydd yn rhaid ystyried allyriadau cronnol o ffynonellau y tu allan i Gymru.<br>•<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw seilwaith newydd sy'n gysylltiedig ag ehangu'r Porthladd sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br><br>*Casgliad*<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P11 - Cysylltedd Cenedlaethol | Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru o ran buddsoddi i wella cysylltedd cenedlaethol. Nod Llywodraeth Cymru yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn cerbydau preifat, a chefnogi pobl yn hytrach i gerdded, seiclo a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (un o egwyddorion sylfaenol Polisi Cynllunio Cymru 10). Yn fras, bydd y polisi hwn yn effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd drwy leihau llygredd aer o allyriadau ceir ac yn rhoi'r pwyslais ar ddatblygu seilwaith newydd a chysylltiadau trafnidiaeth mewn lleoliadau trefol presennol. Fodd bynnag, o gofio nad yw union fanylion gwelliannau o'r fath yn hysbys ar hyn o bryd ym mhrif fanylion yr FfDC, mae posibilrwydd o hyd y bydd effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*Effeithiau*<br><br>Er y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith uwchraddio i'r llwybrau beicio, ffyrdd a rheilffyrdd yn cael eu cysylltu â'r rhwydwaith presennol (er enghraifft, gwella a chysylltu llwybrau beicio ac ehangu ffyrdd), gallai'r gofyniad am seilwaith mwy, megis llwybrau beicio newydd, ffyrdd a rheilffyrdd arwain at effeithiau posibl ar safleoedd<br><br>Mae'r polisi'n nodi '*mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio sicrhau, lle y bo'n briodol, sicrhau bod datblygiadau newydd yn cyfrannu at wella a datblygu'r rhwydwaith beicio cenedlaethol a'r cysylltiadau allweddol sy'n arwain iddo ac oddi wrtho*.' Mae'r | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn 1,690 milltir o hyd ac yn croesi rhannau helaeth o Gymru (mae 64% o'r rhwydwaith ar y ffordd ac mae 36% ar lwybrau di-draffig) ac oherwydd ei natur mae llawer o lwybrau beicio di-draffig mewn ardaloedd arfordirol ac yng nghyffiniau safleoedd Natura 2000/Ramsar. Gallai'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â gwella a datblygu'r rhwydwaith beicio cenedlaethol, neu waith uwchraddio i gysylltu ag ef, gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): tarfu ar/dadleoli rhywogaethau perthnasol (yn enwedig adar mewn ardaloedd arfordirol neu sy'n defnyddio tir sydd â chysylltiad swyddogaethol) os caiff llwybrau newydd eu hagor gerllaw safleoedd Natura 2000/ Ramsar; y posibilrwydd o golli tir sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r swyddogaeth honno oherwydd y cynlluniau sy'n gyfagos i ardaloedd arfordirol; a'r posibilrwydd o wahanu cysylltiadau cynefinoedd oddi wrth nodweddion llinellol newydd yn y dirwedd. Mae modd hefyd agor ardaloedd a oedd yn llai hygyrch o'r blaen i ymwelwyr newydd, ac felly cynyddu'r posibilrwydd o bwysau hamdden ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>Er nad yw union fanylion y broses o uwchraddio'r rhwydwaith rheilffyrdd yn hysbys ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru wedi llunio adroddiad ('*Rheilffordd i Gymru. Diwallu Anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol'* (Llywodraeth Cymru, 2019c)) sy'n amlinellu rhaglen strategol ar gyfer datblygu'r rheilffyrdd. Mae hyn yn cynnwys gwella gwasanaethau presennol, uwchraddio gorsafoedd ac amserlennu gwell ledled Cymru. Mae gwelliannau i orsafoedd, a fyddai fel arfer yn canolbwyntio ar leoliadau trefol, yn annhebygol o arwain at effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Byddai'r prif effaith bosibl gwelliannau rheilffyrdd yn gysylltiedig â chynnydd posibl mewn pwysau hamdden pe bai mynediad i ardaloedd arfordirol, er enghraifft, yn gwella. Mae modd i waith sy'n gysylltiedig â thrydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd hefyd achosi aflonyddwch/dadleoli dros dro a/neu effeithio ar ansawdd dŵr os digwydd y gwaith hwnnw ger ardaloedd Safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Gallai adeiladu trac newydd, os oes angen, hefyd achosi aflonyddwch/dadleoli rhywogaethau perthnasol (o ganlyniad i weithgareddau adeiladu yn ogystal â gweithredu'r llinellau newydd); posibilrwydd o golli tir sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r swyddogaeth honno oherwydd datblygu rheilffyrdd newydd; a phosibilrwydd o wahanu cysylltiadau cynefinoedd oddi wrth nodweddion llinellol newydd yn y dirwedd.<br><br>Er nad yw manylion y gwelliannau i'r ffyrdd yn hysbys ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau â'i hymrwymiad i fynd i'r afael â thagfeydd ar y rhwydwaith cefnffyrdd, ac mae'r rhaglen mannau cul yn dynodi mannau lle ceir tagfeydd. Gallai effeithiau posibl sy'n gysylltiedig ag adeiladu ffyrdd newydd a phrosiectau gwella gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): aflonyddu ar/dadleoli nodweddion perthnasol os yw datblygiad o'r fath yng nghyffiniau safleoedd Natura 2000/Ramsar; llygru dŵr ac aer o weithgareddau adeiladu, a chynnydd posibl mewn pwysau hamdden os yw ffyrdd newydd yn agor mynediad i ardaloedd na fu tarfu arnynt cyn hynny. Mae modd hefyd agor ardaloedd a oedd yn llai hygyrch o'r blaen i ymwelwyr newydd, ac felly cynyddu'r posibilrwydd o bwysau hamdden ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>Prif bwyslais y polisi yw lleihau'r angen i deithio ac felly gallai gweithredu'r polisi ynddo'i hun arwain at welliannau mewn ansawdd aer a fyddai'n dod â manteision i safleoedd Natura 2000/Ramsar. Fodd bynnag, lle mae modd effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy ffyrdd anuniongyrchol eraill megis pwysau hamdden, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth baratoi cynlluniau a phrosiectau haen is er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | *Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br>• Mae'n rhaid i bolisïau trafnidiaeth a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth newydd) neu brosiectau sy'n cael eu cyflwyno o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn Adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid tynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is naill ai o'r neilltu, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw brosiectau seilwaith newydd sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br>• Wrth ddefnyddio'r Mapiau Teithio Llesol i benderfynu ar leoliad llwybrau beicio newydd, neu i dynnu sylw at feysydd i'w gwella, rhaid i unrhyw asesiadau ystyried yn llawn oblygiadau'r cyfryw gynigion ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar. (Yn benodol, goblygiadau aflonyddwch dynol ar gynefinoedd sensitif a rhywogaethau perthnasol ac effaith mynd â llwybrau beicio newydd trwy safleoedd Natura 2000/Ramsar/tir sydd â chysylltiad swyddogaethol â safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br>*Casgliad*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P12 – Cysylltedd Rhanbarthol | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol, gweithredwyr a phartneriaid i helpu gyda gwneud gwelliannau i'r system bysiau a metro yn ogystal â helpu i roi'r Ddeddf Teithio Llesol ar waith a chefnogi seilwaith addas o ran tanwydd ar gyfer cerbydau allyriadau isel iawn.<br>Mae'r polisi hwn yn amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru o ran buddsoddi i wella cysylltedd rhanbarthol. Nod Llywodraeth Cymru yw rhoi blaenoriaeth i wella ac integreiddio teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cefnogi twf ac adfywiad cynaliadwy mewn ardaloedd trefol, ac mewn ardaloedd gwledig, i flaenoriaethu cefnogi'r defnydd o gerbydau ag allyriadau isel iawn / dim o gwbl ac arallgyfeirio a chynnal gwasanaethau bws lleol. Yn fras, bydd y polisi hwn yn effeithio'n gadarnhaol | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | ar yr amgylchedd drwy leihau llygredd aer o allyriadau ceir a thrwy ganolbwyntio ar greu cysylltiadau trafnidiaeth newydd o fewn y seilwaith presennol. Fodd bynnag, o gofio nad yw union fanylion gwelliannau o'r fath yn hysbys ar hyn o bryd ar y cam hwn, sy'n fwy ynglŷn â bwrw golwg eang, mae posibilrwydd o hyd y bydd effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*<u>Effeithiau</u>*<br><br>Nod y Ddeddf Teithio Llesol yw creu rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau cerdded a beicio sy'n cysylltu lleoedd y mae angen i bobl gyrraedd ar gyfer teithiau bob dydd. Mae gwell llwybrau cerdded a beicio mewn lleoliadau trefol yn annhebygol o arwain at effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. I'r rhai mewn ardaloedd mwy gwledig ac ardaloedd arfordirol, mae posibilrwydd y bydd yr effeithiau yn fwy, ac fe all y rhain gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): aflonyddu ar/dadleoli rhywogaethau perthnasol (yn enwedig adar mewn ardaloedd arfordirol neu sy'n defnyddio tir sydd â chysylltiad swyddogaethol) os caiff llwybrau newydd eu hagor yng nghyffiniau safleoedd Natura 2000/ Ramsar; y posibilrwydd o golli tir sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r swyddogaeth honno oherwydd y cynlluniau sy'n gyfagos i ardaloedd arfordirol; a phosibilrwydd gwahanu neu ddarnio cysylltiadau cynefinoedd oddi wrth nodweddion llinellol newydd yn y dirwedd. Mae modd hefyd agor ardaloedd a oedd yn llai hygyrch o'r blaen i ymwelwyr newydd, ac felly cynyddu'r posibilrwydd o bwysau hamdden ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>Ystyrir bod gwella'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y ffordd y caiff gwasanaethau bysiau lleol eu cynllunio a'u darparu a gynigir gan y polisi hwn yn annhebygol o arwain at effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Mae'r polisi hefyd yn cefnogi datblygiad Metro'r De-ddwyrain, Metro'r De-orllewin a Metro Gogledd Cymru i greu systemau trafnidiaeth integredig newydd sy'n darparu gwasanaethau cyflymach, amlach a chydgysylltiedig gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn. Er nad yw union fanylion y cynlluniau hyn yn hysbys ar hyn o bryd, byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith gwella yn digwydd mewn lleoliadau trefol, ac fel y cyfryw mae'n yn annhebygol o arwain at effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Byddai'r brif effaith a allai ddeillio o'r datblygiadau hyn yn gysylltiedig â chynnydd posibl mewn pwysau hamdden pe bai'r gwelliannau yn agor ardaloedd a oedd yn llai hygyrch yn flaenorol i ymwelwyr newydd (gan gynnwys safleoedd arfordirol a ddynodwyd)<br><br>Bydd y cynnydd mewn cerbydau dim / fawr ddim allyriadau yn effeithio'n gadarnhaol ar yr amgylchedd drwy leihau llygredd aer o allyriadau ceir. Byddai seilwaith tanwydd newydd ar raddfa fach ac yn gysylltiedig yn gyffredinol â datblygiadau presennol megis meysydd parcio a datblygiadau tai, ac felly, mae cyflwyno seilwaith tanwydd addas i hwyluso'r broses o fabwysiadu cerbydau dim / fawr ddim allyriadau yn annhebygol o arwain at effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*<u>Lliniaru</u>*<br><br>Yn yr un modd, yn ôl Polisi P11 (Cysylltedd Cenedlaethol), prif bwyslais y polisi yw lleihau'r angen i deithio ac felly gallai gweithredu'r polisi ynddo'i hun arwain at welliannau mewn ansawdd aer a fyddai'n dod â manteision i safleoedd Natura 2000/Ramsar. Fodd bynnag, os yw hi'n bosibl effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy ffyrdd anuniongyrchol eraill megis pwysau hamdden, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | canlynol wrth baratoi cynlluniau a phrosiectau haen is er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6) :* A i H<br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br>• Mae'n rhaid i bolisïau trafnidiaeth a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth newydd) neu brosiectau a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid tynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is naill ai o'r neilltu, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw brosiectau seilwaith newydd sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br>*<u>Casgliad</u>*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P13 – Cefnogi Cyfathrebu Digidol | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi darparu seilwaith a gwasanaethau cyfathrebu digidol ledled Cymru.<br>*<u>Effeithiau</u>*<br>Er y byddai'r rhan fwyaf o'r seilwaith ar gyfer cyfathrebu digidol (gan gynnwys telathrebu symudol a band eang) yn fach ac yn gyffredinol yn gysylltiedig â datblygiadau sy'n bodoli eisoes (er enghraifft, gosod ceblau ar hyd ymylon ffyrdd a chysylltu mastiau ffôn â strwythurau sy'n bodoli eisoes). Serch hynny, mae'r polisi yn cydnabod yr angen i wella cyfathrebu digidol mewn ardaloedd gwledig, ac felly mae modd effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar mewn ardaloedd mwy anghysbell. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn ac yn nodi '*er bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi darparu seilwaith cyfathrebu digidol newydd a gwell ledled Cymru ac yn cydnabod y dylai seilwaith mewn ardaloedd gwledig gael eu cynllunio'n ofalus i liniaru unrhyw effaith amgylcheddol ar dirweddau sensitif neu ddynodedig*.' | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Er nad yw union fanylion cyfathrebiadau digidol newydd yn hysbys, mae'r effeithiau posibl yn debygol o fod wedi eu cyfyngu i raddau helaeth i'r tymor byr ac yn gysylltiedig â cham adeiladu'r datblygiad. Gallai'r effeithiau posibl yn ystod y cyfnod adeiladu gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): tarfu ar/dadleoli rhywogaethau perthnasol o adar os gosodir seilwaith newydd yn neu'n agos at AGA arfordirol neu ucheldirol/safleoedd Ramsar); niweidio, neu golli, cynefinoedd pwysig sy'n gysylltiedig â safleoedd Ramsar/ACA (er enghraifft, colli cynefin yn barhaol o herwydd datblygu adeileddau newydd, neu ddifrod os gosodir cebl ar draws cyrsiau dŵr, mewn ardaloedd mynyddig neu drwy gynefinoedd ACA/Ramsar eraill); effeithiau hydrolegol (er enghraifft, cloddio ffosydd cebl yn arwain at ddraeniad anfwriadol, ac felly sychder mewn cynefinoedd gwlypdir ACA/safleoedd Ramsar); a phosibilrwydd gwahanu neu ddarnio cysylltiadau cynefinoedd oddi wrth nodweddion llinellol newydd yn y dirwedd os oes angen gwifrau newydd uwchlaw'r ddaear.<br><br>_Lliniaru_<br><br>Yn gyffredinol, mae gosod seilwaith ar gyfer technoleg symudol yn annhebygol o effeithio'n andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (oherwydd natur dros dro a thymor byr gwaith seilwaith o'r fath a lleoliadau trefol tebygol). Fodd bynnag, lle y gallai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr lynu at y camau canlynol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A, B, D C, F, G<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn.  Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br><br>_Casgliad_<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P14 – Cynllunio mewn Parthau Gweithredu Symudol | Mae'r polisi hwn yn amlinellu ymrwymiad i gynyddu signal ffonau symudol a bydd yn dynodi Parthau Gweithredu Symudol ledled Cymru, gan ddangos lleoliadau lle nad oes fawr ddim gwasanaeth telathrebu symudol, os o gwbl.<br><br>_Effeithiau_ | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

<table>
<tr><th>Polisi</th><th>Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig</th><th>Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith)</th></tr>
<tr><td></td><td>Er y byddai’r rhan fwyaf o seilwaith ar gyfer technoleg symudol ar raddfa fach ac yn gysylltiedig â datblygiadau presennol yn gyffredinol (er enghraifft, gosod ceblau ar hyd lleiniau ffyrdd), gallai’r gofyniad am seilwaith mwy, fel mastiau ffonau symudol, arwain at effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar, pe baent wedi eu lleoli mewn ardaloedd o’r fath neu’n agos atynt. Er nad yw union fanylion Cynlluniau o’r fath yn hysbys, mae effeithiau posibl yn debygol o gael eu cyfyngu i’r byrdymor i raddau helaeth ac yn gysylltiedig â cham adeiladu datblygiad. Gallai effeithiau posibl wrth adeiladu gynnwys: tarfu ar nodweddion cymhwyso (er enghraifft, tarfu ar/ dadleoli rhywogaethau adar cymwys os bydd seilwaith newydd yn cael ei leoli mewn AGAau/safleoedd Ramsar arfordirol neu ucheldir, neu’n agos atynt); difrod i gynefinoedd pwysig sy’n gysylltiedig â safleoedd Ramsar/ ACAau, neu eu colli (er enghraifft, colled barhaol cynefin o dan ôl troed strwythurau newydd, neu ddifrod wrth osod ceblau ar draws gyrsiau dŵr neu drwy gynefinoedd ACA/safle Ramsar eraill); ac effeithiau hydrolegol (er enghraifft, cloddio ffosydd ceblau yn arwain at ddraenio anfwriadol, a thrwy hynny sychu, cynefinoedd gwlyptir ACA/safle Ramsar).<br><br><u>Lliniaru</u><br><br>Yn gyffredinol, mae gosod seilwaith ar gyfer technoleg symudol yn annhebygol o gael effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar (oherwydd natur dros dro a byrdymor gweithfeydd seilwaith o’r fath, a lleoliadau trefol tebygol). Fodd bynnag, pan fydd angen ehangu seilwaith symudol mewn Parthau Gweithredu Symudol, lle gallai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br><br>Camau sy’n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A, B, C, D, F, G<br><br>Camau sy’n berthnasol i bolisïau penodol:<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi’r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br><br><u>Casgliad</u><br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu’r polisi mewn modd sy’n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny’n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn.</td><td></td></tr>
</table>

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| P15. – Coedwig Genedlaethol | Nid yw union leoliad coedwig genedlaethol i Gymru yn hysbys ar hyn o bryd; Fodd bynnag, mae'r testun ategol ar gyfer polisi 15 yn nodi '*Mae gan Lywodraeth Cymru darged i gynyddu'r gorchudd coetir yng Nghymru o leiaf 2,000 hectar y flwyddyn o 2020*. '<br><br>*Effeithiau*<br><br>Ystyrir bod creu Coedwig Genedlaethol i Gymru yn bolisi cadarnhaol, â llawer o fanteision amgylcheddol; fodd bynnag, os caiff ardaloedd o goedwig eu plannu mewn lleoliadau anaddas, mae'n bosibl y gallai'r polisi arwain at effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a rhywogaethau presennol (e.e. cynefinoedd agored fel rhostir neu laswelltir, lle nad yw gorchudd coetir o fudd). Er y byddai plannu coetir mewn cynefinoedd o'r fath mewn safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn amlwg yn mynd yn groes i'w hamcanion cadwraeth, mae hefyd yn bosibl y gallai plannu coetir nesaf at safleoedd o'r fath gael effeithiau niweidiol hefyd, yn enwedig os yw rhywogaethau o'r safleoedd hynny yn dibynnu ar gynefinoedd agored tebyg y tu hwnt i ffiniau'r safle (e.e. i chwilota am fwyd neu glwydo). Gallai plannu coetir nesaf at y safleoedd hyn hefyd gynnig gorchudd i anifeiliaid ysglyfaethus y rhywogaethau cymhwyso (yn enwedig adar sy'n nythu ar y ddaear), neu mae'n bosibl y gallai effeithio ar hydroleg y dirwedd, a allai gael effaith niweidiol ar safleoedd gwlyptir. Gallai cynyddu nifer yr ymwelwyr ag ardaloedd plannu coetir newydd hefyd gael effeithiau niweidiol yn gysylltiedig â phwysau hamdden (fel tarfu yn sgil presenoldeb dynol cynyddol a phobl sy'n mynd â'u cŵn am dro). Yn dibynnu ar faint a lleoliad y goedwig newydd, mae posibilrwydd hefyd i'r coetir dorri neu ddarnio cysylltiadau cynefinoedd presennol.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau nad yw safleoedd a ddewisir i gefnogi darpariaeth y polisi hwn eisoes wedi eu dynodi ar sail presenoldeb cynefinoedd eraill (nad ydynt yn goetir) a fyddai'n cael eu peryglu gan blannu o'r fath (e.e. safleoedd glaswelltir neu rostir agored). Pan allai cynefinoedd a rhywogaethau sensitif fod yn bresennol, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu at y camau canlynol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A, B, C, D, E, F, G<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a/neu brosiectau a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer coetiroedd newydd) sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru. Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn.<br><br>*Casgliad*<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P17 – Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a'r Seilwaith Cysylltiedig | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'n gryf yr egwyddor o ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel o bob technoleg ac ar bob graddfa er mwyn diwallu ein hanghenion ynni yn y dyfodol. Er nad yw union fanylion prosiectau technoleg ynni adnewyddadwy wedi'u hamlinellu yn yr FfDC; mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi nifer o ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer datblygu ynni gwynt ledled Cymru (gweler Atodiad B, Ffigur 1). Cynhaliwyd adolygiad o'r ardaloedd hyn mewn perthynas â safleoedd Natura 2000/Ramsar er mwyn pennu goblygiadau posibl datblygiadau gwynt newydd yn yr ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw. Mae Atodiad B (Tabl A) yn amlinellu'r broses ailadroddol y defnyddiwyd i ddynodi a mireinio'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw.<br><br><u>*Effeithiau*</u><br><br>Mae Atodiad B (Tabl B) yn amlinellu'r effeithiau posibl sy'n gysylltiedig â phob un o'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw a'r safleoedd Natura 2000/Ramsar gan ddatblygiadau gwynt yn y dyfodol. Mae'r tabl hefyd yn cynnwys rhestr o gamau Osgoi/ Lliniaru (o Dabl 6) y mae'n rhaid eu hystyried pan fydd prosiectau yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno ym mhob un o'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw. Mae'r mathau o effeithiau posibl a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i): marwolaethau o ganlyniad i wrthdrawiadau â llafnau tyrbin neu seilwaith cysylltiedig (yn enwedig effeithiau ar adar ysglyfaethus ar yr ucheldir a rhydwyr, yn ogystal ag ystlumod), tarfu ar/dadleoli rhywogaethau perthnasol, colledion/difrod i gynefinoedd sensitif oherwydd datblygiad a seilwaith (yn enwedig cynefinoedd ucheldirol sensitif mewn lleoliadau mwy gwledig), posibilrwydd y gallai'r tyrbinau neu'r llwybr newydd dorri neu ddarnio cysylltiadau cynefinoedd presennol, a goblygiadau posibl ar ansawdd dŵr os datblygir ger cyrsiau dŵr dynodedig neu ecosystemau dibynnol ar ddŵr daear. Er nad yw'r lleoliadau neu'r mathau o gynigion ynni adnewyddadwy eraill yn hysbys eto, gallai un neu ragor o'r effeithiau posibl a amlinellir yma hefyd fod yn berthnasol i brosiectau ynni adnewyddadwy eraill.<br><br><u>*Osgoi/ Lliniaru*</u><br><br>Er bod y polisi'n datgan bod '*rhagdybiaeth o blaid datblygu ynni gwynt ar raddfa fawr (gan gynnwys ail-bweru) yn yr ardaloedd hyn, yn amodol ar y meini prawf ym mholisi 18'.* Mae 'r polisi hefyd yn cynnwys geiriad sydd â'r nod o ddiogelu'r dirwedd a'r amgylchedd ehangach: '*ni chaniateir ceisiadau ar gyfer gwynt a solar ar raddfa fawr mewn Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol a dylai pob cynnig ddangos na fydd yn cael effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd.'* Ar gyfer prosiectau adnewyddadwy mawr sy'n cyfrif fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, rhaid iddynt hefyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â meini prawf 3 Polisi 18 cyn y gellir eu caniatáu: '*nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar safleoedd dynodedig statudol rhyngwladol a chenedlaethol ar gyfer cadwraeth natur (a'r nodweddion y maent wedi'u dynodi ar eu cyfer), cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir. '*<br><br>Mae'r broses o fireinio'r ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw wedi sicrhau eu bod ar y cyfan yn osgoi nid yn unig safleoedd Natura 2000/ Ramsar ond hefyd ardaloedd dynodedig eraill, gan gynnwys Parciau Cenedlaethol, SoDdGA ac AHNE; sy'n aml yn cefnogi rhywogaethau, yn enwedig adar ac ystlumod, sydd wedi'u diogelu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, hyd yn oed os nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â safle dynodedig penodol. Felly, mae'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol wedi lleihau'n fawr drwy'r broses fireinio. Er bod nifer o'r ardaloedd a aseswyd o hyd yn cynnwys safleoedd Natura 2000/Ramsar, | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | mae'n annhebygol iawn y byddai unrhyw ddatblygiad gwynt yn cael caniatâd o fewn safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol neu'n agos atynt.<br><br>Mae'n bwysig nodi, er bod yr ardaloedd a aseswyd ymlaen llaw ar gyfer ynni gwynt wedi'u cynllunio i gyfeirio datblygiadau ynni adnewyddadwy at rannau 'risg is' yng Nghymru, nad yw hynny'n atal datblygiadau ynni gwynt yn gyfan gwbl (neu unrhyw ddatblygiadau ynni adnewyddadwy eraill mewn mannau eraill). Yn amlwg, bydd yn anos cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad o'r fath y tu allan i'r ardaloedd ynni gwynt a aseswyd ymlaen llaw, yn enwedig os ydynt yn nes at safleoedd Natura 2000/ Ramsar, ond nid yw hynny'n golygu na ellir caniatáu cynigion o'r fath. Felly, mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr lynu at y camau canlynol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A, B, C, D, F, G<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Rhaid defnyddio'r asesiad a gynhelir yn Atodiad B ar gyfer yr ardaloedd ynni gwynt a aseswyd ymlaen llaw yn ganllaw i leoliadau prosiectau ynni adnewyddadwy yn y dyfodol yng Nghymru. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gellir darparu unrhyw gamau lliniaru y tybir sydd eu hangen yn ystod y broses o ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar lefel haen is neu brosiect ar lefel cynllun/prosiect. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Rhaid i brosiectau ynni adnewyddadwy mawr, sy'n cyfrif fel Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol, sicrhau eu bod yn cydymffurfio â meini prawf 3 polisi 18 cyn y gellir eu caniatáu.<br><br><u>*Casgliad*</u><br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P20 – Ardaloedd Twf Cenedlaethol-Wrecsam a Glannau Dyfrdwy | Y prif bwyslais ar gyfer twf ac adfywio yn rhanbarth y Gogledd - Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.<br><br><u>*Effeithiau*</u><br><br>Mae'r polisi hwn yn helpu i ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth er mwyn sicrhau gweithredu cydgysylltiedig ym maes tai, twf economaidd a seilwaith cysylltedd. Gallai cyflawni cynllun o'r fath effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar sy'n niferus yn y rhan hon o Gymru. Yn arbennig, ACA Deeside and Buckley Newt Sites, Safle ACA | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Johnstown Newt Sites, Midland Meres and Mosses safle Ramsar, ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid, ac ACA Aber Dyfrdwy/The Dee Estuary AGA/Safle Ramsar.<br><br>Gan nad oes elfen ofodol i'r polisi, nid yw'n bosibl pennu'n union pa safleoedd Natura 2000/Ramsar y gallai cynnydd yn y rhanbarth effeithio arnynt, fodd bynnag, mae'n debygol y gallai cyfran sylweddol o'r tir a ddyrannwyd o fewn cynlluniau haen isel yn y rhanbarth yn y dyfodol fod ar dir rhwng yr Wyddgrug, Wrecsam a Chaer. Mae modd i ddatblygiad yn yr ardaloedd hyn gael effaith andwyol ar ACA Deeside and Buckley Newt Sites a Safleoedd ACA Johnstown Newt Sites. O ystyried agosrwydd ACA/Aber Afon Dyfrdwy, The Dee Estuary Safle Ramsar/AGA, gallai mwy o dwf mewn ardaloedd arfordirol hefyd effeithio ar gynefinoedd a rhywogaethau perthnasol y safleoedd hyn. Gallai effeithiau posibl gweithredu'r polisi hwn gynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i): colli pyllau a chynefinoedd ategol eraill sy'n gysylltiedig â'r Safleoedd ACA Madfallod Dŵr, darnio cynefinoedd, torri'r cysylltiadau rhwng Safleoedd ACA Madfallod Dŵr, marwolaethau posibl yn gysylltiedig â chroesi'r ffordd, yn ogystal ag effeithiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr, a newidiadau i hydroleg yng nghyffiniau pyllau magu neu gynefinoedd ACA eraill sensitif (megis safle Ramsar Midland Meres and Mosses), mwy o aflonyddwch a niwed i'r cynefinoedd hynny sy'n cefnogi Safleoedd ACA Madfallod Dŵr, yn ogystal ag ymyrryd â/dadleoli rhywogaethau adar perthnasol sy'n gysylltiedig ag ACA Aber Afon Dyfrdwy, The Dee Estuary AGA/Safle Ramsar llygredd aer a phwysau hamdden gan boblogaeth gynyddol o fewn y rhanbarth.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>Prif bwyslais y polisi yw annog twf o fewn lleoliadau trefol presennol, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd amgylcheddol y rhanbarth ac yn datgan '*Dylai'r angen i reoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirweddol, lywio penderfyniadau strategol ynghylch lleoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd'.* Mae Cyngor Sir y Fflint hefyd wedi cynhyrchu Canllaw Cynllunio Atodol (*Canllaw Cynllunio Atodol 8a Gofynion Lliniaru ar gyfer Madfallod Dŵr Cribog (Mabwysiadwyd gan Gyngor Sir y Fflint, 23ain Chwefror 2018*) i gynorthwyo gyda bod yn ganllaw i gynlluniau a/neu gynigion prosiect yn y rhanbarth yn y dyfodol. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6) :* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy'r cynllun datblygu strategol/cynlluniau neu brosiectau haen is eraill a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn Adran 1.5 yn gymorth i nodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o gynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid tynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is naill ai o'r neilltu, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | yw'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr ddefnyddio dogfennau megis y Canllaw Cynllunio Atodol 8a Gofynion Lliniaru Madfallod Cribog (Cyngor Sir y Fflint, 2018), neu gyfwerth, yn gymorth gyda bod yn ganllaw i gynlluniau a/neu gynigion ar gyfer prosiectau yn y dyfodol er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br>*Casgliad*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P21 – Ardal Twf Rhanbarthol - Aneddiadau Arfordirol Gogledd Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy mewn trefi sy'n bwysig yn rhanbarthol ar hyd arfordir y gogledd. Bydd Caergybi, Caernarfon, Bangor, Llandudno, Bae Colwyn, y Rhyl a Phrestatyn yn fannau allweddol ar gyfer twf a reolir ac mae ganddynt swyddogaeth isranbarthol bwysig sy'n ategu Ardal Twf Cenedlaethol Wrecsam a Glannau Dyfrdwy. Dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ar draws y rhanbarth yn cydnabod swyddogaeth y lleoedd hyn fel mannau allweddol ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol.<br>*Effeithiau*<br>Er bod y polisi'n tynnu sylw at y ffaith y bydd y rhan fwyaf o'r datblygu'n digwydd mewn ardaloedd mwy adeiledig, o gofio mor agos yw nifer o'r aneddiadau hyn at gynefinoedd arfordirol, mae'n bosibl o hyd y ceir effeithiau andwyol ar ardaloedd arfordirol dynodedig. Mae'r polisi hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ystyried anghenion cymunedau gwledig hefyd (yn enwedig o ran gwell cysylltedd digidol a chyfleoedd i gefnogi'r diwydiant twristiaeth wledig). Mae modd i ddatblygu o'r fath effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar yn y rhanbarth, yn arbennig, AGA Bae Lerpwl, AGA Traeth Lafan ac ACA Y Fenai a Bae Conwy, yn ogystal â safleoedd mewndirol gan gynnwys ACA Eryri a choetiroedd llai ac ardaloedd cadwraeth arbennig eraill a ddynodwyd oherwydd eu poblogaethau o ystlumod.<br>Gallai twf cynyddol yn yr ardaloedd arfordirol hyn arwain at effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy darfu ar/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â safleoedd AGA/Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth â datblygu'r dyraniadau o fewn cynlluniau haen is), darnio llwybrau cymudo ar gyfer ystlumod sy'n gysylltiedig ag ardaloedd cadwraeth arbennig (h.y. lleihau cysylltedd rhwng y safleoedd drwy golli gwrychoedd/coetir), neu drwy effeithiau eraill megis llygredd dŵr/aer neu fwy o darfu o ganlyniad i bwysau hamdden gan boblogaeth fwy o fewn y rhanbarth.<br>*Osgoi/ Lliniaru*<br>Prif bwyslais y polisi yw annog twf o fewn y lleoliadau trefol presennol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn ardaloedd | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | gwledig. Rhaid i Baneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>*Casgliad*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P23 – Metro Gogledd Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad Metro Gogledd Cymru.<br>*Effeithiau*<br>Gall datblygu'r Metro arwain at fanteision amgylcheddol drwy leihau'r defnydd o geir a lleihau llygredd aer a sŵn yn sgil hynny, yn ogystal â chefnogaeth Llywodraeth Cymru i'r posibilrwydd y daw'r coridorau hyn yn seilwaith gwyrdd. Gan nad yw union fanylion y twf arfaethedig mewn cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Cymru a gogledd-orllewin Lloegr yn hysbys ar hyn o bryd, mae'r potensial ar gyfer effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yng Nghymru a gogledd orllewin Lloegr, gan gynnwys AGA Bae Lerpwl, AGA Traeth Lafan, ACA Y Fenai a Bae Conwy, ac ACA Aber Afon Dyfrdwy/ The Dee Estuary safle Ramsar/AGA, yn ogystal â safleoedd mewndirol fel ACA Eryri, ACA Deeside and Buckley Newt Sites ac ACA Johnstown Newt, ynghyd â choetiroedd llai ac ACA a ddynodwyd ar gyfer ystlumod. Gallai'r effeithiau posibl gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i): colli pyllau a chynefinoedd ategol eraill sy'n gysylltiedig â'r ACA Madfallod Dŵr; darnio cynefinoedd, hollti cysylltedd rhwng safleoedd (yn arbennig mewn perthynas â safleoedd ACA ystlumod a madfallod dŵr cribog); marwolaethau posibl sy'n gysylltiedig â chroesi ffyrdd; tarfu ar/dadleoli rhywogaethau adar perthnasol sy'n gysylltiedig â meysydd rhaglenni gwariant/safleoedd Ramsar; yn ogystal ag effeithiau sy'n gysylltiedig ag ansawdd dŵr, a newidiadau i hydroleg yng nghyffiniau pyllau bridio neu gynefinoedd ACA eraill sensitif, mwy o aflonyddwch a difrod i gynefinoedd sy'n cefnogi cynefinoedd ACA madfallod dŵr, yn ogystal â tharfu ar/dadleoli rhywogaethau adar perthnasol sy'n gysylltiedig â safleoedd | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | ACA/AGA/Ramsar, llygredd aer a phwysau hamdden gan boblogaeth fwy yn y rhanbarth, yn enwedig os yw'r metro newydd yn agor ardaloedd nad oes modd eu cyrraedd ar hyn o bryd gyda chysylltiadau trafnidiaeth presennol.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>O ystyried graddfa'r Cynllun Metro newydd posibl, mae'n debyg y bydd yn ofynnol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect gydymffurfio â PCC10. Byddai angen datblygu'r Metro hefyd yn unol â gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr hefyd sicrhau eu bod yn cadw at y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Mae'n rhaid i bolisïau trafnidiaeth a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer y Metro ) neu brosiectau a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw brosiectau seilwaith newydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br><br>*Casgliad*<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P24 – Gogledd Orllewin Cymru ac Ynni | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gogledd-Orllewin Cymru fel lleoliad ar gyfer datblygu ynni newydd a buddsoddi. Cefnogir datblygiadau arfaethedig sy'n gysylltiedig â rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn, Wylfa Newydd a Thrawsfynydd fel modd i greu manteision economaidd sylweddol i'r ardal yn ogystal â chynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel.<br><br>*Effeithiau* | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Amgylchynir Gogledd-orllewin Cymru (gan gynnwys Ynys Môn) gan safleoedd Natura 2000/Ramsar, gan gynnwys pedwar AGA (Morwenoliaid Ynys Môn, Traeth Lafan, Ynys Seiriol a Bae Lerpwl) ac ACA Y Fenai a Bae Conwy. Yn ogystal, ceir nifer o safleoedd Natura 2000/Ramsar llai o faint o amgylch yr arfordir ac yn fewndirol, gan gynnwys safle ACA Corsydd Môn/ Corsydd Môn a Llyn Ramsar, ACA Y Twyni o Abermenai i Aberffraw, ACA Eryri ac ACA/AGA Glannau Ynys Gybi. Mae'n bosibl i unrhyw ddatblygiadau ynni newydd yn y rhanbarth effeithio ar nifer o safleoedd Natura 2000/Ramsar yn y rhanbarth.<br><br>Ni ellir nodi manylion safleoedd Natura 2000/Ramsar penodol y gallai'r polisi hwn effeithio arnynt ar hyn o bryd gan nad oes elfennau gofodol i'r polisi (ac eithrio Wylfa, gweler isod), gallai enghreifftiau o effeithiau a allai ddeillio o ddatblygiadau newydd sy'n gysylltiedig ag ynni gynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i): effeithiau sy'n gysylltiedig ag adar yn dod i wrthdrawiad â datblygiadau ynni gwynt; colli, neu ddifrodi, cynefinoedd sensitif; tarfu ar/dadleoli rhywogaethau morol a daearol perthnasol; newidiadau hydrolegol a hydroddaearegol; ac effeithiau ar anifeiliaid morol o ganlyniad i arllwysfeydd dŵr poeth o atomfeydd niwclear. Mae datblygiadau solar yn tueddu i gael llai o effaith ar yr amgylchedd; fodd bynnag, os cânt eu gosod yn y mannau anghywir, gallai'r rhain hefyd effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy golli/difrodi cynefinoedd ac effeithiau posibl ar rywogaethau yn sgil disgleirdeb yr haul.<br><br>Mae asesiad ecolegol sylweddol eisoes wedi'i gynnal ar safle atomfa niwclear posibl Wylfa Newydd yn rhan o'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer y prosiect, sydd yn y cam Archwilio ar hyn o bryd. Canfu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect (Horizon Nuclear, 2018) y gellid effeithio'n andwyol ar 22 safle Natura 2000/Ramsar. Roedd yr asesiad priodol yn cynnwys rhestr helaeth o gamau lliniaru yn ymwneud â sŵn adeiladu ac effeithiau gweledol (yn yr amgylchedd morol a daearol), ansawdd yr aer a'r dŵr, diogelu rhywogaethau morol rhag cael eu dal yn y System Oeri Dŵr, a phwysau hamdden. Daeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad na fyddai unrhyw effaith andwyol ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad), gan dybio y câi'r camau lliniaru eu gweithredu.<br><br><u>*Osgoi/ Lliniaru*</u><br><br>O ystyried maint a graddfa datblygiadau ynni niwclear newydd, bydd unrhyw gynigion niwclear yn y dyfodol yn dod o dan ofynion Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol neu NSIP (yn dibynnu ar allbwn ynni'r cynnig). Mae datblygiadau ynni gwynt a llanw newydd hefyd yn debygol o ddod o fewn cylch gwaith datblygiadau o'r math hyn. Mae geiriad Polisi 24 yn cydnabod '*wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am orsafoedd cynhyrchu ynni niwclear yn y rhanbarth hwn, dylid ystyried yr angen am gynhyrchu ynni carbon isel pellach, eu cyfraniad tuag at y cyfuniad o ynni a diogelwch y DU, y manteision economaidd y byddent yn eu cynnig i'r rhanbarth a'u heffeithiau ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol*'. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr hefyd sicrhau eu bod yn cadw at y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn Adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan Erthygl 6(4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Defnyddio'r ymarfer mapio Ardaloedd Ynni Gwynt a Aseswyd Ymlaen Llaw (gweler Polisi 17 ac Atodiad B) i ddynodi lleoliadau posibl yn y dyfodol ar gyfer datblygu ynni gwynt.<br>• Canfu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o safle atomfa niwclear Wylfa Newydd (Horizon Nuclear, 2018) y gellid effeithio'n andwyol ar safleoedd Safleoedd Natura 2000/Ramsar ac mae camau lliniaru wedi'u hawgrymu. Mae'n rhaid gweithredu'r camau hyn gydag unrhyw ddatblygu ar y safle yn y dyfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br>*<u>Casgliad</u>*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P25 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – Canolbarth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygiad cynaliadwy mewn cyfres o drefi rhyng-gysylltiedig ar draws y rhanbarth. Mae'r datblygiadau yn yr Ardaloedd Twf Rhanbarthol hyn yn cynnwys: Dyffryn Teifi, gan gynnwys Aberteifi, Castellnewydd Emlyn, Llandysul a Llanbedr Pont Steffan, Aberhonddu a'r Gororau, Canol Cymru, gan gynnwys Llandrindod a Llanfair-ym-Muallt, Bro Hafren, gan gynnwys y Trallwng a'r Drenewydd ac Aberystwyth.<br>*<u>Effeithiau</u>*<br>Mae'r polisi hwn yn cefnogi'r broses o ddatblygu cynlluniau datblygu strategol a lleol i sicrhau dull cydgysylltiedig o gefnogi anghenion y rhanbarth sy'n gysylltiedig â seilwaith tai, twf economaidd a chysylltedd. Gallai cyflawni cynllun o'r fath effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar sy'n niferus yn y rhan hon o Gymru. Yn arbennig, ACA Bae Ceredigion, ACA Afon Gwy, ACA Cwm Doethie-Mynydd Mallaen, ACA Coetiroedd Cwm Elan, AGA Elenydd Mallaen, ACA Afon Teifi a Safle ACA/Ramsar Cors Caron.<br>Er yr ystyrir bod effeithiau posibl twf yn y Drenewydd a Llandrindod yn fach iawn (oherwydd pellter y trefi hyn o safleoedd Natura 2000/Ramsar); o gofio nad oes elfen ofodol yn gysylltiedig â'r polisi, ni ellir diystyru'r effeithiau posibl. Gallai effeithiau posibl gweithredu'r polisi hwn gynnwys (ond heb eu cyfyngu i): tarfu ar/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â safleoedd AGA/Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth â datblygu'r dyraniadau ar gyfer datblygu o fewn cynlluniau haen is), colled neu ddifrod i gynefinoedd ACA sensitif, darnio llwybrau cymudo ar gyfer ystlumod | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | sy'n gysylltiedig ag ACA (h.y. lleihau cysylltedd rhwng y safleoedd drwy golli gwrychoedd/coetiroedd), neu drwy effeithiau eraill megis llygredd dŵr/aer neu fwy o darfu o ganlyniad i bwysau hamdden gan boblogaeth fwy o fewn y rhanbarth (yn benodol, cynyddu'r defnydd o gynefinoedd yr ucheldir neu'r arfordir).<br><br>_Osgoi/ Lliniaru_<br><br>Prif bwyslais y polisi yw annog twf o fewn y lleoliadau trefol presennol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br><br>*Camau sy’n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau sy’n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi’r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae’n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu’r cynllun neu’r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw’r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br><br>_Casgliad_<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu’r polisi mewn modd sy’n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny’n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P26 – Meithrin Economi Canolbarth Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf a datblygiad cyfleoedd economaidd presennol a newydd ar draws Canolbarth Cymru. Mae'r polisi yn datgan y dylai Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol ddatblygu polisïau sy'n cefnogi amaethyddiaeth a mentrau gwledig traddodiadol sy'n seiliedig ar y tir, a darparu fframwaith hyblyg i gefnogi'r broses o ddatblygu dulliau newydd, arloesol a thechnolegau a sectorau sy'n datblygu. Mae testun ategol y polisi hefyd yn cynnwys cyfeiriad at dwristiaeth wledig (gan gynnwys datblygu llwybrau arfordirol yn ogystal â chyfleusterau twristaidd eraill mewndirol), ynni adnewyddadwy a gwelliannau i gymunedau gwledig sydd wedi eu dosbarthu'n eang ar draws Canolbarth Cymru.<br><br>_Effeithiau_ | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Mae'n bosibl y gallai datblygu economaidd yng nghanolbarth Cymru yn y dyfodol effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar ledled y rhanbarth. Yn arbennig, ACA Bae Ceredigion, ACA Afon Gwy, ACA Cwm Doethie-Mynydd Mallaen, ACA Coetiroedd Cwm Elan, AGA Elenydd Mallaen, ACA Afon Teifi a Safle Ramsar/ACA Cors Caron. O gofio nad oes elfen ofodol yn gysylltiedig â'r polisi, gallai effeithiau posibl gweithredu'r polisi hwn gynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu i): tarfu ar/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â safleoedd AGA/ Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth â datblygu'r dyraniadau ar gyfer datblygu economaidd o fewn cynlluniau haen is), effeithiau sy'n gysylltiedig â datblygiadau adnewyddadwy (fel risg gwrthdrawiadau), colled neu ddifrod i gynefinoedd ACA sensitif, darnio llwybrau cymudo i ystlumod sy'n gysylltiedig ag ardaloedd cadwraeth arbennig (h.y. lleihau cysylltedd rhwng y safleoedd drwy golli perthi/gwrychoedd/coetir), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/aer neu fwy o aflonyddwch o ganlyniad i bwysau hamdden o ddatblygiad posibl llwybrau arfordirol yn ogystal â chyfleusterau twristiaeth eraill mewndirol a hyrwyddir yn y polisi.<br><br>*Lliniaru*<br><br>Prif bwyslais y polisi yw annog twf o fewn y lleoliadau trefol presennol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Defnyddio'r ymarfer mapio Ardaloedd Ynni Gwynt a Aseswyd Ymlaen Llaw (gweler Polisi 17 ac Atodiad B) i ddynodi lleoliadau posibl yn y dyfodol ar gyfer datblygu ynni gwynt.<br>• Un o amcanion y polisi yw cefnogi twristiaeth wledig. Rhaid i ddatblygu yn y sector twristiaeth yn y dyfodol ystyried goblygiadau mwy o bwysau hamdden ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (yn enwedig drwy effeithiau cyfun â datblygiadau newydd eraill) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd o'r fath.<br><br>*Casgliad* | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P27 –Teithio yng Nghanolbarth Cymru | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol a rhanbarthol i sicrhau bod buddsoddiadau trafnidiaeth yn gwneud Canolbarth Cymru yn fwy hygyrch ac yn cryfhau cysylltiadau trafnidiaeth trawsffiniol. Mae'r polisi yn cefnogi datblygu seilwaith cynaliadwy i leihau dibyniaeth ar geir. Nod y polisi yw y caiff lefelau cyfartalog o lygredd aer a sŵn eu lleihau neu o leiaf eu cadw i'r lleiafswm posib. Y nod cyffredinol yw lleihau'r angen i deithio, yn enwedig mewn gerbydau preifat, a chefnogi pobl i gerdded, seiclo a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn lle. Mae'r polisi'n cynnwys datblygu Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol i sicrhau cefnogaeth ar gyfer twf ac adfywio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd posibl sy'n deillio o well cysylltedd rhanbarthol.<br><br>*<u>Effeithiau</u>*<br><br>Er y gallai datblygu seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy arwain at fanteision amgylcheddol drwy leihau'r defnydd o geir a lleihau llygredd aer a sŵn yn sgil hynny, gan nad yw union fanylion y twf arfaethedig mewn cysylltiadau trafnidiaeth yng nghanolbarth Cymru yn hysbys ar hyn o bryd, mae posibilrwydd yr effeithir ar Safleoedd Natura 2000/Ramsar o fewn y rhanbarth, gan gynnwys ACA Bae Ceredigion, ACA Afon Gwy, ACA Cwm Doethie-Mynydd Mallaen, ACA Coetiroedd Cwm Elan, AGA Elenydd Mallaen, ACA Afon Teifi a Safle Ramsar/ACA Cors Caron. Gallai'r effeithiau posibl gynnwys: tarfu ar/dadleoli rhywogaethau perthnasol (yn enwedig adar mewn ardaloedd ucheldirol neu sy'n defnyddio tir sydd â chysylltiad swyddogaethol) os caiff llwybrau newydd eu hagor ger safleoedd Natura 2000/ Ramsar; y posibilrwydd o golli tir yn uniongyrchol sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth â datblygu'r cynlluniau gerllaw ardaloedd sensitif; a'r posibilrwydd o wahanu cysylltiadau cynefinoedd oddi wrth nodweddion llinellol newydd yn y dirwedd. Mae modd hefyd agor ardaloedd a oedd yn llai hygyrch o'r blaen i ymwelwyr newydd, ac felly cynyddu'r posibilrwydd o bwysau hamdden ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (yn arbennig, cynyddu'r defnydd a wneir o gynefinoedd yr ucheldir).<br><br>*<u>Lliniaru</u>*<br><br>Prif bwyslais y polisi yw lleihau'r angen i deithio ac felly gallai gweithredu'r polisi ynddo'i hun arwain at welliannau mewn ansawdd aer a fyddai'n dod â manteision i safleoedd Natura 2000/Ramsar. Fodd bynnag, lle mae modd effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy ffyrdd anuniongyrchol eraill megis pwysau hamdden, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a Datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth baratoi cynlluniau a phrosiectau haen is er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Mae'n rhaid i bolisïau trafnidiaeth a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer cysylltiadau trafnidiaeth newydd) neu brosiectau a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw brosiectau seilwaith newydd sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br>*Casgliad*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P28 – Ardaloedd Twf Cenedlaethol- Bae Abertawe a Llanelli | Bae Abertawe a Llanelli fydd y prif ganolbwynt ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-Orllewin. Mae'r polisi yn cefnogi'r broses o ddatblygu Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol sy'n cydnabod yr ardal twf cenedlaethol fel canolfannau strategol ar gyfer twf strategol o ran tai a'r economaidd; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol.<br>*Effeithiau*<br>Saif AGA/Safle Ramsar Bury Inlet ac ACA Safle (Morol Ewropeaidd) Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ar yr arfordir i'r de o Lanelli ac i'r gorllewin o Abertawe. Mae ACA Cors Crymlyn/ Safle Ramsar Crymlyn Bog ar ymyl dwyreiniol Abertawe, ac mae ACA Tiroedd Comin Gŵyr ac ACA Coedydd Ynn Gŵyr i'r de-orllewin o Abertawe. Ystyrir bod cyfeirio twf at ganolfannau trefol sydd eisoes yn bodoli ac o'u hamgylch yn debygol o leihau'r posibilrwydd y ceir effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd dynodedig; fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw elfen ofodol i'r polisi, ni ellir diystyru'r posibilrwydd yr effeithir ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Gallai twf cynyddol yn yr ardaloedd arfordirol hyn arwain at effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy darfu ar/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â safleoedd AGA/ Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth â datblygu'r dyraniadau ar gyfer datblygu o fewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill megis llygredd dŵr/aer neu fwy o aflonyddwch o ganlyniad i bwysau hamdden gan boblogaeth gynyddol yn y rhanbarth. Mae Cyngor Abertawe wedi mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ddiweddar (Cyngor Abertawe, 2019). Canfu Asesiad | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun (DTA Ecology, 2019) y posibilrwydd y byddai Effaith Arwyddocaol Debygol yn gysylltiedig â gwaredu gwastraff, hamdden ac effeithiau ffyrdd a halogiad dŵr wyneb (yn enwedig o ran effeithiau ansawdd dŵr ar SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin). Roedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn argymell ymgorffori camau lliniaru (fel rhan o asesiad priodol) i sicrhau nad oedd unrhyw effeithiau andwyol i gyfanrwydd y safleoedd Natura 2000 a ddynodwyd.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>Prif bwyslais y polisi yw annog twf o fewn y lleoliadau trefol presennol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a bywiog ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn ardaloedd gwledig ac yn pwysleisio pwysigrwydd amgylcheddol y rhanbarth. Mae'r testun ategol yn datgan *'dylai rheoli adnoddau naturiol a llifogydd a diogelu a gwella ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol a thirwedd fod yn sail i benderfyniadau strategol ar leoliadau ar gyfer twf a seilwaith newydd'.* Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r fFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Sicrhau y cydymffurfir â'r camau lliniaru a amlinellir yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Cyngor Abertawe pan gyflwynir prosiectau o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn, yn enwedig camau lliniaru i osgoi effeithiau ansawdd dŵr yn effeithio ar SME Bae ac Aberoedd Caerfyrddin.<br><br>*Casgliad*<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| P29 – Ardaloedd Twf Rhanbarthol – Trefi Caerfyrddin a'r Hafan | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf ac adfywio cynaliadwy yng Nghaerfyrddin ac yn Nhrefi'r Ddau Gleddau yn Sir Benfro (Hwlffordd, Aberdaugleddau, Penfro a Doc Penfro). Bydd y meysydd hyn yn ganolbwynt ar gyfer twf a reolir, gan adlewyrchu eu swyddogaethau isranbarthol pwysig a chysylltiadau cryf ag Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli. Mae'r polisi yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth sy'n canolbwyntio ar swyddogaethau'r lleoedd hyn fel canolbwynt ar gyfer tai, cyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau allweddol o fewn eu hardaloedd ehangach ac yn cefnogi eu swyddogaeth barhaus fel canolbwynt ar gyfer twf isranbarthol.<br><br>_Effeithiau_<br><br>Mae Trefi'r Ddau Gleddau wedi eu lleoli ar hyd Aber Afon Cleddau ac Aberdaugleddau (sy'n rhan o ACA Sir Benfro Forol). Mae Caerfyrddin nesaf at ACA Afon Tywi (gydag ACA/safle Morol Bae Caerfyrddin ac Aberoedd i'r de) ac AGA Gogledd Bae Ceredigion. Mae'n bosibl y gallai twf yn yr holl ardaloedd hyn effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>Ystyrir bod canolbwyntio twf mewn canolfannau trefol presennol a'u cyffiniau yn debygol o sicrhau bod y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd dynodedig cyn lleied â phosibl; fodd bynnag, yn absenoldeb unrhyw gynigion datblygu manwl, ni ellir diystyru'r potensial i safleoedd Natura 2000/ Ramsar gael eu heffeithio. Gallai twf cynyddol yn yr ardaloedd arfordirol hyn arwain at effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy darfu/ dadleoli posibl o rywogaethau adar sy'n gysylltiedig ag AGA/ safleoedd Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir â chysylltiad gweithredol o dan yr ôl troed tir a neilltuwyd ar gyfer datblygiad mewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/ aer neu darfu cynyddol o ganlyniad i bwysau hamdden yn sgil poblogaeth fwy yn y rhanbarth.<br><br>_Osgoi/ Lliniaru_<br><br>Prif bwyslais y polisi yw annog twf o fewn y lleoliadau trefol presennol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br><br>_Casgliad_<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P31 – Metro De-orllewin Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu Metro de-orllewin Cymru a bydd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i'w galluogi i gyflawni a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cysylltiedig.<br><br>_Effeithiau_<br><br>Er y gallai datblygu'r Metro arwain at fanteision amgylcheddol drwy ddefnyddio llai o geir a lleihau llygredd aer a sŵn yn sgil hynny, a byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith yn digwydd yn Abertawe ei hun, gan nad yw union fanylion y metro arfaethedig yn hysbys ar hyn o bryd, mae posibilrwydd effeithio ar y safleoedd Natura 2000/Ramsar sydd yng nghyffiniau Abertawe. Mae AGA/ safle Ramsar Bury Inlet ac ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd ar y gorllewin o Abertawe lie to the west of Swansea. ACA Cors Crymlyn/ safle ramsar Crymlyn Bog ar ymyl dwyreiniol Abertawe, ac mae ACA Tiroedd Comin Gŵyr ac ACA Coedydd Ynn Gŵyr i'r de-orllewin.<br><br>Gallai'r effeithiau posibl gynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu i): tarfu ar/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â safleoedd AGA/ Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth â datblygu'r metro os yw y tu allan i leoliadau trefol, neu ar hyd yr arfordir), neu drwy effeithiau eraill megis llygredd dŵr/aer neu fwy o aflonyddwch/difrod o ganlyniad i bwysau hamdden gan boblogaeth gynyddol yn y rhanbarth (pe bai'r metro yn ei gwneud hi'n haws teithio i ardaloedd arfordirol y gwyddys eu bod yn gartref i gynefinoedd a rhywogaethau).<br><br>_Osgoi/ Lliniaru_<br><br>O ystyried graddfa'r Cynllun Metro newydd posibl, mae'n debyg y bydd yn ofynnol i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect gydymffurfio â PCC10. Byddai angen datblygu'r cynllun metro hefyd yn unol â gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr hefyd sicrhau eu bod yn cadw at y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn:<br><br>_Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H_<br><br>_Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:_<br><br>• Mae'n rhaid i bolisïau trafnidiaeth a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer y metro newydd) neu brosiectau a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw brosiectau seilwaith newydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br>*Casgliad*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P32 Ynni a Dyfrffordd y Ddau Gleddau | Mae'r polisi hwn yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru o ran gweithrediad a datblygiad yn Nyfrffordd y Ddau Gleddau ac yn cydnabod ei lleoliad ar gyfer datblygiadau, arloesi a buddsoddi newydd sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a charbon isel. Dywed y polisi 'd*ylai datblygiad newydd sy'n ymwneud ag ynni gefnogi cymunedau lleol a rhanbarthol a darparu swyddi a buddsoddiad mewn hyfforddiant a sgiliau*.<br>*Effeithiau*<br>Er bod Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn borthladd cyfredol â diwydiannau hirsefydlog, ac yn lleoliad allweddol i gyflenwadau ynni'r DU, mae hefyd yn ffurfio rhan o ACA Gorllewin Cymru Forol ac ACA Sir Benfro Forol. Mae'n bosibl y gallai unrhyw ddatblygiad newydd sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a charbon isel, arloesi a buddsoddi yn y porthladd effeithio ar ardaloedd cadwraeth arbennig cyfagos, yn ogystal â safleoedd Natura 2000/Ramsar ymhellach i ffwrdd, gan gynnwys safleoedd sydd wedi'u dynodi ar gyfer mamaliaid morol megis ACA Dynesfeydd Môr Hafren; ACA /Pen Llŷn a'r Sarnau; ac ACA Aberteifi a Bae Ceredigion.<br>Cynhwyswyd Dyfrffordd y Ddau Gleddau fel dyraniad yng Nghynllun Datblygu Lleol Sir Benfro (Cyngor Sir Benfro, 2013). Mae Polisi SP2 (Datblygu sy'n gysylltiedig â Phorthladdoedd ac Ynni) o'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys datblygiadau ym mhorthladdoedd Aberdaugleddau. Mae'r polisi yn nodi y caniateir datblygu ar gyfer cyfleusterau a seilwaith sy'n gysylltiedig â phorthladdoedd, gan gynnwys datblygiadau sy'n gysylltiedig ag ynni. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2012 (Cyngor Sir Benfro, 2012). Roedd yr effeithiau posibl a ganfuwyd yn cynnwys: effeithiau tarfu ar/dadleoli (sŵn/gweledol/dirgryniadau) ar nodweddion perthnasol y safleoedd morol o ran bridio a/neu gael porthiant; | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | colli/difrodi cynefinoedd morol ac arfordirol sensitif (yn enwedig yr ardaloedd cadwraethol arbennig cyfagos); effeithiau posibl ar gynefinoedd sy'n ymwneud â chwilota am fwyd a/neu fridio sy'n gysylltiedig â newidiadau i brosesau arfordirol; cynnydd posibl mewn llygredd aer drwy weithgareddau adeiladu a/neu gynnydd mewn traffig cychod; effeithiau posibl ar ansawdd dŵr (megis llygredd o fewn yr amgylchedd morol o weithgareddau adeiladu, carthu gwely'r aber, neu gynnydd mewn traffig cychod); effeithiau anuniongyrchol megis mwy o bwysau hamdden ar yr arfordir drwy fwy o dwristiaeth yn yr ardal; a'r effeithiau posibl mewn cyfuniad â phrosiectau arfordirol eraill ar raddfa fawr yn rhanbarthol/yn genedlaethol. Daeth Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol i'r casgliad na fyddai gweithredu Polisi SP2 yn effeithio ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, gan dybio y cynhelir Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect i ddynodi a lliniaru unrhyw effeithiau andwyol posibl. Mae Polisi SP2 yn datgan y '*gyda chynigion unigol a gyflwynir o dan Bolisi SP2, bydd angen i'r Asesiad Rheoleiddio Cynefinoedd ar lefel prosiect ystyried eu heffeithiau tebygol ar nodweddion yr ACA'.* Cyflawnir hyn drwy Bolisi GN36 y Cynllun Datblygu Lleol sy'n datgan '*bydd yn ofynnol cynnal asesiad manwl cyn parhau â'r chynigion datblygu y mae modd iddynt gael effaith andwyol ar safleoedd sydd o bwys rhyngwladol neu genedlaethol. Yn benodol, os yw unrhyw gynnig datblygu yn debygol o gael effaith sylweddol ar safle neu rywogaeth a ddiogelir o dan gyfraith Ewrop, bydd yn amodol ar Asesiad Priodol o'r goblygiadau mewn cysylltiad ag amcanion cadwraeth y safle.*'<br><br><u>*Osgoi/ Lliniaru*</u><br><br>Er nad yw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol yn casglu y bydd unrhyw effaith andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar (â chamau lliniaru ar waith), gellid cyflwyno prosiectau eraill yn gysylltiedig â'r porthladd o ganlyniad i Bolisi 32 yn ystod cyfnod cynllun yr FfDC, y tu allan i ffiniau polisi SP2 o fewn y Cynllun Datblygu Lleol; Felly, ni ellir dibynnu'n llwyr ar gasgliad yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o dan y Cynllun Datblygu Lleol i gasglu na fyddai Polisi 32 yr FfDC yn cael unrhyw effaith andwyol. Fodd bynnag, o gofio maint tebygol datblygiadau yn y porthladd yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect (i gydymffurfio â PCC10) a fyddai'n nodi unrhyw effeithiau eraill nas ystyriwyd yn Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Datblygu Lleol. O ystyried maint a graddfa debygol datblygiadau ynni yn y dyfodol yn y porthladd a'i seilwaith cysylltiedig, mae'n debygol y bydd angen i Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect gydymffurfio â PCC10. Byddai datblygu seilwaith sy'n gysylltiedig â Dyfrffordd y Ddau Gleddau hefyd yn destun gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Mae'r polisi hefyd yn dweud: '*wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau am gynigion ynni yn y maes hwn, dylid ystyried y cyfraniad y bydd yn ei wneud i ddatgarboneiddio ein cyflenwadau ynni, yr effeithiau ar y dirwedd, morlun, yr amgylchedd naturiol a hanesyddol a'r manteision economaidd y byddent yn eu cynnig i'r rhanbarth. Bydd cefnogaeth mewn egwyddor i ddatblygiadau ar y tir sy'n gysylltiedig â phrosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr'*. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, rhaid cadw at y camau canlynol (wrth gyflwyno prosiectau yn y dyfodol sy'n ymwneud ag ynni) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar.<br><br>*Camau Osgoi/ Lliniaru sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6):* A i H<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i brosiectau sy'n ymwneud â datblygu Dyfrffordd y Ddau Gleddau sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10, TAN5 a Pholisi GN36 Cynllun Datblygu Lleol Sir | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Benfro). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Rhaid i ddatblygwyr yn y dyfodol allu dangos bod modd darparu unrhyw gamau lliniaru sy'n angenrheidiol yn ystod Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect. Os na all yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r prosiect yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â Dyfrffordd y Ddau Gleddau lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw seilwaith newydd sy'n gysylltiedig ag ehangu porthladd Aberdaugleddau sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br>*<u>Casgliad</u>*<br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P33 – Ardal Twf Cenedlaethol – Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd | Mae'r polisi yn nodi mai Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd yw'r prif bwyslais ar gyfer twf a buddsoddiad yn rhanbarth y De-Ddwyrain.<br>*<u>Effeithiau</u>*<br>Mae'r polisi hwn yn cefnogi datblygu Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol fel y canolbwynt ar gyfer twf strategol o ran yr economi a thai; gwasanaethau a chyfleusterau hanfodol; gweithgynhyrchu uwch; trafnidiaeth a seilwaith digidol.<br>Mae ACA Môr Hafren /AGA/Safle Ramsar Severn Estuary ac ACA Cardiff Beech Woods yng nghyffiniau Caerdydd gydag ACA Afon Wysg ac ACA Môr Hafren /AGA/Safle Ramsar Severn Estuary yn agos i Gasnewydd. Mae nifer fach o safleoedd Natura 2000/Ramsar yn ardal Blaenau'r Cymoedd, gan gynnwys ACA Blaen Cynon (a ddynodwyd ar gyfer gloÿnnod byw brith y gors), ACA Coedydd Nedd a Mellte ac ACA Cwm Cadlan. Gallai datblygiad o fewn y tri Maes Twf Cenedlaethol hyn effeithio ar bob un o'r safleoedd dynodedig hyn.<br>Ystyrir bod canolbwyntio twf yn ac o amgylch yr ardaloedd trefol presennol yn debygol o leihau'r effeithiau andwyol posibl ar safleoedd dynodedig; fodd bynnag, yn absenoldeb elfen ofodol i'r polisi, ni ellir diystyru'r posibilrwydd yr effeithir ar safleoedd Natura 2000/Ramsar. Gallai twf cynyddol yn ardal Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd arwain at effeithion ar safleoedd Natura 2000/Ramsar drwy darfu ar/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â safleoedd AGA/ Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth oherwydd datblygu'r dyraniadau tir o fewn cynlluniau haen is), neu drwy effeithiau eraill fel llygredd dŵr/aer neu fwy o aflonyddwch o ganlyniad i bwysau hamdden gan boblogaeth fwy o fewn y | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | rhanbarth. Gallai twf cynyddol yn y Cymoedd hefyd arwain at effeithio ar ACA Blaen Cynon (a ddynodwyd ar gyfer gloÿnnod byw brith y gors) drwy darfu ar, golli neu ddarnio cynefinoedd sy'n addas i loÿnnod byw brith y gors.<br><br>_Osgoi/ Lliniaru_<br><br>Prif bwyslais y polisi yw annog twf o fewn y lleoliadau trefol presennol; fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a ffyniannus ac yn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, priodol a chymesur mewn ardaloedd gwledig. Rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu wrth y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau penodol i bolisi::*<br><br>• Rhaid i bolisïau a ddatblygir drwy gynlluniau neu brosiectau haen is a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br><br>_Casgliad_<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P35 – Parc Rhanbarthol y Cymoedd | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sefydlu Parc Rhanbarthol y Cymoedd, er nad yw'r union leoliad wedi ei benderfynu eto<br><br>_Effeithiau_<br><br>Ystyrir bod creu Parc Rhanbarthol y Cymoedd yn bolisi cadarnhaol, â llawer o fanteision amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol; fodd bynnag, os caiff y Parc ei leoli mewn lleoliad anaddas, mae'n bosibl y gallai'r polisi arwain at effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a rhywogaethau presennol. Mae nifer o safleoedd Natura 2000/Ramsar o fewn ardal y Cymoedd, gan gynnwys ACA Blaen Cynon, ACA Coedydd Nedd a Mellte ac ACA Cwm Cadlan y gallai unrhyw ddatblygiad newydd o ran y Parc newydd posibl effeithio arnynt. Er y byddai datblygu'r Parc newydd o fewn safle Natura 2000/Ramsar yn amlwg yn groes i'w hamcanion cadwraeth, mae'n bosibl hefyd y gallai lleoli'r Parc newydd gerllaw safleoedd o'r fath gael effeithiau andwyol, yn enwedig os yw rhywogaethau o'r safleoedd hynny'n dibynnu ar gynefinoedd agored tebyg y tu hwnt i ffiniau'r | Dim effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | safle (e.e. ar gyfer chwilota am fwyd neu glwydo). Gallai cyflwyno cynefinoedd newydd nesaf at gynefinoedd sensitif presennol gael effeithiau negyddol ar hydroleg yr ardal, gallai gyflwyno gwahanol storfa hadau o rywogaeth annymunol, a/neu gallai ddarparu lloches a chuddfan i anifeiliaid sy'n hela'r rhywogaethau perthnasol. O ystyried mai un o brif ddibenion y Parc Rhanbarthol yw denu ymwelwyr i'r ardal, gallai pwysau hamdden fod yn ystyriaeth hefyd, yn enwedig mewn ardaloedd nad yw pobl yn tarfu arnynt ar hyn o bryd.<br><br>*Osgoi/ Lliniaru*<br><br>Mae'n amlwg yn bwysig sicrhau nad yw safleoedd a ddewisir i gefnogi cyflwyno'r polisi hwn wedi'u dynodi eisoes ar gyfer cynefinoedd sensitif eraill y byddai datblygiad o'r fath yn eu peryglu. Os oes cynefinoedd a rhywogaethau sensitif gerllaw, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr lynu at y camau canlynol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Rhaid i bolisïau a/neu brosiectau a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer y Parc newydd) sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru. Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn.<br>• Gan mai un o brif amcanion y Parc newydd yw bod yn adnodd hamdden. Wrth ddatblygu'r Parc yn y dyfodol, rhaid ystyried goblygiadau mwy o bwysau hamdden ar safleoedd Natura 2000/Ramsar (yn enwedig drwy effeithiau cyfun â datblygiadau newydd eraill) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd o'r fath.<br><br>*Casgliad*<br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |
| P36 – Metro De-ddwyrain Cymru | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygu Metro De-ddwyrain Cymru a bydd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phartneriaid eraill i gyflawni hynny a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cysylltiedig. Byddai'r Metro'n cael ei ddatblygu dros rhanbarth y De-ddwyrain. Bydd Caerdydd, Casnewydd, Merthyr Tudful, Pontypridd, Caerffili a Pen-y-bont ar Ogwr yn lleoliadau strategol bwysig ar system Metro De-ddwyrain Cymru.<br><br>*Effeithiau*<br><br>Er y gallai datblygu'r Metro arwain at fanteision amgylcheddol drwy leihau'r defnydd o geir a lleihau llygredd aer a sŵn o ganlyniad i hynny, gan nad yw union fanylion y Metro arfaethedig yn hysbys ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd effeithiau ar | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | Safleoedd Natura 2000/Ramsar yn ardal Caerdydd a'r Cymoedd. Mae Safle Ramsar/AGA Severn Estuary/ ACA Môr Hafren ac ACA Cardiff Beech Woods, yn ogystal ag ACA Blaen Cynon (a ddynodwyd ar gyfer gloÿnnod byw brith y gors), AGA Coedydd Nedd a Mellte ac ACA Cwm Cadlan i gyd yng nghyffiniau ardaloedd lle gellid datblygu'r Metro ac felly gallai ddatblygiad o'r fath yn y dyfodol effeithio ar bob un ohonynt.<br><br>Gallai'r effeithiau posibl gynnwys y canlynol (ond heb eu cyfyngu i): tarfu ar/dadleoli rhywogaethau adar sy'n gysylltiedig â safleoedd AGA/ Ramsar cyfagos (er enghraifft, colli tir sy'n gysylltiedig o ran swyddogaeth â datblygu'r metro os nad y tu allan i leoliadau trefol, neu ar hyd yr arfordir), neu drwy effeithiau eraill megis llygredd dŵr/aer neu fwy o aflonyddwch/difrod o ganlyniad i bwysau hamdden gan boblogaeth gynyddol yn y rhanbarth (pe bai'r metro yn darparu mwy o fynediad i ardaloedd arfordirol y gwyddys eu bod yn cynnwys cynefinoedd a rhywogaethau penodol).<br><br><u>*Osgoi/ Lliniaru*</u><br><br>O ystyried graddfa'r Cynllun Metro newydd posibl, mae'n debygol y bydd angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar lefel prosiect er mwyn cydymffurfio â PCC10. Byddai datblygu'r Cynllun Metro hefyd yn destun gofynion Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystod y cam cynllunio priodol. Er bod hyn yn rhoi sicrwydd y bydd angen i geisiadau ddangos eu bod wedi asesu'r effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/Ramsar, rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr hefyd sicrhau eu bod yn cadw at y camau canlynol wrth weithredu'r polisi hwn:<br><br>*Camau sy'n berthnasol i fwy nag un polisi (gweler Tabl 6): A i H*<br><br>*Camau sy'n berthnasol i bolisïau penodol:*<br><br>• Mae'n rhaid i bolisïau trafnidiaeth a ddatblygir drwy gynlluniau haen is (gan gynnwys dyrannu tir ar gyfer y Metro newydd) neu brosiectau a gyflwynir o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar (i gydymffurfio â PCC10 a TAN5). Dylid defnyddio'r clustogfeydd a nodir yn adran 1.5 yn gymorth i ddynodi'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar hynny y gellid effeithio arnynt drwy ddatblygu yn y dyfodol o dan y polisi hwn. Mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol, paneli cynllunio strategol a datblygwyr allu dangos y gall unrhyw gamau lliniaru a ystyrir yn angenrheidiol yn ystod datblygiad cynllun neu lefel prosiect haen is gael eu cyflawni ar lefel cynllun/prosiect. Os na all Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cynllun neu brosiect haen is ddiystyru effeithiau andwyol ar gyfanrwydd y safle, bydd yn rhaid naill ai dynnu'r cynllun neu'r prosiect haen is yn ôl, neu ei ddiwygio a'i ailasesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan erthygl 6 (4) o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd (h.y. dim atebion amgen, IROPI) a sicrhau camau digolledu. Nid yw'r FFDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn lle na ellir osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar drwy liniaru.<br>• Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd a'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Cenedlaethol cysylltiedig yn 2020. Bydd angen i unrhyw brosiectau seilwaith newydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r camau a nodir yn y dogfennau hyn a bod yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd pan fo'n ofynnol.<br><br><u>*Casgliad*</u><br><br>Os yw Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr yn glynu wrth y camau a nodir uchod wrth baratoi cynlluniau a strategaethau haen is ac yn ystod y broses o weithredu'r polisi mewn modd sy'n berthnasol i brosiect penodol, | |

| Polisi | Effeithiau posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar a gofynion lliniaru/ osgoi arfaethedig | Casgliad (gan dybio y rhoddir camau lliniaru ar waith) |
|---|---|---|
| | yn ogystal â chydymffurfio â PCC10 a TAN 5, byddai hynny'n sicrhau na cheid unrhyw effaith andwyol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisi hwn. | |

## 4.4 Casgliad yr Asesiad Priodol (ar ei ben ei hun)

Adolygwyd 24 o bolisïau a sgriniwyd i mewn gan yr Asesiad Priodol ar gyfer effeithiau niweidiol posibl ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisïau.

Ar y cyfan, ni ystyrir bod yr un o'r polisïau yn yr FfDC yn fwriadol yn cyfeirio datblygiad i leoliad neu mewn ffordd nad oedd modd osgoi neu liniaru effeithiau posibl sy'n deillio o brosiectau a gyflwynir o dan y polisïau (neu gynlluniau haen is a fydd yn nodi cyfleoedd datblygu ar gyfer neilltuo) ar lefel cynllun neu brosiect haen is.

Nid yw'n bosibl ar y lefel uchel hon nodi'r holl effeithiau sy'n gysylltiedig â gweithredu polisïau; fodd bynnag, mae proses yr Asesiad Priodol wedi nodi'r mathau o effeithiau sydd yn fwyaf tebygol o godi ac wedi nodi camau ar gyfer pob un o'r polisïau a fyddai'n osgoi/ lliniaru mathau o effeithiau o'r fath. Mae'r rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr gydymffurfio â'r camau hyn wrth weithredu'r polisïau i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Darperir crynodeb o'r camau osgoi/ lliniaru yn Atodiad A a nodwyd cyfeiriad at yr Atodiad hwn yn eglur yn yr adran Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ym Mhennod Un yr FfDC.

Mae'n ofynnol i bob cynllun a phrosiect haen is sydd â'r potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar (beth bynnag fo'u pellter o safleoedd o'r fath) gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Polisi Cynllunio Cymru 10 a TAN5 fel mater o gyfraith. Felly, beth bynnag fo'r geiriad polisi neu'r camau lliniaru sydd wedi eu cynnwys yn yr FfDC neu'r ddogfen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hon, byddai Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd statudol o gynlluniau/ prosiectau haen is yn ofynnol. Bydd cydymffurfiad â Pholisi Cynllunio Cymru 10, TAN5 a'r camau osgoi/ lliniaru a nodir yn erbyn pob un o'r polisïau yn cynnig mesur diogelu cyffredin y bydd yn ofynnol i bolisïau eraill yn yr FfDC, yn ogystal â'r rhai mewn cynlluniau a phrosiectau haen is, gydymffurfio ag ef. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw gynlluniau neu brosiectau haen is, sy'n gysylltiedig â pholisïau yn yr FfDC, lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy liniaru.

Felly, mae'r Asesiad Priodol (ar ei ben ei hun) yn dod i'r casgliad (gan dybio bod y camau osgoi/ lliniaru a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn yn cael eu gweithredu) na fyddai unrhyw effeithiau niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Natura 2000/ Ramsar o ganlyniad i weithredu'r polisïau a nodir yn yr FfDC.

# 5 Effeithiau Cyfunol

O ystyried lefel uchel yr FfDC, ceir y posibilrwydd o effeithiau cyfunol â chynlluniau a phrosiectau eraill trwy weithredu polisïau. Fodd bynnag, at ddiben yr asesiad hwn, ac yn unol â natur lefel uchel yr FfDC, dim ond cynlluniau lefel uchel perthnasol allweddol y mae'n bosibl y gallent arwain at effeithiau cyfunol sydd wedi cael eu hystyried (fel y cytunwyd mewn ymgynghoriad â Cyfoeth Naturiol Cymru).

## Cynlluniau haen is

Bydd y dogfennau cynllunio haen is, gan gynnwys y Cynlluniau Datblygu Strategol neu eu Cynlluniau Datblygu Lleol cyfansoddol, yn nodi'r lleoliadau i'w neilltuo ar gyfer datblygiad, ac felly dim ond ar y lefel hon y gellir asesu'r potensial ar gyfer effeithiau ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn iawn. Hefyd, nid yw'n bosibl ystyried effeithiau cyfunol rhwng y dogfennau hyn a'r FfDC gan nad ydynt yn annibynnol ar ei gilydd (nid leiaf oherwydd y bydd angen i gynlluniau o'r fath gydymffurfio'n gyffredinol â'r polisïau yn yr FfDC). Fodd bynnag, mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol a Phaneli Cynllunio Strategol gydymffurfio â'r camau osgoi/ lliniaru a nodir yn yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn wrth ddatblygu cynlluniau haen is i sicrhau na fyddai unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Ni fyddai'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynlluniau haen is lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol (naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol) ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy liniaru.

## Strategaethau a chynlluniau eraill

Mae'r FfDC yn bodoli ochr yn ochr â nifer o Strategaethau/Cynlluniau Llywodraeth eraill. Mae'r cynlluniau a ystyriwyd yn yr asesiad yn cynnwys: Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Strategaeth Drafnidiaeth Cymru, y Polisi Adnoddau Naturiol; dogfen Brexit a'n Tir; yn ogystal â'r *Strategaeth Genedlaethol Ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol;* Cynlluniau Rheoli Traethlin; Cynlluniau Rheoli Basn Afon; Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd; Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd; Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol; Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol; a Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr.

*Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru*

Mae Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn nodi'r cyfleoedd buddsoddi posibl yn y sectorau cyhoeddus a phreifat yng Nghymru. Mae'r ddogfen llif prosiectau (Llywodraeth Cymru, 2019b) yn rhestru'r datblygiadau seilwaith preifat a chyhoeddus sydd wedi'u cynllunio o dan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru. Gan nad oes unrhyw fanylion penodol yn ymwneud â natur datblygiadau posibl yn yr FfDC, nid yw'n bosibl ar y lefel uchel hon diystyru'n llwyr y potensial o effeithiau cyfunol o bolisïau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru a'r FfDC (yn enwedig yn ymwneud â thwf economaidd, trafnidiaeth, adfywio, diwydiant, ynni a thai). Fodd bynnag, y prosiectau a amlinellir yn y ddogfen llif prosiectau fydd un o'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i weithredu polisïau yn yr FfDC yn ystod cyfnod y cynllun. Fel y cyfryw, mae'n rhaid i brosiectau sy'n dod trwy Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru gydymffurfio â'r camau osgoi/ lliniaru a nodir yn yr FfDC (a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn) i sicrhau bod dim effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau dim effeithiau cyfunol niweidiol ar y safleoedd dynodedig hyn.

*Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru*

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019a) yn nodi sut y gellir sicrhau datblygu cynaliadwy yn yr ardal forol i elwa o werth economaidd ac ecolegol moroedd y glannau a'r môr mawr o amgylch Cymru. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2019b), gan gynnwys Sgrinio ac Asesiad Priodol. Daeth yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd i'r casgliad y bydd y camau yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru ynghyd ag argaeledd a'r modd o sicrhau camau lliniaru lefel prosiect yn sicrhau na fydd unrhyw effaith niweidiol ar gyfanrwydd unrhyw safleoedd Ewropeaidd ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol, o ganlyniad i weithrediad y cynllun. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wedi hysbysu paratoad yr FfDC a, lle'n berthnasol, bydd yn hysbysu Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a phenderfyniadau cynllunio. Mae'r amserlenni ar gyfer llunio Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r FfDC wedi gorgyffwrdd, gan ganiatáu i'r gwaith o lunio'r ddau gynllun gael ei gydgysylltu. Bydd y cysylltiad hwn yn parhau wrth i'r ddau gynllun gael eu gweithredu a'u hadolygu. Mae'r FfDC a Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gynnig fframwaith ar gyfer rheoli newid o gwmpas yr arfordir ac felly ni fyddai unrhyw effeithiau cyfunol rhwng y ddwy ddogfen.

*Strategaeth Drafnidiaeth Cymru*

Bwriadwyd i Strategaeth Drafnidiaeth gyfredol Cymru (Llywodraeth Cymru, 2008) '*hyrwyddo rhwydweithiau trafnidiaeth cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd ac eto'n cryfhau bywyd economaidd a chymdeithasol ein gwlad'* ledled Cymru. Ers 2008, cyflwynwyd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, a fydd yn dylanwadu'n gynyddol ar y ffordd y mae teithio llesol gyda datblygiad newydd yn cael eu hintegreiddio. Mae'r Strategaeth Drafnidiaeth Cymru newydd wrthi'n cael ei datblygu, a fydd yn cydnabod y newidiadau hyn ac yn ceisio mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau yn y dyfodol. Mae Strategaethau Trafnidiaeth presennol a newydd Cymru, ynghyd â'r polisïau a phrosiectau trafnidiaeth cysylltiedig, wedi cyfrannu'n uniongyrchol at strategaeth ofodol, canlyniadau a pholisïau'r FfDC, ac felly ni fyddai unrhyw effeithiau cyfunol rhwng y dogfennau.

*Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol*

Bydd Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol hefyd yn un o'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i weithredu Strategaeth Drafnidiaeth newydd Cymru, Cynllun Cyflenwi Trafnidiaeth Cymru a pholisïau y FfDC. Fel y cyfryw, bydd yn rhaid i brosiectau sy'n dod drwy'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol gydymffurfio â'r camau osgoi/ lliniaru a nodir yn yr FfDC (a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn) i sicrhau dim effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau dim effeithiau cyfunol niweidiol ar y safleoedd dynodedig hyn.

*Y Polisi Adnoddau Naturiol*

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn canolbwyntio ar reolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru i sicrhau bod eu cyfraniad at gyflawni nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mor fawr â phosibl. Ei amcanion yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision y maent yn eu cynnig. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu sut y dylai'r system gynllunio gyfrannu at y nodau hyn ac mae'r FfDC yn adeiladu ar y polisi trwy gyflwyno polisïau penodol (gan gynnwys Polisi 9: Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth a Seilwaith Gwyrdd) sy'n:

- diogelu ardaloedd at ddibenion gwella cydnerthedd rhwydweithiau ecolegol a gwasanaethau ecosystemau, i nodi ardaloedd ar gyfer y ddarpariaeth o seilwaith gwyrdd a sicrhau gwelliant i fioamrywiaeth (budd net);
- sicrhau dewisiadau lleoliad a dyluniad cydnerth trwy hybu strategaeth twf cynaliadwy yn ogystal â sicrhau bod yr ystyriaeth o adnoddau naturiol ac iechyd a llesiant yn rhan o ddewisiadau safle a dyluniad; ac
- yn hwyluso datgarboneiddio'r economi, gan gynnwys dewisiadau ynni a thrafnidiaeth, a hybu egwyddorion economi gylchol

Dyluniwyd polisïau y FfDC i helpu i gyflawni nodau'r Polisi Adnoddau Naturiol, ac felly ni fyddent yn arwain at effeithiau cyfunol negyddol gyda'r FfDC.

*Brexit a'n Tir*

Mae'r ddogfen Brexit a'n Tir yn cyflwyno'r Rhaglen Rheoli Tir newydd arfaethedig a fydd yn disodli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), yn ei gyfanrwydd, yn dilyn Brexit. Yn dibynnu ar gynnwys terfynol y Cynllun Rheoli Tirwedd, ceir y potensial ar gyfer effeithiau cyfunol gyda pholisïau FfDC sy'n cefnogi datblygu gwledig, fel polisi 4 – Cefnogi Cymunedau Gwledig. Bydd angen ystyried unrhyw strategaethau rheoli tir sy'n gysylltiedig â Chymru a ddatblygir ar ôl Brexit mewn asesiadau cyfunol yn y dyfodol hefyd. Fodd bynnag, o gofio nad yw dogfennau o'r fath wedi eu llunio eto, nid yw'n bosibl asesu effeithiau cyfunol yn ystyrlon ar hyn o bryd.

*Strategaeth Genedlaethol Ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, Cynlluniau Rheoli Traethlin, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd*

Mae Cynlluniau Rheoli Traethlin, Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a Chynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd i gyd yn ddulliau sy'n cefnogi ac yn helpu i ddarparu'r Strategaeth Genedlaethol ddrafft ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae polisïau'r FfDC yn cefnogi twf ac adfywiad mewn ardaloedd sydd mewn perygl o wasgfa arfordirol a llifogydd a alla gyflwyno mwy o angen am amddiffynfeydd rhag llifogydd yn yr ardaloedd arfordirol hynny (a all arwain wedyn at fwy o wasgfa arfordirol). Fodd bynnag, mae'r rhain eisoes yn ardaloedd poblog ac yn destun rhyw lefel o reolaeth amddiffynfeydd rhag llifogydd presennol, felly, os bydd gwasgfa arfordirol wedi'i chanolbwyntio yn yr ardaloedd presennol, gallai hyn leihau'r pwysau ar rannau eraill o forlin o gwmpas Cymru. Wrth i gynlluniau a phrosiectau haen is gael eu datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd, bydd anghenion y gymuned yn cael eu nodi, a chamau rheoli perygl llifogydd yn cael eu datblygu trwy Gynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd. Byddai'r rhain yn destun eu Hasesiad Rheoliadau Cynefinoedd eu hunain ar lefel cynllun (i gydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru 10 a TAN5) a'r angen am gamau lliniaru yn cael ei nodi. Nid

yw'r FfDC yn cefnogi unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd lle na ellir osgoi effeithiau cyfunol niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy liniaru. Oherwydd eu lleoliad, mae rhai cynlluniau arfordirol yn debygol o fynd drwy'r cam asesu IROPI. Byddai cyfran fawr o'r rhain yn dod drwy'r Strategaeth Llifogydd Genedlaethol a byddai camau yn cael eu darparu drwy'r Cynllun Creu Cynefinoedd Cenedlaethol i sicrhau'r ddarpariaeth o gamau gwneud iawn. Os oes potensial i brosiectau lliniaru llifogydd (nad ydynt yn gysylltiedig â'r Strategaeth Genedlaethol) gael effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar (fel cynlluniau arfordirol), dylid tynnu'r rhain yn ôl, neu eu diwygio a'u hail-asesu, neu basio'r rhanddirymiadau a nodir o dan Erthygl 6(4) y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, sef dim atebion amgen, Rhesymau Hanfodol sef er Budd Cyhoeddus Tra Phwysig (IROPI) a sicrhau camau gwneud iawn.

*Cynlluniau Rheoli Basn Afonau*

Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afonau yn cwmpasu system afonydd cyfan, gan gynnwys cyrff dŵr afon, llyn, dŵr daear, aberol ac arfordirol. Nod y Cynlluniau Rheoli Basn Afonau yw gwella a chynnal ansawdd dŵr a diogelu ecosystemau cysylltiedig ac felly ni fyddent yn arwain at effeithiau cyfunol gyda'r FfDC.

*Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol*

Mae Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn nodi sut y bydd gwastraff yn cael ei reoli mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu disodli bellach gan y Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Er bod potensial o effeithiau cyfunol gyda chynlluniau gwastraff a pholisïau'r FfDC sy'n gysylltiedig â thwf, diwydiant a thai (yn enwedig y polisïau Rhanbarthol a nodir ym Mhennod 5 yr FfDC), o gofio y byddai gwaith cynllunio gwastraff yn cael ei ddatblygu ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol (yn unol â TAN21), bydd yn rhaid i bolisïau neu fentrau sy'n dod drwy'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd gydymffurfio â'r camau osgoi/ lliniaru a nodir yn yr FfDC (a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hwn) i sicrhau bod dim effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau dim effeithiau cyfunol niweidiol ar y safleoedd dynodedig hyn.

*Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr*

Mae Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr yn sicrhau bod cyflenwad dŵr digonol i fodloni'r galw. Ceir pum cwmni dŵr yng Nghymru, sef Dŵr Cymru, Severn Trent Water, Albion Water a Southern and Scottish Energy Water. Mae'n ddyletswydd statudol ar gwmnïau dŵr i baratoi, ymgynghori, cyhoeddi a chynnal cynllun rheoli adnoddau dŵr 25 mlynedd. Cynhyrchir cynlluniau bob pum mlynedd a cyhoeddwyd y cynlluniau diweddaraf yn 2019. Cynhaliwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd lefel cynllun ar gyfer pob un o'r Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr, lle nodwyd effeithiau posibl ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Ar y lefel uchel hon, nid yw'n bosibl diystyru'n llwyr y posibilrwydd o effeithiau cyfunol gyda Chynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr a pholisïau'r FfDC. Fodd bynnag, byddai angen i ddatblygiad newydd a gyflwynir trwy gynlluniau/ prosiectau haen is sicrhau bod effeithiau cyfunol posibl ar adnoddau dŵr wedi cael eu nodi a'u hosgoi neu eu lliniaru, fel sy'n ofynnol, i sicrhau bod dim effaith niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.

## Y ffin rhwng Cymru a Lloegr

Yn ogystal â chynlluniau datblygu Cymru, a nodir uchod, ceir y potensial hefyd ar gyfer effeithiau cyfunol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar rhwng yr FfDC a chynlluniau Lloegr.

Ceir nifer o safleoedd Natura 2000/ Ramsar sydd ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, er enghraifft, AGA/ACA/safle Ramsar Aber Afon Dyfrdwy, AGA/ACA/ safle Ramsar Aber Afon Hafren, safleoedd Ramsar Midland Meres and Mosses, AGA Bae Lerpwl, ac ACAau Afon Gwy, yn ogystal â ardaloedd eraill ger y ffin yng Nghymru a Lloegr. Gallai effeithiau cyfunol posibl ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar hyn ddeillio o bolisïau a weithredir yn y ddwy wlad.

Mae'r Fframwaith Polisi Cynllunio Cenedlaethol (NPPF) yn nodi polisïau cynllunio'r llywodraeth ar gyfer Lloegr a sut y dylid cymhwyso'r rhain. Mae'n darparu fframwaith y gellir llunio cynlluniau a baratowyd yn lleol ar gyfer tai a datblygiadau eraill yn unol ag ef. Mae gan y fframwaith polisi yn ymwneud â meysydd fel cyflenwad tai, yr economi, trafnidiaeth gynaliadwy, defnydd tir, a deunyddiau y potensial ar gyfer effeithiau cyfunol gyda pholisïau'r FfDC sy'n ymwneud â thwf, diwydiant a thai na ellir eu diystyru ar hyn o bryd oherwydd natur lefel uchel yr FfDC. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i bob cynllun a phrosiect haen is sydd â'r potensial o effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Polisi Cynllunio Cymru 10 a TAN5 fel mater o gyfraith. Mae'n rhaid i Awdurdodau Cynllunio Lleol, Paneli Cynllunio Strategol a datblygwyr allu dangos y gellir darparu unrhyw gamau lliniaru yr ystyrir eu bod yn

angenrheidiol yn ystod datblygiad lefel cynllun neu brosiect haen is ar y lefel cynllun/ prosiect. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau dim effeithiau cyfunol niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar.

### Prosiectau

Er bod elfen ofodol i nifer o'r polisïau (fel Polisi 17: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig), nid yw'r FfDC yn cynnwys cyfeiriad at Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol penodol nac unrhyw ddatblygiad lefel prosiect arall. Mae'n debygol y byddai datblygiadau o'r fath yn deillio o gynlluniau haen is, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Strategol neu Leol. Gan ei bod yn ofynnol i bob cynllun a phrosiect haen is â'r potensial i effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar (naill ai ar eu pen eu hunain neu'n gyfunol) gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Polisi Cynllunio Cymru 10 a TAN5 fel mater o gyfraith, byddai effeithiau cyfunol posibl yn cael eu nodi a'u lliniaru, pan fo'n briodol, ar gamau dilynol gweithrediad yr FfDC. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi unrhyw brosiectau, sy'n gysylltiedig â pholisïau yn yr FfDC, lle na ellir lliniaru effeithiau cyfunol niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn briodol.

## 5.1 Casgliad yr Asesiad Cyfunol

Nid yw'n bosibl ar y lefel uchel hon nodi rhestr helaeth o bob cynllun a phrosiect a allai arwain at effeithiau cyfunol ynghyd â'r FfDC; ar lefel cynlluniau haen is, bydd gan yr Asesiadau Priodol well dealltwriaeth o'r effeithiau tebygol, ar eu pen eu hunain ac o'u cyfuno â chynlluniau rhanbarthol neu leol perthnasol eraill, ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar penodol a'u hamcanion cadwraeth. Mae'r asesiad cyfunol ar y lefel uchel hon yn gyfyngedig o reidrwydd, ac felly ni ellir diystyru effeithiau cyfunol yn llwyr. Fodd bynnag, o gofio ei bod yn ofynnol i bob cynllun a phrosiect sydd â'r potensial o effeithio ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar gydymffurfio â'r Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), Polisi Cynllunio Cymru 10 a TAN5 fel mater o gyfraith, byddai unrhyw effeithiau cyfunol posibl yn cael eu nodi a chamau lliniaru priodol yn cael eu datblygu ar gamau haen is dilynol gweithrediad yr FfDC. Bydd cydymffurfiad â Pholisi Cynllunio Cymru 10, TAN5 a'r camau lliniaru a nodir yn erbyn pob un o'r polisïau yn yr FfDC yn sicrhau bod dim effeithiau cyfunol niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynlluniau neu brosiectau haen is, sy'n gysylltiedig â pholisïau yn yr FfDC, pan na ellir osgoi effeithiau cyfunol niweidiol ar safleoedd Natura 2000/ Ramsar trwy liniaru.

Mae Tabl A isod yn cynrychioli'r broses a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw. Mae Colofn 1 yn rhestru'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw (mewn llythrennau bras) ochr yn ochr â'u rhif 'Ardal Flaenoriaeth' blaenorol at ddibenion cyfeirio). Mae Colofn 2 yn crynhoi'r rhesymeg sy'n sail i nodi cychwynnol pob Ardal Flaenoriaeth fel targed strategol ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy (fel y'i darparwyd gan Arup), a hefyd yn nodi nodweddion eraill o'r dirwedd a gyfrannodd at y gwaith mireinio dilynol. Mae Colofn 3 yn darparu'r asesiad manwl o'r gyfres gychwynnol o Ardaloedd Blaenoriaeth, fel y'i cynhaliwyd yn yr asesiad cychwynnol ym mis Mawrth 2019 (Cyfnod 1). Mae Colofn 4 wedyn yn cynnig disgrifiad cryno o'r addasiadau a wnaed i ffiniau newydd yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer Ynni'r Haul a'r Gwynt ar ôl yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cychwynnol (Gorffennaf 2019, Cyfnod 2), mae Colofn 5 yn nodi i ba raddau y gallai safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn yr Ardaloedd Ynni'r Gwynt a Aseswyd Ymlaen Llaw gael eu heffeithio gan ddatblygiad fferm wynt ar ôl mireinio'r mapiau o ganlyniad i ymgynghori cyhoeddus (Cyfnod 3).

Mae Tabl B yn nodi'r asesiad o bob un o'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ac yn cynnwys cyfeiriad at y safleoedd Natura 2000/ Ramsar a allai gael eu heffeithio gan ddatblygiad gwynt arfaethedig yn y dyfodol, effeithiau posibl ac, yn olaf, camau osgoi/ lliniaru sy'n berthnasol i bob Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw.

Mae Ffigur 1 yn dangos dosbarthiad safleoedd Natura 2000/ Ramsar ledled Cymru, ac yn dangos yn eglur sut y mae'r safleoedd mwy sylweddol (yn enwedig yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau) ac Ardaloedd

Cadwraeth Arbennig (ACAau) mwy) wedi cael eu hosgoi drwy'r broses fireinio ailadroddus. Fodd bynnag, mae nifer fawr o'r safleoedd Natura 2000/ Ramsar yng Nghymru (ACAau yn arbennig) yn llawer llai ac yn fwy cyffredin na'r AGAau mawr ac felly roeddent yn llawer mwy anodd eu hosgoi yn ystod y broses fireinio. Lluniwyd Ffigur 2 felly i ddangos yn fwy manwl y berthynas rhwng safleoedd Natura 2000/ Ramsar unigol a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw.

Tabl A: Goblygiadau'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer datblygiad Ynni Gwynt i safleoedd Natura 2000/ Ramsar, gweler hefyd Ffigur 2. Mae'r rhesi a amlygwyd mewn llwyd wedi eu dileu o'r asesiad trwy fireinio'r dyluniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus

| Ardaloedd | Rhesymeg dros eu dewis ac elfennau allweddol i'w hystyried wrth fireinio | Argymhellion ar gyfer diwygio'r Ardaloedd Blaenoriaeth gwreiddiol fel y'u nodwyd yn yr asesiad cychwynnol (Mawrth 2019) | Gwaith mireinio dyluniad dilynol, a goblygiadau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd i Ynni'r Haul a'r Gwynt o ran safleoedd Natura 2000/ Ramsar (Gorffennaf 2019) | Gwaith mireinio dyluniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. (Cyflwynir yr asesiad yn Nhabl B isod) (Mawrth 2020) |
|---|---|---|---|---|
| 002 Gogledd Cymru (Ynys Môn a Gwynedd) (Mawrth 2019)<br>Ardaloedd Blaenoriaeth 1 a 2 (Gorffennaf 2019)<br>**Tynnwyd yr Ardal o'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw (Mawrth 2020)** | Cyflymder gwynt da ar draws Ynys Môn.<br>Dynodiad Ynys Ynni.<br>Ardaloedd yn cynnwys yr holl ardaloedd o gyfle mwyaf, lle ceir mynediad at y grid a ffyrdd hefyd.<br>Prosiect cysylltu gogledd Cymru.<br>Agosrwydd at gastell Caernarfon.<br>Agosrwydd at AHNE a Pharc Cenedlaethol.<br>Cyfyngiadau Radar / NATS. | **Yn yr Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae rhannau o ACA Corsydd Môn a safle Ramsar Corsydd Môn a Llyn wedi'u lleoli yn rhan Ynys Môn o'r Ardal Flaenoriaeth hon, ond mae'r rhain i ffwrdd o'r ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n wyrdd tywyll ('cyfle mwyaf' ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy) yn gyffredinol. Serch hynny, bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar gwlypdir sy'n gysylltiedig â'r safle Ramsar gael eu heffeithio. Mae ACA Llyn Dinam yn yr Ardal Flaenoriaeth hefyd, a nesaf at ardal sydd wedi'i lliwio'n wyrdd tywyll, ond mae hon yn annhebygol o gael ei heffeithio gan ddatblygiad ynni adnewyddadwy oni bai ei bod wedi'i lleoli o fewn ffin wirioneddol yr ACA (sy'n annhebygol iawn o gael cydsyniad).<br>Mae'r Ardal Flaenoriaeth i'r de o Ynys Môn (Gwynedd) yn cynnwys y clwstwr bach o safleoedd sy'n rhan o ddynodiad ACA Corsydd Eifionydd; fodd bynnag, mae'r safleoedd hyn wedi'u lleoli y tu allan i'r ardaloedd gwyrdd tywyll, ac felly ystyrir eu bod mewn perygl isel (yn enwedig o gofio nad yw adar nac ystlumod yn rhan o'r dynodiad).<br>**Y Tu Allan i'r Ardal Flaenoriaeth**<br>Ceir nifer o AGAau wedi'u lleoli o gwmpas morlin Ynys Môn, felly mae'r potensial yn bodoli i unrhyw ddatblygiad gwynt yn yr ardaloedd gwyrdd tywyll yng ngogledd yr Ardal Flaenoriaeth effeithio ar adar o'r safleoedd hyn (er bod lleoliad bwriadol yr Ardal Flaenoriaeth yn fewndirol o'r arfordir yn golygu bod y perygl yn llawer is). Ffefrir yr ardaloedd gwyrdd tywyll ar ymyl deheuol rhan Ynys Môn o'r Ardal Flaenoriaeth hyn o safbwynt Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd felly. Ceir nifer o ACAau twyni tywod/morfeydd heli o gwmpas y morlin hefyd, ond mae lleoliad yr Ardal Flaenoriaeth yn fewndirol o'r arfordir yn fwriadol yn golygu na ddylai'r rhan gael eu heffeithio.<br>Mae'r Ardal Flaenoriaeth i'r de o Ynys Môn (Gwynedd) yn osgoi safleoedd Natura 2000/ Ramsar yn gyffredinol, er bod yr ymyl deheuol nesaf at AGA Gogledd Bae Ceredigion, felly byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw ffermydd gwynt yma. Yn yr un modd, mae ACA Glynllifon nesaf at yr Ardal Flaenoriaeth hefyd, ond ystyrir ei bod mewn perygl isel yn unig (ar sail ei nodweddion cymhwyso). Fodd bynnag, bydd angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirion, er ei bod ymhellach o ffwrdd (i'r dwyrain o ffin yr Ardal Flaenoriaeth), gan ei bod yn bosibl y gallai'r ystlumod pedol lleiaf sy'n gysylltiedig â'r safle hwn gael eu heffeithio gan ddatblygiad fferm wynt ar ymyl dwyreiniol yr Ardal Flaenoriaeth hon (er bod y perygl yn isel, gan nad yw ystlumod pedol yn hedfan ar uchder y rhan fwyaf o dyrbinau). Mae'n bosibl y gallai AGA Glannau Ynys Gybi, sydd o fewn/nesaf at yr Ardal Flaenoriaeth, ac y mae ei nodweddion yn cynnwys brain coesgoch sy'n bridio a gaeafu. | Mae'n eglur o gymhariaeth syml rhwng map gwreiddiol yr Ardal Flaenoriaeth a'r fersiwn a fireiniwyd bod ffiniau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd yn y rhan hon o ogledd Cymru wedi cael eu lleihau'n sylweddol er mwyn osgoi effeithiau ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br>Hefyd, mae'r gwahaniaeth (ar y map Ardaloedd Blaenoriaeth newydd) rhwng yr ardaloedd hynny a ddynodwyd ar gyfer datblygiad ynni'r haul yn unig a'r rhai a ddynodwyd ar gyfer ynni'r gwynt a'r haul wedi ei gwneud yn haws asesu'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 1**<br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd oddi wrth rannau arfordirol hynod ddynodedig Ynys Môn yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae rhannau o ACA Corsydd Môn/ safle Ramsar Corsydd Môn a Llyn yn dal i fod o fewn yr Ardal Flaenoriaeth newydd, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar gwlypdir sy'n gysylltiedig â'r safle Ramsar gael eu heffeithio. Hefyd, mae'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa 20 cilomedr nifer o AGAau (gan gynnwys AGAau Morwenoliaid Ynys Môn, Ynys Seiriol ac Glannau Ynys Gybi), a hefyd o fewn clustogfa 40 cilomedr y frân goesgoch yn AGA Glannau Ynys Gybi, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â'r AGAau hyn gael eu heffeithio (er po fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 2**<br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon hefyd yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Hefyd, mae'r ardal hon wedi'i dynodi ar gyfer datblygiad ynni'r haul yn unig erbyn hyn, gan leihau ymhellach y perygl o effeithiau. Fodd bynnag, mae ymyl deheuol yr Ardal Flaenoriaeth newydd o fewn clustogfa AGA Gogledd Bae Ceredigion, felly bydd angen i unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o fferm solar sicrhau nad yw'r lleoliad arfaethedig yn ardal chwilota am fwyd neu glwydo arbennig o bwysig i adar sy'n gysylltiedig â'r AGA. Wedi dweud hynny, disgwylir y byddai'r effeithiau yn fach o'r safbwynt gwaethaf.<br><br>Yn amlwg, byddai'n fwy anodd cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd hyn, yn enwedig os ydynt wedi'u lleoli yn agosach at yr AGAau arfordirol a safleoedd Natura 2000/ Ramsar eraill, er nad yw hynny'n golygu na ellir cydsynio cynigion datblygu o'r fath; fodd bynnag, byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwyadl. | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, tynnwyd Ardaloedd Blaenoriaeth 1 a 2 o'r Polisi. |
| 003 Gogledd Cymru (Mawrth 2019)<br>Ardaloedd Blaenoriaeth 3, 4 a 15 (Gorffennaf 2019)<br>**Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw 1 a 2 (Mawrth 2020)** | Ardaloedd yn cynnwys yr holl ardaloedd o gyfle mwyaf, lle ceir mynediad at y grid a ffyrdd hefyd.<br>Osgoi'r ardaloedd adeiledig o amgylch Wrecsam.<br>Bydd angen cynnal asesiadau tirwedd a gweledol pellach ar ardaloedd sy'n cyffinio ag AHNE a Pharc Cenedlaethol.<br>Bydd angen ystyried agosrwydd at yr ardal | **Yn yr Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy wedi'i leoli yn y fwyaf o'r ddwy ardal sy'n rhan o'r Ardal Flaenoriaeth hon yng ngogledd-ddwyrain Cymru; fodd bynnag, mae'r ACA y tu allan i unrhyw ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n wyrdd tywyll, felly mae datblygiad ynni adnewyddadwy yma yn annhebygol (hefyd, nid yw adar nac ystlumod yn rhan o'r dynodiad).<br>Mae'r rhan arall (lai) o'r Ardal Flaenoriaeth yn cynnwys ACA Johnstwon Newt Sites o fewn ei ffin, ond eto mae'r ACA y tu allan i unrhyw ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n wyrdd tywyll i raddau helaeth, ac ni ddylai gael ei heffeithio'n sylweddol gan fod o fewn yr Ardal Flaenoriaeth hon.<br>**Y Tu Allan i'r Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae ymyl gogleddol y mwyaf o'r ddwy Ardal Flaenoriaeth yng ngogledd-ddwyrain Cymru nesaf at AGA Bae Lerpwl, ac mae'r ymyl de-orllewinol yn cyffinio ag ACA/AGA Migneint-Arenig-Dduallt ac mae'r ymyl de-ddwyreiniol | Mae'n eglur o gymhariaeth syml rhwng map gwreiddiol yr Ardal Flaenoriaeth a'r fersiwn a fireiniwyd bod ffiniau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd yn y rhan hon o ogledd Cymru (Ardaloedd Blaenoriaeth newydd 3, 4 a 15) wedi cael eu lleihau'n sylweddol er mwyn osgoi effeithiau ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Hefyd, mae'r gwahaniaeth rhwng yr ardaloedd hynny a ddynodwyd ar gyfer datblygiad ynni'r haul yn unig a'r rhai a ddynodwyd ar gyfer ynni'r gwynt a'r haul wedi ei gwneud yn haws asesu'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 3**<br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd oddi wrth rannau arfordirol hynod ddynodedig gogledd Cymru, ac o ACA | Mae cymhariaeth rhwng yr Ardaloedd Blaenoriaeth a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw newydd yn dangos cyfangiad mawr oherwydd y penderfyniad i gael gwared ar yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer ynni'r haul o ganlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus (cafwyd gwared ar Ardal Flaenoriaeth 4 yn llwyr)<br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 1 (Ardal Flaenoriaeth 3 gynt)**<br>Lleihawyd maint Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 1 i gael gwared ar y rhan ynni'r haul yn unig yn y gornel ogledd-orllewinol. Fodd bynnag, mae'n dal o fewn clustogfa nifer o AGAau (fel AGA Migneint-Arenig-Dduallt a nifer o AGAau |

| Ardaloedd | Rhesymeg dros eu dewis ac elfennau allweddol i'w hystyried wrth fireinio | Argymhellion ar gyfer diwygio'r Ardaloedd Blaenoriaeth gwreiddiol fel y'u nodwyd yn yr asesiad cychwynnol (Mawrth 2019) | Gwaith mireinio dyluniad dilynol, a goblygiadau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd i Ynni'r Haul a'r Gwynt o ran safleoedd Natura 2000/ Ramsar (Gorffennaf 2019) | Gwaith mireinio dyluniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. (Cyflwynir yr asesiad yn Nhabl B isod) (Mawrth 2020) |
|---|---|---|---|---|
| | adeiledig o amgylch Wrecsam, yn enwedig o ran ynni'r gwynt. | nesaf at ACA Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd/ AGA Berwyn. O gofio bod rhai ardaloedd o 'gyfle mwyaf' ar gyfer ynni adnewyddadwy nesaf at y safleoedd hyn, bydd yn bwysig sicrhau bod unrhyw ffermydd gwynt a allai gael eu cynnig yma yn ystyried yn briodol y goblygiadau i adar sy'n gysylltiedig â'r AGAau hyn. Fel arall, gellid adolygu dosbarthiad yr ardaloedd hyn fel rhai o 'gyfle mwyaf'.<br>Mae'r ardal arall (lai) i'r dwyrain nesaf at ACA Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd, ACA Coedwigoedd Dyffryn Alun ac ACA Deeside and Buckley Newt SItes; fodd bynnag, ni ystyrir y byddai nodweddion cymhwyso'r safleoedd hyn yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan ddatblygiad ynni adnewyddadwy yn yr Ardal Flaenoriaeth gyfagos. Yr hyn sy'n fwy arwyddocaol yw'r ffaith fod ymyl gogleddol y rhan hon o'r Ardal Flaenoriaeth (sy'n cynnwys llawer iawn o liw gwyrdd tywyll) wedi'i leoli yng nghlustogfeydd ACA Aber Dyfrdwy/ AGA/ safle Ramsar The Dee Estuary ac AGA Berwyn, felly byddai angen rhoi ystyriaeth i adar o'r safleoedd hyn wrth wneud cais ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy yma. Unwaith eto, dylid rhoi ystyriaeth i adolygu dosbarthiad yr ardaloedd hyn fel rhai o'r 'cyfle mwyaf'. | Coedwigoedd Dyffryn Elwy, yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa 20 cilomedr nifer o AGAau (gan gynnwys AGAau Bae Lerpwl ac Ynys Seiriol), felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â'r AGAau hyn gael eu heffeithio (er po fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 4**<br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon hefyd yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth, gan gynnwys osgoi ACA Johnstown Newt Sites yn llwyr, a oedd o fewn ei ffiniau yn flaenorol. Hefyd, mae'r ardal hon wedi'i dynodi ar gyfer datblygiad ynni'r haul yn unig erbyn hyn, gan leihau ymhellach y perygl o effeithiau. Fodd bynnag, mae ymyl gogleddol yr Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa AGAau Mersey Estuary ac The Dee Estuary, felly bydd angen i unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o fferm solar sicrhau nad yw'r lleoliad arfaethedig yn ardal chwilota am fwyd neu glwydo arbennig o bwysig i adar sy'n gysylltiedig â'r AGA. Wedi dweud hynny, disgwylir y byddai'r effeithiau yn fach o'r safbwynt gwaethaf.<br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 15**<br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd oddi wrth ACA/AGA Migneint-Arenig-Dduallt ac ACA Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd/ AGA Berwyn, a'r ffaith bod y rhan o'r Ardal Flaenoriaeth newydd sydd agosaf at y cyntaf wedi'i dynodi ar gyfer ynni'r haul yn unig, yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa 20 cilomedr y ddwy AGA hyn, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â nhw gael eu heffeithio (er po fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br>Yn amlwg, byddai'n fwy anodd cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd hyn, yn enwedig os ydynt wedi'u lleoli yn agosach at yr AGAau arfordirol a safleoedd Natura 2000/ Ramsar eraill, er nad yw hynny'n golygu na ellir cydsynio cynigion datblygu o'r fath; fodd bynnag, byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwyadl. | arfordirol) yn ogystal ag ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy, ACA Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn ac ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydir.<br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 2 (Ardal Flaenoriaeth 15 gynt)**<br>Lleihawyd maint Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 2 i gael gwared ar y rhan ynni'r haul yn unig yn y gornel dde-orllewinol. Mae'r cyfangiad hwn i'r ffiniau wedi ei thynnu o glustogfa safle Ramsar Llyn Tegid ac wedi ei symud ymhellach i ffwrdd o AGA/ACA Migneint-Arenig-Dduallt ac ACA Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd/ AGA Berwyn, Fodd bynnag, mae'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw yn dal i fod o fewn clustogfa 20 cilomedr y ddwy AGA hyn. |
| 004 Canolbarth a Gorllewin Cymru (Ceredigion) (Mawrth 2019)<br>Ardaloedd Blaenoriaeth 9 a 10 (Gorffennaf 2019)<br>**Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw 6 a 7 (Mawrth 2020)** | Ardaloedd yn cynnwys yr holl ardaloedd o gyfle mwyaf, lle ceir mynediad at y grid a ffyrdd hefyd.<br>Ardaloedd o gyfle amrywiol lle ceir mynediad at y grid a llwybrau mynediad sydd wedi'u cynnwys ar y cam hwn.<br>Agosrwydd at Landmap Synhwyraidd a Gweledol rhagorol ac uchel i'r Dwyrain.<br>Agosrwydd at Barc Cenedlaethol i'r De-orllewin.<br>Gallai cyfyngiadau grid a mynediad wneud y gallu i gyflawni yn anodd. | **Yn yr Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae'r ardal fwyaf gogleddol o'r ddwy ardal sydd yn yr Ardal Flaenoriaeth hon (gweler Ffigur 2 tudalen 3) yn cynnwys ACA Rhos Talglas o fewn ei ffiniau, ac mae'r rhan ddeheuol yn cynnwys ACA Rhos Llawr-cwrt yn ogystal â rhan o ACA Afon Teifi. Er ei bod yn bosibl y gallai'r safleoedd hyn gael eu heffeithio gan ffermydd gwynt neu solar, maent y tu allan o ardaloedd o 'gyfle mwyaf' ar gyfer ynni adnewyddadwy yn gyffredinol, ac felly dylent gael eu hosgoi. O gofio bod y rhan yn ddynodiadau sy'n seiliedig ar gynefin gwlypdir, byddai'r prif effeithiau, pe bai rhai o gwbl, yn hydrolegol (gan dybio dim colled cynefin). Mae cael y safleoedd hyn o fewn yr Ardal Flaenoriaeth yn annhebygol o fod yn broblem ddifrifol felly, er y byddai angen asesiadau pellach yn sicr os caiff ffermydd gwynt neu solar eu cynnig yn gyfagos.<br>**Y Tu Allan i'r Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae'r ardal fwyaf gogledd o'r ddwy ardal hyn o fewn clustogfeydd AGA Gogledd Bae Ceredigion, ACA/ AGA Elenydd ac ACA/AGA Mynydd Mallaen; felly byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i unrhyw ddatblygiad fferm wynt yn y rhannau hynny o'r Ardal Flaenoriaeth sydd agosaf at yr AGAau hyn. Yn yr un modd, mae'r rhan hon o'r Ardal Flaenoriaeth hefyd o fewn y glustogfa o gwmpas ACA/safle Ramsar Cors Caron, oherwydd presenoldeb adar yn y dynodiad Ramsar. Byddai angen i unrhyw ddatblygiad fferm wynt yn y rhan | Mae'n eglur o gymhariaeth syml rhwng map gwreiddiol yr Ardal Flaenoriaeth (gweler Atodiad A) a'r fersiwn a fireiniwyd (gweler Ffigur 1, Atodiad B) bod ffiniau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd yn y rhan hon o orllewin Cymru (Ardaloedd Blaenoriaeth newydd 9 a 10) wedi cael eu lleihau'n sylweddol er mwyn osgoi effeithiau ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 9**<br>Er bod y cyfangiad i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon wedi bod yn llai sylweddol nag ar gyfer Ardaloedd Blaenoriaeth newydd eraill, mae'r cyfangiad oddi wrth AGA Gogledd Bae Ceredigion yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae ACA Rhos Talglas yn dal i fod o fewn yr Ardal Flaenoriaeth newydd, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai'r safle hwn gael ei effeithio (er ei bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul yn cael ei gydsynio o fewn yr ACA hon neu'n agos ati). Hefyd, mae'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa 20 cilomedr nifer o safleoedd (gan gynnwys safle Ramsar Cors Caron ac AGA Gogledd Bae Ceredigion), ac mae hefyd o fewn clustogfa 40 cilomedr y brain coesgoch yn AGA | Mae cymhariaeth rhwng yr Ardaloedd Blaenoriaeth a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw newydd yn dangos cyfangiad mawr oherwydd y penderfyniad i gael gwared ar yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer ynni'r haul o ganlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus.<br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 6 (Ardal Flaenoriaeth 9 gynt)**<br>Mae gan Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 6 yr un ffiniau ag Ardal Flaenoriaeth 9. Mae ACA Rhos Talglas yn dal i fod o fewn yr Ardal ac yn dal o fewn clustogfa nifer o AGA/ ACAau arfordirol (fel AGA Aber Dyfi ac ACA Bae Ceredigion) yn ogystal â nifer o ACAau (gan gynnwys ACA/ safle Ramsar Cors Caron, ACA/AGA Elenydd ac ACA Grogwynion). Mae'r Ardal hefyd o fewn clustogfa 40 cilomedr y brain coesgoch yn AGA Craig yr Aderyn ac AGA Craig yr Aderyn (brain coesgoch).<br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 7 (Ardal Flaenoriaeth 10 gynt)** |

| Ardaloedd | Rhesymeg dros eu dewis ac elfennau allweddol i'w hystyried wrth fireinio | Argymhellion ar gyfer diwygio'r Ardaloedd Blaenoriaeth gwreiddiol fel y'u nodwyd yn yr asesiad cychwynnol (Mawrth 2019) | Gwaith mireinio dyluniad dilynol, a goblygiadau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd i Ynni'r Haul a'r Gwynt o ran safleoedd Natura 2000/ Ramsar (Gorffennaf 2019) | Gwaith mireinio dyluniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. (Cyflwynir yr asesiad yn Nhabl B isod) (Mawrth 2020) |
|---|---|---|---|---|
| | | hon o'r Ardal Flaenoriaeth hefyd ystyried y goblygiadau i adar o'r safle hwn felly.<br>Mewn cyferbyniad, nid oes unrhyw safleoedd Natura 2000/ Ramsar nesaf at yr ardal ddeheuol sydd wedi'i chynnwys yn yr Ardal Flaenoriaeth hon, er bod pen gogleddol pellaf yr ardal o fewn clustogfa AGA Gogledd Bae Ceredigion, felly unwaith eto byddai'n rhaid i ddatblygiad fferm wynt yma gymryd hynny i ystyriaeth. | Craig yr Aderyn, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â nhw gael eu heffeithio (er po fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 10**<br><br>Er bod y cyfangiad i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon, yn yr un modd ag Ardal Flaenoriaeth newydd 9, wedi bod yn llai amlwg nag ar gyfer Ardaloedd Blaenoriaeth newydd eraill, mae effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth serch hynny. Fodd bynnag, mae'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i gynnwys ACA Rhos Llawr-cwrt yn ogystal â rhan o ACA Afon Teifi, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai'r safleoedd hyn gael eu heffeithio (er ei bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw ddatblygiad gwynt neu solar yn cael ei gydsynio o fewn yr ACAau hyn neu'n agos atynt). Wedi dweud hynny, disgwylir y byddai'r effeithiau yn fach o'r safbwynt gwaethaf.<br><br>Yn amlwg, byddai'n fwy anodd cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd hyn, yn enwedig os ydynt wedi'u lleoli yn agosach at yr AGAau arfordirol a safleoedd Natura 2000/ Ramsar eraill, er nad yw hynny'n golygu na ellir cydsynio cynigion datblygu o'r fath; fodd bynnag, byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwyadl. | Lleihawyd maint Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 7 i gael gwared ar y rhan ynni'r haul yn unig yn y pen gogleddol. Fodd bynnag, mae'n dal i gynnwys ACA Rhos Llawr-cwrt yn ogystal â rhan o ACA Afon Teifi. Mae hefyd o fewn clustogfa nifer o AGAau arfordirol (fel AGA /Safle Ramsar Bury Inlet ac AGA Bae Caerfyrddin) ac ACA Coedydd Gogledd Sir Benfro ac ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston. |
| 005 Canolbarth a Gorllewin Cymru (Powys) (Mawrth 2019)<br><br>Ardaloedd Blaenoriaeth 5, 6, 7 ac 8 (Gorffennaf 2019)<br><br>**Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw 3, 4 a 5 (Mawrth 2020)** | Ardaloedd yn cynnwys yr holl ardaloedd o gyfle mwyaf, lle ceir mynediad at y grid a ffyrdd hefyd. Ardal o gyfle amrywiol â chyflymder gwynt arbennig o uchel wedi'i chynnwys hefyd.<br><br>Ystyriaeth o gyfyngiadau yn Lloegr.<br><br>Agosrwydd at Landmap Synhwyraidd a Gweledol rhagorol ac uchel i'r De.<br><br>Gallai cyfyngiadau grid a mynediad wneud y gallu i gyflawni yn anodd. | **Yn yr Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon wedi'i gwasgaru dros ran fawr o ganolbarth Cymru ac yn cynnwys pedair ardal ar wahân. Dim ond tri safle Natura 2000/ Ramsar sydd o fewn ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth hon: ACA Mynydd Epynt, ACA Rhos Goch a rhan ogleddol bellaf AGA Elenydd- Mallaen.<br><br>Er bod y safleoedd hyn yn cael eu hosgoi i raddau helaeth gan yr ardaloedd gwyrdd tywyll o 'gyfle mwyaf' ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy, ceir perygl o hyd o effaith sylweddol, yn enwedig i'r adar sy'n gysylltiedig â'r AGA pe bai datblygiad fferm wynt yn cael ei gydsynio yn yr ardal hon (neu'n agos ati).<br><br>**Y Tu Allan i'r Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae'r rhan fwyaf gogleddol o bedair rhan yr Ardal Flaenoriaeth hon o fewn clustogfa AGA Berwyn, felly ceir y potensial i ddatblygiadau ffermydd gwynt yn y rhan hon o'r Ardal Flaenoriaeth effeithio ar y rhywogaethau adar cymhwysol o'r safle hwn. Yn yr un modd, mae rhan ganolog fawr yr Ardal Flaenoriaeth o fewn clustogfa AGA Elenydd-Mallaen, felly unwaith eto ceir y potensial o effeithiau ar y safle hwn. Ceir cyfanswm o bump ACA (Coedydd Llawr-y-glyn, Montgomery Canal, Coetiroedd Cwm Elan, Elenydd ac Afon Gwy) nesaf at yr Ardal Flaenoriaeth hon; fodd bynnag, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai'r safleoedd hyn yn cael eu heffeithio'n sylweddol (yn enwedig o ystyried nad yw adar nac ystlumod yn rhan o'r dynodiadau). | Mae'n eglur o gymhariaeth syml rhwng map gwreiddiol yr Ardal Flaenoriaeth a'r fersiwn a fireiniwyd bod ffiniau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd yng nghanolbarth Cymru/Powys (Ardaloedd Blaenoriaeth newydd 5, 6, 7 ac 8) wedi cael eu lleihau'n sylweddol er mwyn osgoi effeithiau ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Yr eithriad yw Ardal Flaenoriaeth newydd 5, sydd wedi cael ei hymestyn tua'r gogledd-orllewin, ond i ardal lle nad oes safleoedd Natura 2000/ Ramsar (er ei bod o fewn clustogfa un AGA bellach pan nad oedd gynt).<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 5**<br>Er bod ffiniau'r **Ardal Flaenoriaeth newydd** hon wedi ehangu rhyw fymryn, nid yw hyn wedi arwain at oblygiadau mawr i'r asesiad, ac eithrio bod yr Ardal Flaenoriaeth newydd nid yn unig o fewn clustogfa 20 cilomedr AGA Berwyn erbyn hyn, ond hefyd o fewn clustogfa AGA Migneint-Arenig-Dduallt; felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â'r AGAau hyn gael eu heffeithio (er po fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 6**<br>Nid yw'r cyfangiad i ffin ddwyreiniol yr Ardal Flaenoriaeth newydd hon wedi arwain at oblygiadau mawr i'r asesiad, gan mai agosrwydd y ffin orllewinol at AGA Elenydd- Mallaen yw'r mater pwysicach. Er bod y goblygiadau yn ddim gwaeth nag yr oeddent yn fersiwn flaenorol y mapiau, mae'r ffaith bod ymyl gorllewinol yr Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa'r AGA hon yn golygu y bydd yn dal i fod angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â'r AGA hon gael eu heffeithio.<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 7**<br>Prin yw'r effaith y mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd wedi ei chael ar yr asesiad mewn gwirionedd, gan nad yw hyn wedi cymryd yr Ardal Flaenoriaeth newydd oddi wrth unrhyw AGAau neu safleoedd Ramsar, felly mae'r effeithiau posibl yn dal i fod yn fach.<br><br>Fodd bynnag, mae ACA Rhos Goch yn dal i fod o fewn yr Ardal Flaenoriaeth newydd, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai'r safleoedd hyn gael eu heffeithio (er ei bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw ddatblygiad gwynt yn cael ei gydsynio o fewn yr ACA hon neu'n agos ati, ac mae effeithiau pellter yn annhebygol o ystyried | Mae cymhariaeth rhwng yr Ardaloedd Blaenoriaeth a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw newydd yn dangos cyfangiad mawr oherwydd y penderfyniad i gael gwared ar Ardal Flaenoriaeth 8 a lleihad i faint Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 4 (Ardal Flaenoriaeth 6 gynt).<br><br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 3 (Ardal Flaenoriaeth 5 gynt)**<br><br>Mae gan Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 3 yr un ffin ag Ardal Flaenoriaeth 5. Mae'r Ardal o fewn clustogfa ACA Berwyn a Mynyddoedd De Clwyd ac AGA y Berwyn, yn ogystal ag ACA Coedydd Llawr-y-glyn ac ACA Safleoedd Ystlumod Tanat ac Efyrnwy. Mae'r Ardal hefyd o fewn clustogfa 40 cilomedr y brain coesgoch yn AGA Craig yr Aderyn ac AGA Craig yr Aderyn (brain coesgoch).<br><br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 4 (Ardal Flaenoriaeth 6 gynt)**<br><br>Mae maint Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 4 wedi lleihau. Mae hyn wedi ei symud ymhellach i ffwrdd o ACA Coetiroedd Cwm Elan ac ACA Elenydd ac felly mae effeithiau uniongyrchol ar y safleoedd hyn wedi cael eu hosgoi bellach. Mae ACA Afon Gwy (Cymru) yn dal i fod o fewn yr Ardal a hefyd o fewn clustogfa ACA Montgomery Canal.<br><br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 5 (Ardal Flaenoriaeth 7 gynt)**<br><br>Mae gan Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 5 yr un ffin ag Ardal Flaenoriaeth 7. Mae ACA Rhos Goch yn dal i fod o fewn yr Ardal ac mae hefyd yn dal i fod o fewn clustogfa ACA Afon Gwy. |

| Ardaloedd | Rhesymeg dros eu dewis ac elfennau allweddol i'w hystyried wrth fireinio | Argymhellion ar gyfer diwygio'r Ardaloedd Blaenoriaeth gwreiddiol fel y'u nodwyd yn yr asesiad cychwynnol (Mawrth 2019) | Gwaith mireinio dyluniad dilynol, a goblygiadau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd i Ynni'r Haul a'r Gwynt o ran safleoedd Natura 2000/ Ramsar (Gorffennaf 2019) | Gwaith mireinio dyluniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. (Cyflwynir yr asesiad yn Nhabl B isod) (Mawrth 2020) |
|---|---|---|---|---|
| | | | bod y nodweddion cymhwyso i gyd yn gynefinoedd gwlypdir ac nid yn rhywogaethau symudol). Hefyd, mae'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal o fewn clustogfa ACA Afon Gwy; fodd bynnag, ystyrir ei bod yn hynod annhebygol y byddai'r ACA hon yn cael ei heffeithio'n sylweddol (yn enwedig o ystyried nad yw adar nac ystlumod yn rhan o'r dynodiad).<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 8**<br>Prin yw'r effaith y mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon wedi ei chael ar yr asesiad mewn gwirionedd, er ei fod wedi golygu bod yr Ardal Flaenoriaeth newydd y tu allan i glustogfa AGA Elenydd-Mallaen yn llwyr erbyn hyn.<br><br>Fodd bynnag, mae ACA Mynydd Epynt yn dal i fod o fewn yr Ardal Flaenoriaeth newydd, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai'r safle hwn gael ei effeithio (er ei bod yn annhebygol iawn y byddai unrhyw ddatblygiad gwynt yn cael ei gydsynio o fewn yr ACA hon neu'n agos ati, ac mae effeithiau pellter yn annhebygol o ystyried mai mwsogl pluog main gwyrdd, rhywogaeth cynefinoedd ucheldir llac sy'n annhebygol o gael ei heffeithio y tu hwnt i glustogfa leol iawn yw'r nodwedd gymhwyso). Hefyd, mae'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal o fewn clustogfa ACA Afon Gwy; fodd bynnag, ystyrir ei bod yn hynod annhebygol y byddai'r ACA hon yn cael ei heffeithio'n sylweddol (yn enwedig o ystyried nad yw adar nac ystlumod yn rhan o'r dynodiad).<br><br>Yn amlwg, byddai'n fwy anodd cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd hyn, yn enwedig os ydynt wedi'u lleoli yn agosach at safleoedd Natura 2000/ Ramsar, er nad yw hynny'n golygu na ellir cydsynio cynigion datblygu o'r fath; fodd bynnag, byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwyadl. | |
| 006 Canolbarth a Gorllewin Cymru (Sir Benfro) (Mawrth 2019)<br><br>Ardaloedd Blaenoriaeth 11 a 12 (Gorffennaf 2019)<br><br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 8 (Mawrth 2020)** | Ardaloedd yn cynnwys yr holl ardaloedd o gyfle mwyaf, lle ceir mynediad at y grid a ffyrdd hefyd. Ardal o gyfle amrywiol â chyflymder gwynt arbennig o uchel wedi'i chynnwys hefyd.<br><br>Agosrwydd at Barc Cenedlaethol.<br><br>Dylid ystyried effaith bosibl cyswllt gwyrdd y grid sydd ar gael yn y dyfodol.<br><br>Radar. | **Yn yr Ardal Flaenoriaeth**<br>Dim ond un safle Natura 2000/ Ramsar, ACA Afonydd Cleddau, sydd wedi'i leoli o fewn ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth fawr hon yng nghanol Sir Benfro. Fodd bynnag, mae'r safle hwn yn annhebygol iawn o gael ei effeithio'n sylweddol gan ddatblygiad ynni adnewyddadwy (mae'n cael ei osgoi gan y rhan fwyaf o ardaloedd sydd wedi'u lliwio'n wyrdd tywyll), oni bai y byddai gosod tyrbinau a/neu baneli solar yn arwain at symudiad mawr o waddodion i mewn i'r afon (sy'n annhebygol iawn).<br><br>**Y Tu Allan i'r Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae'r Ardal Flaenoriaeth hon yn peri risg mwy sylweddol i AGAau cyfagos (sef AGA Sgomer, Sgogwn a Moroedd Penfro, Castlemartin Coast, Bae Caerfyrddin ac Aberoedd, a AGA/safle Ramsar Bury Inlet) ac i safleoedd ACA sy'n uniongyrchol nesaf at ei ffin (Comins Gogledd-orllewin Sir Benfro, Preseli, Gweunydd Blaencleddau, Afon Teifi, ac Yerbeston Tops). Fodd bynnag, unwaith eto mae'r peryglon yn gymharol fach, gan fod y rhan fwyaf o'r Ardal Flaenoriaeth wedi cael ei thynnu'n fewndirol o'r arfordir, yn benodol gan mai dyma lle mae'r rhan fwyaf o safleoedd Natura 2000/ Ramsar pwysig wedi'u lleoli. Serch hynny, bydd angen rhywfaint o ystyriaeth o'r goblygiadau i adar AGA o unrhyw ffermydd gwynt yn yr ardal hon. | Mae'n eglur o gymhariaeth syml rhwng map gwreiddiol yr Ardal Flaenoriaeth a'r fersiwn a fireiniwyd bod ffiniau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd yn y rhan hon o dde-orllewin Cymru (Ardaloedd Blaenoriaeth newydd 11 a 12) wedi cael eu lleihau'n sylweddol er mwyn osgoi effeithiau ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Hefyd, mae'r gwahaniaeth (ar y map Ardaloedd Blaenoriaeth newydd) rhwng yr ardaloedd hynny a ddynodwyd ar gyfer datblygiad ynni'r haul yn unig (Ardal Flaenoriaeth 12 yn yr achos hwn) a'r rhai a ddynodwyd ar gyfer ynni'r gwynt a'r haul (Ardal Flaenoriaeth newydd 11) wedi ei gwneud yn haws i asesu'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 11**<br>Mae'r cyfangiad i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon yn golygu bod effeithiau pellach wedi cael eu hosgoi ymhellach, ond nid yn sylweddol (gan y disgwyliwyd i'r effeithiau fod yn isel eisoes). Fodd bynnag, mae rhan orllewinol yr Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa 20 cilomedr AGA Bae Caerfyrddin , ac mae hefyd o fewn clustogfa 40 cilomedr y brain coesgoch mewn nifer o AGAau (gan gynnwys Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro ac Castlemartin Coast), felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â'r AGAau hyn gael eu heffeithio (er po fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 12**<br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon hefyd yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Hefyd, mae'r ardal hon wedi ei dynodi ar gyfer datblygiad ynni'r haul posibl yn unig bellach, gan leihau'r perygl o effeithiau ymhellach. Er bod ACA Afonydd Cleddau yn dal i fod wedi'i lleoli o fewn ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon, mae'r safle yn | Mae cymhariaeth rhwng yr Ardaloedd Blaenoriaeth a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw newydd yn dangos cyfangiad mawr oherwydd y penderfyniad i gael gwared ar yr Ardaloedd Blaenoriaeth 8 ar gyfer ynni'r haul o ganlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus. Cafwyd gwared ar Ardal Flaenoriaeth 12 yn llwyr.<br><br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 8 (Ardal Flaenoriaeth 11 gynt)**<br><br>Lleihawyd maint Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 8 oherwydd y penderfyniad i gael gwared ar y rhan ar gyfer ynni'r haul (yn y gornel dde-orllewinol) a chyfangiad i'r ffin orllewinol i osgoi effeithiau ar ACA Afonydd Cleddau. Nododd ymgynghoriad â Chyfoeth Naturiol Cymru gwm dwyreiniol afon Cleddau (rhan o ACA Afonydd Cleddau) fel llwybr cymudo pwysig i ystlumod rhwng clwydfannau hysbys. Mae'r ffin orllewinol ddiwygiedig yn tynnu ymyl yr Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw i'r dwyrain o'r A478 felly, gan osgoi drwy hynny effeithiau ar ystlumod sy'n cymudo a allai ddefnyddio'r cymoedd i'r dwyrain. Mae'r Ardal yn dal i fod o fewn clustogfeydd nifer o AGAau/ACAau arfordirol (fel Sgomer, Sgogwm a Moroedd Penfro ac AGA Castlemartin Coast ac ACA Bae Caerfyrddin ac Aberoedd) yn ogystal ag ACA Afon Teifi, ACA Afon Tywi ac ACA Coetiroedd Gogledd Sir Benfro, ACA Safleoedd Ystlumod Sir Benfro a Llynnoedd Bosherston ac ACA Arfordir Calchfaen De-orllewin Cymru. |

| Ardaloedd | Rhesymeg dros eu dewis ac elfennau allweddol i'w hystyried wrth fireinio | Argymhellion ar gyfer diwygio'r Ardaloedd Blaenoriaeth gwreiddiol fel y'u nodwyd yn yr asesiad cychwynnol (Mawrth 2019) | Gwaith mireinio dyluniad dilynol, a goblygiadau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd i Ynni'r Haul a'r Gwynt o ran safleoedd Natura 2000/ Ramsar (Gorffennaf 2019) | Gwaith mireinio dyluniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. (Cyflwynir yr asesiad yn Nhabl B isod) (Mawrth 2020) |
|---|---|---|---|---|
| | | | annhebygol iawn o gael ei effeithio'n sylweddol gan ddatblygiad ynni'r haul, oni bai y byddai gosod paneli solar yn arwain at symudiad mawr o waddodion i mewn i'r afon (yr ystyrir sy'n annhebygol) gan effeithio o bosibl ar ei nodweddion cymhwyso yn yr afon fel dyfrgwn, llysywod pendoll a chrafang-y-frân arnofiol.<br><br>Yn amlwg, byddai'n fwy anodd cyflawnhau unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul y tu allan i'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd hyn, yn enwedig os ydynt wedi'u lleoli yn agosach at safleoedd Natura 2000/ Ramsar, er nad yw hynny'n golygu na ellir cydsynio cynigion datblygu o'r fath; fodd bynnag, byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwyadl. | |
| 007 Canolbarth a Gorllewin Cymru (Abertawe) (Mawrth 2019) [gweler Atodiad A]<br><br>Ardal Flaenoriaeth 13 (Gorffennaf 2019)<br><br>**Tynnwyd Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw o'r Ardal (Mawrth 2020)** | Ardaloedd yn cynnwys yr holl ardaloedd o gyfle mwyaf, lle ceir mynediad at y grid a ffyrdd hefyd. Ardal o gyfle amrywiol â chyflymder gwynt arbennig o uchel wedi'i chynnwys hefyd.<br><br>Agosrwydd at ardaloedd Landmap Synhwyraidd a Gweledol rhagorol ac uchel.<br><br>Agosrwydd at ardal adeiledig o gwmpas Llanelli. | **Yn yr Ardal Flaenoriaeth**<br>Ceir un safle Natura 2000 Caeau Mynydd Mawr SAC) yn unig o fewn ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth hon (y tybir yw'r ardal i'r gogledd-orllewin o Abertawe; gweler Ffigur 2, tudalen 1). Er y byddai ffermydd gwynt a ffermydd solar yn annhebygol o gael effaith fawr, gan y byddai colled cynefin yn gyfyngedig, nodir bod yr ACA hon mewn ardal o 'gyfle mwyaf', felly bydd angen bod yn ofalus i osgoi effeithiau uniongyrchol ar y safle hwn (neu osgoi'r safle yn gyfan gwbl, yn wir).<br>**Y Tu Allan i'r Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae AGA/safle Ramsar Bury Inlet yn uniongyrchol i'r de o'r Ardal Flaenoriaeth hon, felly byddai angen ystyried unrhyw gynigion ar gyfer ffermydd gwynt yn rhan ddeheuol yr Ardal Flaenoriaeth hon yn ofalus (mae'r rhan ddeheuol bellaf, er enghraifft, wedi'i lliwio'n wyrdd tywyll yn gyfan gwbl) gan fod y potensial yn bodoli i adar sy'n gysylltiedig â'r safle hwn gael eu heffeithio'n andwyol. Mae ACA Cernydd Carmel wedi ei gwasgu rhwng dwy brif ran yr Ardal Flaenoriaeth hon (gweler Ffigur 2, tudalen 1), ond mae'n ddigon pell o ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth i beidio â chael ei heffeithio (yn enwedig o gofio nad yw adar nac ystlumod yn rhan o'r dynodiad). | Mae'n eglur o gymhariaeth syml rhwng map gwreiddiol yr Ardal Flaenoriaeth (gweler Atodiad A) a'r fersiwn a fireiniwyd (gweler Ffigur 1, Atodiad B) bod ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn y rhan hon o dde Cymru (Ardal Flaenoriaeth newydd 13) wedi cael eu lleihau'n sylweddol er mwyn osgoi effeithiau ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Hefyd, mae'r gwahaniaeth (ar y map Ardaloedd Blaenoriaeth newydd) rhwng yr ardaloedd hynny a ddynodwyd ar gyfer datblygiad ynni'r haul yn unig (fel sy'n wir yng nghyswllt Ardal Flaenoriaeth 13) a'r rhai a ddynodwyd ar gyfer ynni'r gwynt a'r haul wedi ei gwneud yn haws i asesu'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 13**<br><br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon hefyd yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Hefyd, mae'r ardal hon wedi ei dynodi ar gyfer datblygiad ynni'r haul posibl yn unig bellach, gan leihau'r perygl o effeithiau ymhellach. Er bod ACA Caeau Mynydd Mawr yn dal i fod wedi'i lleoli o fewn ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon, mae'n annhebygol iawn y byddai unrhyw ddatblygiad ynni'r haul yn cael ei gydsynio o fewn yr ACA hon neu'n agos ati, ac mae effeithiau pellter yn annhebygol iawn o ystyried mai'r nodwedd gymhwyso yw gloÿnnod byw britheg y gors, rhywogaeth cynefinoedd glaswelltir corsiog sy'n annhebygol iawn o gael ei heffeithio y tu hwnt i glustogfa leol iawn. Mae'r safle hwn yn annhebygol iawn felly o gael ei effeithio'n sylweddol gan ddatblygiad ynni'r haul; a dweud y gwir, mae datblygiad ynni'r haul yn aml yn cynnig cyfle i greu glaswelltir mwy cyfoethog ei rywogaethau, a allai ddarparu ffynonellau bwyd ychwanegol.<br><br>Fodd bynnag, mae ardal ddeheuol yr Ardal Flaenoriaeth newydd yn dal i fod o fewn clustogfa 20 cilomedr AGA/safle Ramsar Bury Inlet, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â'r safle hwn gael eu heffeithio (er y bydd ffermydd solar yn cael effeithiau llai na ffermydd gwynt, a pho fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br><br>Yn amlwg, byddai'n fwy anodd cyflawnhau unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul y tu allan i'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon, yn enwedig os yw wedi'i lleoli yn agosach at AGAau arfordirol a safleoedd Natura 2000/ Ramsar eraill, er nad yw hynny'n golygu na ellir cydsynio cynigion datblygu o'r fath; fodd bynnag, byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwyadl. | Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, tynnwyd Ardal Flaenoriaeth 13 o'r Polisi. |
| 008 De-ddwyrain Cymru [gweler Atodiad A] (Mawrth 2019)<br><br>Ardal Flaenoriaeth 14 (Gorffennaf 2019) | Ardal fawr, yn cydnabod topograffi amrywiol, cyflymder gwynt uchel, mynediad da ac agosrwydd at y grid a phoblogaeth (ac felly galw am ynni). Yn eithrio ardaloedd adeiledig mawr, ac eithrio gweithfeydd Port Talbot, o | **Yn yr Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae gan yr Ardal Flaenoriaeth hon (y tybir yw'r ardal fawr i'r dwyrain o Abertawe, yn ymestyn cyn belled ag ymyl gorllewinol Caerdydd a Chasnewydd) yn cynnwys pum safle ACA o fewn ei ffiniau: Blaen Cynon; Aberbargoed Grasslands, Glaswelltiroedd Cefn Cribwr, Blackmill Woodlands a Cardiff Beech Woods. Mae'n ymddangos bod bob un o'r pump yn cael ei osgoi yn ôl yr ardaloedd o wyrdd tywyll, ond mewn rhai achosion mae'r ardaloedd hyn o 'gyfle mwyaf' yn agos iawn, felly dylid nodi o hyd y byddai | Mae'n eglur o gymhariaeth syml rhwng map gwreiddiol yr Ardal Flaenoriaeth (gweler Atodiad A) a'r fersiwn a fireiniwyd (gweler Ffigur 1, Atodiad B) bod ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd yn y rhan hon o dde-ddwyrain Cymru (Ardal Flaenoriaeth newydd 14) wedi cael eu lleihau'n sylweddol, yn rhannol i osgoi effeithiau ar y safleoedd Natura 2000/ Ramsar. Hefyd, mae'r gwahaniaeth (ar y map Ardaloedd Blaenoriaeth newydd) rhwng yr ardaloedd hynny a ddynodwyd ar gyfer datblygiad ynni'r haul yn unig (coch) a'r rhai a ddynodwyd ar | Mae cymhariaeth rhwng yr Ardal Flaenoriaeth a'r Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw newydd yn dangos cyfangiad mawr oherwydd y penderfyniad i gael gwared ar yr Ardaloedd Blaenoriaeth ar gyfer ynni'r haul. Cafwyd gwared ar ddwy ran ynni'r haul fawr ac un rhan ynni'r haul fach o Ardal Flaenoriaeth 14 yn llwyr, a rhannwyd yr Ardal |

| Ardaloedd | Rhesymeg dros eu dewis ac elfennau allweddol i'w hystyried wrth fireinio | Argymhellion ar gyfer diwygio'r Ardaloedd Blaenoriaeth gwreiddiol fel y'u nodwyd yn yr asesiad cychwynnol (Mawrth 2019) | Gwaith mireinio dyluniad dilynol, a goblygiadau'r Ardaloedd Blaenoriaeth newydd i Ynni'r Haul a'r Gwynt o ran safleoedd Natura 2000/ Ramsar (Gorffennaf 2019) | Gwaith mireinio dyluniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus. (Cyflwynir yr asesiad yn Nhabl B isod) (Mawrth 2020) |
|---|---|---|---|---|
| **Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaws 9 and 10 (March 2020)** | ystyried ansicrwydd ar gyfer y dyfodol.<br><br>Ardal o arfordir treftadaeth yn debygol o fod yn fwy addas ar gyfer ynni'r haul nag ynni'r gwynt.<br><br>Radar.<br><br>Agosrwydd at aneddiadau.<br><br>Agosrwydd at Barc Cenedlaethol yn y gogledd. | unrhyw ffermydd gwynt neu solar yn y lleoliadau hyn yn cael eu cyfyngu gan bresenoldeb yr ACAau hyn.<br><br>**Y Tu Allan i'r Ardal Flaenoriaeth**<br>Mae ACA Môr Hafren AGA/safle Ramsar Severn Estuary wedi'i lleoli i'r de o'r Ardal Flaenoriaeth hon, felly byddai'n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer ffermydd gwynt yn rhan de-ddwyreiniol yr Ardal Flaenoriaeth o fewn clustogfa'r safle hwn ac felly byddai angen eu hystyried yn ofalus. Yn yr un modd, mae rhan orllewinol yr Ardal Flaenoriaeth o fewn clustogfa AGA/Safle Ramsar Bury Inlet, felly byddai angen ymdrin yn ofalus ag unrhyw ddatblygiad fferm wynt yma hefyd o gofio'r perygl i rywogaethau adar cymhwysol.<br>Mae nifer o safleoedd Natura 2000 eraill yn agos at ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth hon hefyd, sef: ACA Dunraven Bay, ACA Cynffig, ACA/safle Ramsar Cors Crymlyn, ACA Coedydd Nedd a Mellte, ACA Safleoedd Ystlumod Wysg, ac ACA Coedydd Cwm Clydach. O'r rhain, yr un a fyddai'n fwyaf tebygol o gael ei heffeithio fyddai ACA Safleoedd Ystlumod Wysg. Gan fod yr Ardal Flaenoriaeth o fewn clustogfa 10 cilomedr yr ACA hon, mae'r potensial yn bodoli i ystlumod o'r ardal gael eu heffeithio gan unrhyw fferm wynt yng nghornel gogledd-ddwyreiniol yr Ardal Flaenoriaeth (er unwaith eto nid yw ystlumod pedol lleiaf yn tueddu i hedfan ar uchder tyrbinau, felly nid yw'r perygl yn uchel). | gyfer ynni'r gwynt a'r haul (oren) wedi ei gwneud yn haws i asesu'r goblygiadau i safleoedd Natura 2000/ Ramsar.<br><br>**Ardal Flaenoriaeth Newydd 14**<br>Mae'r cyfangiad sylweddol i ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon (yn benodol i osgoi ACAau Blaen Cynon, Aberbargoed Grasslands a Cardiff Beech Woods) yn golygu bod effeithiau posibl wedi cael eu hosgoi i raddau helaeth. Er bod ACAau Glaswelltiroedd Cefn Cribwr a Blackmill Woodlands yn dal i fod wedi'u lleoli o fewn ffiniau rhan 'ynni'r haul yn unig' yr Ardal Flaenoriaeth newydd hon, mae'n annhebygol iawn y byddai unrhyw ddatblygiad ynni'r haul yn cael ei gydsynio o fewn yr ACA hon neu'n agos ati, felly mae'r safleoedd hyn yn annhebygol iawn o gael eu heffeithio gan ddatblygiad ynni'r haul. Mae ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr wedi'i dynodi ar sail ei gloÿnnod byw britheg y gors ac felly mae'n annhebygol iawn o gael ei heffeithio'n andwyol (yn yr un modd ag ACA Caeau Mynydd Mawr, gweler Ardal Flaenoriaeth 13, uchod), tra bod ACA Blackmill Woodlands wedi'i dynodi ar sail ei chynefin coetir derw, eto na fyddai'n cael ei heffeithio gan effeithiau pellter. Serch hynny, dylid nodi o hyd y bydd unrhyw ffermydd solar yn cael eu cyfyngu gan bresenoldeb yr ACAau hyn.<br>Er bod ffiniau'r Ardal Flaenoriaeth newydd wedi cyfangu, mae'r rhan orllewinol yn dal i fod o fewn clustogfa AGA/safle Ramsar Bury Inlet a'r rhan ddwyreiniol o fewn clustogfa Severn Estuary, felly bydd angen rhoi ystyriaeth i ba un a allai adar sy'n gysylltiedig â'r safleoedd hyn gael eu heffeithio (er po fwyaf y pellter, yr isaf y bydd y perygl o effeithiau).<br><br>Yn amlwg, byddai'n fwy anodd cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad ynni'r gwynt neu'r haul y tu allan i'r Ardal Flaenoriaeth newydd hon, yn enwedig os yw wedi'i lleoli yn agosach at yr AGAau a safleoedd Natura 2000/ Ramsar eraill, er nad yw hynny'n golygu na ellir cydsynio cynigion datblygu o'r fath; fodd bynnag, byddai angen Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd trwyadl. | Flaenoriaeth yn ddwy Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw newydd.<br><br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 9 (rhan orllewinol Ardal Flaenoriaeth 14 gynt)**<br><br>Mae cael gwared ar elfen ynni'r haul ddeheuol Ardal Flaenoriaeth 14 wedi golygu nad yw ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr a Blackmill Woodlands o fewn ffin yr Ardal mwyach. Mae Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 9 yn dal i fod o fewn clustogfa ACAau (fel ACA Blackmill Woodlands ac ACA Cardiff Beech Woods) yn ogystal â nifer o ACAau/AGAau arfordirol (fel AGA/ safle Ramsar Severn Estuary ac AGA/ safle Ramsar Bury Inlet).<br><br>**Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 10 (rhan ddwyreiniol Ardal Flaenoriaeth 14 gynt)**<br><br>Mae cael gwared ar elfen ynni'r haul fawr gogledd-orllewin Ardal a Aseswyd Ymlaen Llaw 10 wedi golygu nad yw clustogfeydd ACA Cwm Cadlan ac ACA Coedydd Nedd a Mellte o fewn yr Ardal mwyach. Mae'r Ardal yn dal i fod o fewn clustogfeydd ACA Blaen Cynon ac ACA Aberbargoed Grasslands, yn ogystal ag AGA Severn Estuary ac ACA Safleoedd Ystlumod Wysg ac ACA Safleoedd Ystlumod Dyffryn Gwy a Fforest y Ddena. |

Tabl B: Asesiad o Ardaloedd wedi eu Rhag-asesu ar gyfer Datblygu Ynni Gwynt

| Ardal wedi'i Rhag-asesu (PAA) | Safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn clustogfa PAA | Safleoedd Natura 2000/ Ramsar y mae'n bosibl yr effeithir arnynt | Effeithiau Posibl | Camau osgoi/lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| 1 | **Safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn y PAA:** 0<br>**Clustogfeydd safle Natura 2000/Ramsar o fewn y PAA:** 8 | **ACA Coedwigoedd Dyffryn Elwy**<br>Nodweddion cymhwyso: *Fforestydd Tilio- Acerion ar lethrau, sgrïau a cheunentydd* | Mae'r tair ACA hyn dros 3km o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>Er yr ystyrir effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol, bydd yn rhaid i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol (yn enwedig o ran effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r PAA (e.e. dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACAau ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gweithgareddau adeiladu). Hefyd bydd rhaid ystyried effeithiau posibl ar lwybrau cymudo a mannau porthi ystlumod pedol lleiaf sy'n gysylltiedig ag ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydyr (tua 8km i'r de-orllewin). | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): D, F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Cynllunio llwybrau ceblau a mynediad i sicrhau nad oes effaith andwyol ar uniondeb yr ACA.<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff ystlumod o'r cynefinoedd o fewn y PAA. |
| | | **ACA Coedwigoedd Penrhyn Creuddyn**<br>Nodweddion cymhwyso: *Fforestydd Tilio-Acerion ar lethrau, sgrïau a cheunentydd, glaswelltir sych lled-naturiol ac ansoddion prysgdir ar swbstradau calch (Festuco-Brometalia), coedwigoedd Taxus baccata Ynysoedd Prydain* | | |
| | | **ACA Mwyngloddiau Fforest Gwydyr**<br>Nodweddion cymhwyso*: glaswelltir Calaminariaidd o'r Violetalia calaminariae a'r ystlum pedol lleiaf* | | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): D, F, H* |
| | | **AGA Migneint-Arenig-Dduallt**<br>Nodweddion cymhwyso: *Bod tinwen, cudyll bach a hebog tramor* | Mae'r AGA hon i'r gorllewin o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>Bydd yn rhaid i unrhyw brosiectau o fewn y PAA asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y rhywogaethau o adar ysglyfaethus cymwys. Mae'r bod tinwen yn porthi dros ardaloedd eang a gallant fanteisio ar gynefinoedd sy'n weddol bell o'u safleoedd bridio. Mae SoDdGA Mynydd Hiraethog y tu allan i'r ACA ond y tu mewn i'r PAA. Un o nodweddion y SoDdGA yw'r bod tinwen ac ystyrir ei bod yn debygol fod y SoDdGA yn darparu cynefin ategol (er enghraifft, yn gweithredu fel llwybr cymudo rhwng tir porthi a'r fagwrfa) ar gyfer poblogaeth bod tinwen AGA Migneint. Mae'n debygol y caiff y PAA ei ddefnyddio hefyd gan y cudyll bach a'r hebog tramor sy'n gysylltiedig â'r AGA. Bydd angen asesu'r risg o wrthdrawiadau posibl yn ogystal â tharfu/ dadleoli.<br>Bydd yn rhaid i unrhyw brosiect hefyd asesu y potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar gynefinoedd AGA sy'n cynnal rhywogaethau ysglyfaethus (yn enwedig o ran effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r PAA (e.e. dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r AGA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu). | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): C, D, F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff y bod tinwen, yr hebog tramor a'r cudyll bach o'r PAA. [gallai opsiynau lliniaru posibl gynnwys (ond heb eu cyfyngu i): micro-leoli, lleihau maint tyrbinau a'r pellter rhyngddynt, neu wella cynefin oddi ar y safle]. |
| | | **AGA The Dee Estuary/ Safle Ramsar**<br>Nodweddion cymhwyso: *Morwennol bigddu, morwennol fechan, morwennol gyffredin, rhostog gynffonfrith, pibydd coesgoch, hwyaden yr eithin, corhwyaden, hwyaden lostfain, pioden y môr, cwtiad llwyd, pibydd yr aber, pibydd y mawn, rhostog gynffonddu, gylfinir, pibydd coesgoch, a chrynodiad o adar dŵr* | Mae'r safleoedd hyn i'r gogledd o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>• Ystyrir bod effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol yn AGA Bae Lerpwl ac AGA Morwenoliad Ynys Môn. Mae'r rhywogaethau cymwys y AGAau hyn gan mwyaf yn cael eu cysylltu â lleoliadau arfordirol ac yn annhebygol o ddefnyddio cynefinoedd o fewn y PAA yn rheolaidd.<br>• Mae gan rydyddion ac adar y dŵr sy'n cael eu cysylltu ag AGA The Dee Estuary a Thraeth Lafan y potensial i ddefnyddio cynefinoedd o fewn y PAA ar gyfer bridio a phorthi, ac felly bydd yn rhaid i brosiectau o fewn y PAA hon gadarnhau na fydd effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y rhywogaethau hyn (yn enwedig o ran colli tir sydd â chysylltiad gweithredol, tarfu/ dadleoli a'r risg o wrthdrawiadau). | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): C, D, F,*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>:<br>Cynllunio llwybrau ceblau a mynediad i sicrhau nad oes effaith andwyol ar gynefinoedd o fewn y PAA lle mae potensial i rywogaethau'r AGA eu defnyddio.<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff adar y dŵr a rhydyddion o'r PAA. |
| | | **AGA Traeth Lafan**<br>Nodweddion cymhwyso: *Pioden y môr, gylfinir, gwyach fawr gopog, hwyaden frongoch a'r pibydd coesgoch* | | |
| | | **AGA Morwenoliaid Ynys Môn**<br>Nodweddion cymhwyso: *Morwennol wridog, morwennol gyffredin, morwennol y gogledd, a morwennol bigddu.* | | |
| | | **AGA Bae Lerpwl**<br>Nodweddion cymhwyso: *Trochydd gyddfoch, gwylan fechan, morwennol fechan, morwennol gyffredin a môr-hwyaden ddu.* | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **ACA Migneint-Arenig-Dduallt**<br><br>Nodweddion cymhwyso: *Gweundiroedd sychion Ewrop, gorgors, merddwr oligotroffig i fesotroffig gyda llystyfiant o'r Littorelletea uniflorae a/neu'r Isoëto-Nanojuncetea, Llynnoedd a phyllau dystroffig naturiol, Gweundiroedd gwlyb gogledd yr Iwerydd gydag Erica tetralix, Hen goedwigoedd derw digoes gyda Ilex a Blechnum Ynysoedd Prydain* | Lleolir y ddwy ACA hyn i'r de a'r dwyrain o'r PAA – ni ragwelir effeithiau uniongyrchol.<br><br>Dim ond ymylon deheuol a gorllewinol y PAA sydd o fewn y glustogfa ac felly ystyrir bod effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol, bydd dal angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon asesu'r posibilrwydd o effeithiau andwyol anuniongyrchol (yn enwedig o ran effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r PAA (e.e. dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br><br>*Camau penodol i'r PAA:*<br><br>Cynllunio llwybrau ceblau a mynediad i sicrhau nad oes effaith andwyol ar uniondeb yr ACA. |
| | | **ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd**<br><br>Nodweddion cymhwyso**:** *Gweundiroedd sychion Ewrop, gorgors, glaswelltir sych lled-naturiol ac ansoddion prysgdir ar swbstradau calch (Festuco-Brometalia) (*safleoedd tegeirian pwysig, mignenni pontio a chorsydd crynedig, sgrïau calchaidd a calchistaidd ar y lefelau mynyddig hyd at y lefel alpaidd (Thlaspietea rotundifolii), llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant chasmoffytig* | | |
| | | **AGA Migneint-Arenig-Dduallt** | Fel yn PAA 1 | Fel yn PAA 1 |
| 2 | **Safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn y PAA:** 0<br><br>**Clustogfeydd safle Natura 2000/Ramsar o fewn y PAA:** 5 | **AGA Berwyn**<br><br>Nodweddion cymhwyso: *Boda tinwen, cudyll bach a hebog tramor a barcud coch* | Lleolir yr AGA hon i'r de o'r PAA - ni ragwelir effeithiau uniongyrchol.<br><br>Bydd angen i unrhyw brosiect o fewn y PAA asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y rhywogaethau o adar ysglyfaethus cymwys a allai defnyddio'r PAA fel adnodd porthi (mae'r bod tinwen a'r barcud coch yn gallu porthi dros ardaloedd eang a gallant fanteisio ar gynefinoedd sy'n weddol bell o'u safleoedd bridio), neu fel rhan o lwybr cymudo rhwng tir porthi a'r fagwrfa) Bydd angen asesu'r risg o wrthdrawiadau posibl yn ogystal â tharfu/ dadleoli.<br><br>Bydd yn rhaid i unrhyw brosiect hefyd asesu y potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar gynefinoedd AGA sy'n cynnal rhywogaethau ysglyfaethus (yn enwedig o ran effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r PAA (e.e. dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r AGA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu). | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): C, D, F, H*<br><br>*Camau penodol i'r PAA:*<br><br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff y bod tinwen, y cudyll bach, yr hebog tramor a'r barcud coch o'r PAA. [gallai opsiynau lliniaru posibl gynnwys (ond heb eu cyfyngu i): micro-leoli, lleihau maint tyrbinau a'r pellter rhyngddynt, neu wella cynefin oddi ar y safle].<br><br>Sicrhau y cynhaliwyd asesiad cyfunol digonol |
| | | **ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid**<br><br>Nodweddion cymhwyso*: Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion, eog yr Iwerydd, llyriad-y-dŵr arnofiol, lamprai'r nant, môr ac afon, pilcodyn a dyfrgi* | Lleolir y ACA hon i'r de o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br><br>Er yr ystyrir effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol, bydd angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon (yn enwedig yn y pen deheuol) asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y rhywogaethau cymwys. Yn arbennig, unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA o isafonydd o fewn y PAA a allai fod yn bwysig i bysgod mudol (tu hwnt i'r glustogfa 5km os oes angen). Hefyd bydd angen asesu effeithiau posibl ar y dyfrgi lle mae datblygiadau posibl yn digwydd i fyny'r afon o'r dyfrffosydd ar draws y crynhoad sy'n cynnwys yr ACA. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br><br>*Camau penodol i'r PAA:*<br><br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff pysgod mudol a'r dyfrgi o ddyfrffosydd o fewn y PAA (lle mae datblygiad i fyny'r afon o'r ACA). |
| | | **AGA Berwyn** | Fel yn PAA 2 | Fel yn PAA 2 |
| | | **ACA Berwyn a Mynyddoedd de Clwyd** | Fel yn PAA 2 | Fel yn PAA 2 |
| | | **AGA Migneint-Arenig-Dduallt** | Fel yn PAA 1 | Fel yn PAA 1 |
| 3 | **Safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn y PAA**: 0<br><br>**Clustogfeydd safle Natura 2000/Ramsar o fewn y PAA**: 6 | **ACA Coedydd Llawr-y-glyn**<br><br>Nodweddion cymhwyso: *Hen goedwigoedd derw digoes gyda Ilex a Blechnum Ynysoedd Prydain* | Mae'r ACA hon ar ochr dde-orllewinol y PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br><br>Er yr ystyrir effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol, bydd angen i unrhyw brosiectau o fewn ochr dde-orllewinol y PAA hon asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ( yn arbennig o ran, unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu). | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br><br>*Camau penodol i'r PAA:*<br><br>Cynllunio llwybrau ceblau a mynediad i sicrhau nad oes effaith andwyol ar uniondeb yr ACA. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **ACA Safleoedd Ystlumod Tanat ac Efyrnwy**<br>Nodwedd gymhwyso: *Ystlum pedol lleiaf* | Mae'r ACA hon i'r gogledd o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>Nid yw'r glustogfa ond yn cyrraedd blaen ochr ogledd-ddwyreiniol y PAA, ac felly ystyrir bod effeithiau andwyol sylweddol ar ystlumod pedol lleiaf yn annhebygol. Er hynny. Bydd yn rhaid i unrhyw brosiect o fewn rhan ogleddol y PAA sicrhau yr asesir effeithiau posibl ar ystlumod pedol lleiaf pan fyddant yn cymudo ac yn porthi. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): D, F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff ystlumod pedol lleiaf o'r PAA. |
| | | **AGA Craig yr Aderyn**<br>Nodwedd gymhwyso: *Brân goesgoch* | Mae'r ACA hon i'r gogledd o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol<br>Ystyrir bod effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol. Er bydd y frân goesgoch yn defnyddio ardaloedd mewndirol, gan mwyaf fe'i cysylltir â lleoliadau arfordirol ac felly yn annhebygol o ddefnyddio cynefinoedd o fewn y PAA yn rheolaidd. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): Dim*<br>*Camau penodol i'r PAA: Dim* |
| 4 | **Safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn y PAA**: 1<br>**Clustogfeydd safle Natura 2000/Ramsar o fewn y PAA:** 4 | **ACA Afon Gwy (Cymru) SAC**<br>Nodweddion cymhwyso: *Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion; mignenni pontio a chorsydd crynedig, cimwch afon crafanc wen, lamprai'r nant, môr ac afon, gwangen a herlyn, eog yr Iwerydd, pilcodyn a dyfrgi.* | Er bod Afon Gwy o fewn y PAA, mae'n annhebygol iawn y byddai caniatâd yn cael ei roi ar gyfer datblygiad ynni gwynt o fewn dyffrynnoedd afonol yr ACA.<br>Bydd angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y rhywogaethau cymwys. Yn arbennig, unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA o is-afonydd o fewn y PAA a allai fod yn bwysig i bysgod mudol (tu hwnt i'r glustogfa 5km os oes angen. Hefyd bydd angen asesu effeithiau ar y dyfrgi lle mae datblygiadau posibl yn digwydd i fyny'r afon o'r dyfrffosydd ar draws y crynhoad sy'n cynnwys yr ACA. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff pysgod mudol a'r dyfrgi o ddyfrffosydd o fewn y PAA (lle mae datblygiad i fyny'r afon o'r ACA). |
| | | **ACA Montgomery Canal**<br>Nodwedd gymhwyso*: Llyriad-y-dŵr arnofiol* | Mae'r gamlas i'r gogledd o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>Er yr ystyrir effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol, bydd angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon (yn enwedig ar yr ochr ogleddol) asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y rhywogaethau cymwys. Yn arbennig unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA o is-afonydd o fewn y PPA. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA: Dim* |
| | | **AGA Elenydd-Mallaen**<br>Nodweddion cymhwyso*: Cudyll bach a barcud coch* | Mae ymyl yr ACA i'r dwyrain o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>Bydd angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y cudyll bach a'r barcud coch a allai fod yn defnyddio'r PAA fel adnodd porthi. Bydd hefyd angen asesu effeithiau posibl ar gynefinoedd sy'n cynnal rhywogaethau ysglyfaethus er o ystyried y pellter o'r PAA, ystyrir y bydd effeithiau andwyol sylweddol ar y cudyll bach a'r barcud coch yn llai tebygol. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): C, D, F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff y cudyll bach a'r barcud coch o'r PAA. [gallai opsiynau lliniaru posibl gynnwys (ond heb eu cyfyngu i): micro-leoli, lleihau maint tyrbinau a'r pellter rhyngddynt, neu wella cynefin oddi ar y safle]. |
| | | **ACA Elenydd**<br>Nodweddion cymhwyso*: Glaswelltir Calaminariaidd o'r Violetalia calaminariae, gorgors, merddwr Oligotroffig i Fesotroffig gyda llystyfiant o'r Littorelletea uniflorae a/neu'r Isoëto*-*Nanojuncetea, gweundiroedd sychion Ewrop, Llyriad-y-dŵr arnofiol*<br>**ACA Coetiroedd Cwm Elan**<br>Nodweddion cymhwyso*: Hen goedwigoedd derw digoes gyda Ilex a Blechnum Ynysoedd Prydain, gweundiroedd sychion Ewrop, fforestydd Tilio-Acerion ar lethrau, sgrïau a cheunentydd,* | Lleolir y ddwy ACA hyn i'r gorllewin o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol<br>Dim ond ymylon de-orllewinol y PAA sydd o fewn y glustogfa ac felly ystyrir bod effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol, er hynny, bydd dal angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon asesu'r posibilrwydd o effeithiau andwyol anuniongyrchol (yn enwedig o ran effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r PAA (e.e. dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu). | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Cynllunio llwybrau ceblau a mynediad i sicrhau nad oes effaith andwyol ar uniondeb yr ACA. |
| 5 | **Safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn y PAA:** 1<br>**Clustogfeydd safle Natura 2000/Ramsar o fewn y PAA:** 1 | **ACA Rhos Goch**<br>Nodweddion cymhwyso: *cyforgors gweithredol, migneni pontio a chorsydd crynedig; Dolydd glaswellt y gweunydd ar bridd calchaidd, mawnog neu bridd cleiog a llidiog (Molinion caeruleae); Coetir cors; Fforestydd llifwaddodol gydag Alnus glutinosa a Fraxinus excelsior (Alno-Padion, Alnion incanae, Salicion albae)* | Er bod ACA Rhos Goch o fewn y PAA, mae'n annhebygol iawn y byddai caniatâd yn cael ei roi ar gyfer datblygiad ynni gwynt o fewn yr ACA.<br>Bydd dal angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon asesu'r posibilrwydd o effeithiau andwyol anuniongyrchol megis effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r datblygiad arfaethedig (e.e. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): A, F, G, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu. | Mae'n rhaid osgoi datblygu ffermydd gwynt o fewn yr ACA i sicrhau nad oes effeithiau andwyol uniongyrchol ar y nodweddion cymwys.<br>Mae'n rhaid cynllunio seilwaith gan gynnwys llwybrau ceblau a mynediad mewn modd sy'n sicrhau nad oes effaith andwyol ar uniondeb yr ACA. |
| | | **ACA Afon Gwy (Cymru)** | Fel yn PAA 4 | Fel yn PAA 4 |
| 6 | **Safleoedd Natura 2000/ Ramsar o fewn y PAA:** 2<br>**Clustogfeydd safle Natura 2000/Ramsar o fewn y PAA:** 8 | **ACA Rhos Talglas**<br>Nodweddion cymhwyso*: Dolydd glaswellt y gweunydd ar bridd calchaidd, mawnog neu bridd cleiog a llidiog (Molinion caeruleae) a glöyn byw britheg y gors* | Er bod ACA Rhos Talgas o fewn y PAA, mae'n annhebygol iawn y byddai caniatâd yn cael ei roi ar gyfer datblygiad ynni gwynt o fewn yr ACA.<br>Bydd dal angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon asesu'r posibilrwydd o effeithiau andwyol anuniongyrchol megis effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r datblygiad arfaethedig (e.e. dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): A, F, G, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Mae'n rhaid osgoi datblygu ffermydd gwynt o fewn yr ACA i sicrhau nad oes effeithiau andwyol uniongyrchol ar y nodweddion cymwys.<br>Mae'n rhaid cynllunio seilwaith gan gynnwys llwybrau ceblau a mynediad mewn modd sy'n sicrhau nad oes effaith andwyol ar uniondeb yr ACA. |
| | | **AGA Elenydd-Mallaen** | Fel yn PAA 4 | Fel yn PAA 4 |
| | | **ACA Cors Caron / Safle Ramsar**<br>Nodweddion cymhwyso*: Cyforgors gweithredol, cyforgorsydd diraddedig lle gellir cael aildyfiant naturiol o hyd, migneni pontio a chorsydd crynedig, Pantiau ar swbstradau mawn y Rhynchosporion, Coetir cors a dyfrgi*<br>**ACA Grogwynion**<br>Nodweddion cymhwyso*: Glaswelltir Calaminariaidd o'r Violetalia calaminariae a gweundiroedd sychion Ewrop* | Mae'r ACAau hyn i'r dwyrain o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>Er yr ystyrir effeithiau andwyol sylweddol anuniongyrchol yn annhebygol, bydd angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon (yn enwedig ar yr ochr ddwyreiniol) asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol megis effeithiau a gysylltir â llwybrau ceblau a mynediad i'r datblygiad arfaethedig (e.e. dirywio cynefin), yn ogystal ag unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA ac effeithiau posibl ar ansawdd aer yn sgil gwaith adeiladu. Hefyd bydd angen asesu effeithiau ar y dyfrgi lle mae datblygiadau posibl yn digwydd i fyny'r afon o'r dyfrffosydd ar draws y crynhoad sy'n cynnwys yr ACAau. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Cynllunio llwybrau ceblau a mynediad i sicrhau nad oes effaith andwyol ar uniondeb yr ACA. |
| | | **ACA Afon Teifi**<br>Nodweddion cymhwyso*: Cyrsiau dŵr o lefelau gwastadedd i fynyddig gyda'r llystyfiant Ranunculion fluitantis a Callitricho-Batrachion, Merddwr Oligotroffig i Fesotroffig gyda llystyfiant o'r Littorelletea uniflorae a/neu'r Isoëto-Nanojuncetea, Lamprai'r nant, môr ac afon, eog yr Iwerydd, pilcodyn, dyfrgi a llyriad-y-dŵr arnofiol* | Er bod rhan o'r ACA wedi ei leoli o fewn ochr dde-ddwyreiniol y PAA, mae'n annhebygol iawn y byddai caniatâd yn cael ei roi ar gyfer datblygiad ynni gwynt o fewn dyffrynnoedd afonol yr ACA.<br>Bydd angen i unrhyw brosiectau o fewn y PAA hon asesu'r potensial o effeithiau andwyol anuniongyrchol ar y rhywogaethau cymwys. Yn arbennig, unrhyw gysylltiadau hydrolegol â'r ACA o is-afonydd o fewn y PAA a allai fod yn bwysig i bysgod mudol (tu hwnt i'r glustogfa 5km os oes angen. Hefyd bydd angen asesu effeithiau ar y dyfrgi lle mae datblygiadau posibl yn digwydd i fyny'r afon o'r dyfrffosydd ar draws y crynhoad sy'n cynnwys yr ACA. | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff pysgod mudol a'r dyfrgi o ddyfrffosydd o fewn y PAA (lle mae datblygiad i fyny'r afon o'r ACA). |
| | | **ACA Bae Ceredigion**<br>Nodweddion cymhwyso*: Banciau tywod a orchuddir yn rhannol gan y môr drwy'r adeg, rifau, ogofâu môr sydd dan ddŵr neu'n rhannol dan ddŵr, dolffiniaid trwyn potel, lamprai môr ac afon a morloi llwyd* | Lleolir yr ACA hon i'r gorllewin o'r PAA – dim effeithiau uniongyrchol.<br>Mae'n annhebygol y caiff datblygiadau ffermydd gwynt yn y dyfodol o fewn y PAA unrhyw effeithiau ar y cynefinoedd morol a'r rhywogaethau a gysylltir â'r ACA. Er hynny efallai y bydd lamprai yn defnyddio dyfrffosydd o fewn y PAA, ac felly bydd angen asesu effeithiau posibl ar bysgod mudol lle mae cysylltiad hydrolegol â'r ACA o is-afonydd o fewn y PAA (tu hwnt i'r glustogfa 5km os oes angen ). | *Camau osgoi/lliniaru (cyfeiriwch at Dabl 6): F, H*<br>*Camau penodol i'r PAA:*<br>Sicrhau y cynhelir asesiadau i ddarganfod y defnydd a wnaiff pysgod mudol o ddyfrffosydd o fewn y PAA (lle mae datblygiad i fyny'r afon o'r ACA). |
